

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio cael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

28 Mehefin 2023

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cabinet yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion ac o bell trwy fideo-gynadledda Dydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2023 am 10.00am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Materion Personol**
3. **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 7 - 12)
5. **Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**
6. **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
7. **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda (Tudalennau 13 - 14)**
a) Adroddiad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar Gysylltedd Digidol
8. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Darpariaeth Cartref Gofal yn Hafan y Waun yn Aberystwyth**
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 15 - 34)

9. EITEM EITHRIEDIG (Tudalennau 35 - 40)

Nid yw'r adroddiad (Atodiad 1) ar yr eitem uchod ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.

Wrth ddelio â'r eitem hyn, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt am gau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r Cyfarfod.

**10. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch System Brynu Ddeinamig ar gyfer Gofal Cartref
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 41 - 44)**

11. EITEM EITHRIEDIG (Tudalennau 45 - 74)

Nid yw'r adroddiad (Atodiad A) ar yr eitem uchod ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.

Wrth ddelio â'r eitem hyn, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt am gau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r Cyfarfod.

**12. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Trefniadau Cydweithio Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu Cymru (awdurdod lleol) gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 75 - 140)**

**13. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Adroddiad ar waith ac effaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC) gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 141 - 210)**

**14. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Canllawiau Pontio ar gyfer ysgolion a lleoliadau - model cymorth cynhwysol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 211 - 236)**

**15. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Polisi Derbyn Ysgolion 2024/2025
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 237 - 254)**

16. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 255 - 256)**
17. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Trefniadau Tâl y Crwner Diwygiedig ar gyfer 2023/24 ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 257 - 262)**
18. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Ymgynghoriad Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 263 - 284)**
19. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 285 - 318)**

20. EITEM EITHRIEDIG (Tudalennau 319 - 342)

Nid yw'r adroddiad (Atodiad A) ar yr eitem uchod ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.

Wrth ddelio â'r eitem hyn, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt am gau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r Cyfarfod.

21. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Diweddariad ar y Gwasanaethau Bysiau Cyhoeddus gan gynnwys yr ymarfer caffael diweddar ER GWYBODAETH (Tudalennau 343 - 348)**

22. EITEM EITHRIEDIG (Tudalennau 349 - 350)

Nid yw'r adroddiad (Atodiad 1) ar yr eitem uchod ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.

Wrth ddelio â'r eitem hyn, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt am gau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r Cyfarfod.

23. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Tendrau ar gyfer Gwasanaethau Bws Lleol 526, 585 a 588
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 351 - 352)**
24. **EITEM EITHRIEDIG (Tudalennau 353 - 358)**
Nid yw'r adroddiad (Atodiad 1) ar yr eitem uchod ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.
- Wrth ddelio â'r eitem hyn, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt am gau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r Cyfarfod.
25. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Aildro'r Rhaglen Gyfalaf
ER GWYBODAETH (Tudalennau 359 - 370)**
26. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn - 2023/24-2025/26
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 371 - 376)**
27. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Aildro Refeniw Rheoladwy 2022/23
ER GWYBODAETH (Tudalennau 377 - 384)**
28. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Perfformiad Rheoli'r Trysorlys 2022/23
ER GWYBODAETH (Tudalennau 385 - 394)**
29. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Grantiau a ddyfarnwyd o dan Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion / Cronfa'r Degwm
ER GWYBODAETH (Tudalennau 395 - 400)**
30. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (17.03.23)
ER GWYBODAETH (Tudalennau 401 - 532)**
31. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Blynyddol y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad 2022-2023 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER GWYBODAETH (Tudalennau 533 - 552)**

32. Adendwm- Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch ystyried dull tymor canolig o gomisiynu gwasanaeth 'Tîm a Reolir' ar gyfer y Tîm Gofal a Gynlluniwyd, Porth Cynnal, i sicrhau bod digon o gapasiti i ddarparu gwasanaeth diogel a hyfyw yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor o ran diogelu ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 553 - 556)
33. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraidd

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 6 Mehefin 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 8 Mehefin 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 15 Mehefin 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 16 Mehefin 2023.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Euros Davies, Meirion Davies, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a Caryl Roberts.

(10.00am- 12.18pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Matthew Vaux am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Materion Personol

- i. Estynnwyd cydymdeimlad â theulu'r Arglwydd John Morris o Aberafan, cyn-Weinidog y Cabinet a chyn-Aelod Seneddol Llafur Cymru, a fu farw'n ddiweddar.
- ii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Tregaron ar ennill rali'r sir ac i Glwb Ffermwyr Ifanc Felinfach ar gynnal y digwyddiad llwyddiannus.
- iii. Estynnwyd llongyfarchiadau i blant, pobl ifanc ac athrawon Ceredigion ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri.
- iv. Estynnwyd llongyfarchiadau i Claire Lloyd, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Aberaeron, ar gael ei choronï'n bencampwraig bocsió Cymru ac ar ennill cystadlaethau'r delyn a'r piano yn Eisteddfod yr Urdd. Estynnwyd llongyfarchiadau i lanto Lloyd hefyd ar gael ei goroni'n bencampwr bocsió Cymru.
- v. Estynnwyd llongyfarchiadau i Stevie Williams ar gystadlu yn y Giro d'Italia yn ddiweddar.
- vi. Hefyd estynnwyd llongyfarchiadau i'r Athro Fonesig Elan Closs Stephens ar gael ei phenodi'n Gadeirydd Dros Dro Bwrdd y BBC.
- vii. Estynnwyd croeso cynnes i Clive Williams i'w gyfarfod cyntaf o'r Cabinet yn dilyn ei benodi'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Ysgolion.

3 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

- i. Datganodd y Cynghorwyr Gareth Davies a Keith Henson fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 8.
- ii. Datganodd y Cynghorydd Bryan Davies fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 19.

Tudalen 8

4 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 2 Mai 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

5 **Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**

- a. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
- b. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
- c. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
- d. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
- e. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
- f. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig

Nodwyd bod y deisebau uchod wedi dod i law ac y byddai'n cael ei thrin yn unol â'r canllawiau yn y Protocol Deisebau.

6 **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

7 **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

Dim.

8 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu PENDERFYNIAD:**

- i. Cymeradwyo Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru.
- ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Ymgynghorwyd yn helaeth ynghylch y strategaeth ac mae'n cynnig fframwaith ar gyfer darparu'r Gwasanaethau Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar mwyaf effeithiol yn ardal Hywel Dda.

9 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Cyflwyno Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

1. Derbyn y Cynllun Gweithredu drafft sydd wedi'i lunio i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru, fel ymateb cymesur i'r argymhellion yn yr adroddiad.
2. Bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn monitro'r Cynllun Gweithredu ar ôl chwe mis am gyfnod o flwyddyn er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud a bod y momentwm yn cael ei gynnal hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

Tudalen 9

3. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Sicrhau bod y gwelliannau priodol yn cael eu gwneud yn unol â gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru fel y gellir parhau i weithredu gwasanaeth cadarn a diogel.

10 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 3 2022-23

Nodwyd yr adroddiad.

11 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch y Cynnig o ran y Cynllun Tai Cymunedol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

- i. Cymeradwyo Cynnig y Cynllun Tai Cymunedol.
- ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Cefnogi llwybr newydd i berchentyaeth fforddiadwy ar gyfer trigolion Ceredigion sy'n gymwys.

12 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo gwneud dau Orchymyn Rheoleiddio Traffig ac y cyhoeddir Hysbysiad o Fwriad i'w Gwneud yn y wasg i'r perwyl hwnnw.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Fel bod effeithiau'r ddau Orchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol yn rhai parhaol.

13 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Mabwysiadu Ffordd Ddiddosbarth yn '100 Acre Wood', Cenarth: Mabwysiadu Ffordd sydd wedi'i Lledu

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo mabwysiadu'r ffordd ddiddosbarth sydd wedi'i lledu yn y safle a elwir yn '100 Acre Wood', drwy broses Adran 278 ac Adran 38 Deddf Priffyrdd 1980 a'i chynnal a'i chadw wedi hynny gan ddefnyddio arian cyhoeddus.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn galluogi i'r ffordd gael ei chynnal a'i chadw gan ddefnyddio arian cyhoeddus.

- 14 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Ffyrdd Digyfyngiad) (Cydgrynhoi) 2014 (Amrywiol Leoliadau yn Newid i'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol) (Gorchymyn Diwygio Rhif 23) 2023**

PENDERFYNIAD:

- i. Nodi atebion Swyddogion i'r gwrthwynebiadau a gafwyd.
- ii. Cymeradwyo gwneud y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol.
- iii. Cymeradwyo cyhoeddi Hysbysiad Gwneud dilynol yn y wasg leol i'r perwyl hwn, a gweithredu'r terfynau cyflymder newydd.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Mae'r cyfiawnhad dros newidiadau i drefniadau terfyn cyflymder ar y seiliau eang a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun cenedlaethol hwn; diogelwch ar y ffyrdd, lleihau difrifoldeb anafiadau, ac annog Teithio Llesol a Chynaliadwy.

- 15 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Adroddiad Monitro Blynnyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23**

PENDERFYNIAD:

- i. Cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynnyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion 2022-23.
- ii. Cymeradwyo cyhoeddi'r adroddiad ar wefan corfforaethol y Cyngor yn unol â'r dyletswydd statudol.
- iii. Cyflwyno'r adroddiad at sylw Comisiynydd y Gymraeg.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Dyletswydd Statudol Rheoliadau Safonau'r Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

- 16 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Hybu'r Gymraeg Ceredigion dros gyfnod 5 mlynedd, 2018-23**

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r Adroddiad, ac i:

- i. Gyflwyno at sylw Comisiynydd y Gymraeg
- ii. Gyflwyno'r adroddiad er gwybodaeth yng nghyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion
- iii. Gyhoeddi ar wefan corfforaethol y Cyngor, fel sy'n ofynnol o dan drefn Safonau'r Gymraeg.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Gofyniad Statudol o dan Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: Safon Rhif 146.

- 17 EITEM EITHRIEDIG**

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 18 ar yr agenda, Atodiad 1, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)

(Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r Cyfarfod.

PENDERFYNIAD:

Peidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

18 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Ysgol Ardal Newydd Dyffryn Aeron – Contract Adeiladu

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo rhoi Llythyr o Fwriad i C Wynne & Sons Ltd (sy'n masnachu fel Wynne Construction) gwerth hyd at £1.276m fel yr amlinellir yn yr adroddiad.
2. Derbyn y tendr oddi wrth C Wynne & Sons Ltd (sy'n masnachu fel Wynne Construction) ar gyfer y contract adeiladu gwerth £14,656,660 ar gyfer Ysgol Dyffryn Aeron, yn amodol ar y ffaith na fydd y contract hwn yn mynd rhagddo hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'n ffurfiol bod yr Achos Busnes Terfynol wedi'i gymeradwyo a bod y cyllid wedi'i gadarnhau.
3. Nodi, o dybio y bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol wedi hynny, y bydd gofyn i'r Cyngor neilltuo arian cyfatebol ychwanegol o oddeutu £1.1m yn niweddariad nesaf y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn caniatáu i'r gwaith o adeiladu ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron ddechrau ar y safle cyn gynted ag y bo modd.

19 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol

PENDERFYNIAD:

Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol.

20 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Agoriad Swyddogol y Ganolfan Lles, Llanbedr Pont Steffan

PENDERFYNIAD:

Enwebu person priodol i agor y Ganolfan Lles yn swyddogol.

Tudalen 12

Y rheswm dros y penderfyniad:

Cytuno i wahodd person priodol i agor y Ganolfan Lles yn swyddogol.

- 21 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Dyletswydd Trais Difrifol - Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu, a Llysoedd 2022**
Nododd Cabinet y ddyletswydd newydd ar y Cyngor a'r trefniadau ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
- 22 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet**
Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar
4 Gorffennaf 2023**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	4 Gorffennaf 2023
LLEOLIAD:	Hybrid/Siambr y Cyngor
TEITL:	Adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ynghylch Cysylltedd Digidol
DIBEN YR ADRODDIAD:	Darparu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2023

Derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor adroddiad diweddarau mewn perthynas â Chysylltedd Digidol, a oedd yn rhoi trosolwg o'r mentrau a'r prosiectau y mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd i gefnogi lefelau cysylltedd digidol ar draws y Sir.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ym mis Ionawr 2022 a oedd yn pwysleisio bod hygyrchedd i gysylltedd digidol dibynadwy o ansawdd 'da' yn hanfodol i breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr wrth gefnogi economi Ceredigion. Gyda datblygiadau cydlynol, gall seilwaith digidol weithredu fel catalydd ar gyfer twf busnes ac arloesedd yn ein sectorau wedi'u targedu a darparu gwell mynediad i gymunedau at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau. Bryd hynny, yn gynyddol oherwydd cyfyngiadau cyfnodau clo blaenorol, roedd yn amlwg bod cysylltedd digidol wedi dod yn rhan hanfodol o fywyd modern, gan ddylanwadu ar sut mae unigolion yn gweithio, cyfathrebu a chael mynediad at wasanaethau. Nid yw'r sefyllfa wedi newid wrth i ni i gyd barhau i addasu yn dilyn y pandemig gyda theuluoedd, busnesau a sefydliadau yn dibynnu fwyfwy ar y defnydd effeithiol o gysylltedd digidol i gynnal bywyd dydd-i-ddydd.

ARGYMHELLIAD:

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau y byddai'n fuddiol gwahodd cynrychiolwyr o'r Darparwyr Gwasanaeth i weithdy/cyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol ac argymhellwyd bod hyn yn cael ei ystyried gan y Cabinet.

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	4^{ydd} Gorffennaf 2023
Teitl:	Darpariaeth Cartref Gofal yn Hafan y Waun yn Aberystwyth
Pwrpas yr adroddiad:	Rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet ar ddatblygiadau diweddar ac ystyried cynnig i sicrhau dyfodol Cartref Gofal Hafan y Waun.
Er:	Penderfyniad
Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:	Y Cynghorydd Alun Williams – Gydol Oed, Llesiant, Gwasanaethau Gofal a Chymorth

1. Cefndir a Chyd-destun

Mae Hafan y Waun (HYW) yn gartref gofal sy'n cael ei redeg a'i reoli gan *Methodist Homes for the Aged* (MHA) ar Waun Fawr yn Aberystwyth. Rhoddodd y Cyngor les i MHA ym mis Ionawr 2007, a roddodd ddarn o dir yr adeiladodd MHA y cartref gofal arno.

Mae gan y cartref 90 ystafell wely, pob un yn en-suite. Mae yna 4 adain i gyd, a gall pob un ohonynt fod yn hunangynhwysol, mae cyntedd mawr wrth i chi ddod i mewn i'r cartref ac mae mannau cyffredin ar gael yn yr adenydd ar wahân ond hefyd ym mhrif ran y cartref. Mae MHA wedi darparu gofal dydd mewn anecs y gellir ei gyrchu'n uniongyrchol o'r cartref ac yn allanol, ond daeth hyn i ben ym mis Chwefror 2017. Mae gan y cartref hefyd ardd fawr sy'n gyfeillgar o safbwynt 'dementia' ac sy'n canolbwyntio ar ddull gardd synhwyrdd o weithredu.

Pan agorodd y cartref am y tro cyntaf roedd gan y Cyngor gytundeb prynu bloc ar gyfer yr holl welyau preswyl am gyfnod o 10 mlynedd ac ar y llawr uchaf roedd 40 o welyau nyrsio cyffredinol. Ym mis Rhagfyr 2010 penderfynodd yr Awdurdod Lleol ac MHA ar y cyd ddod â'r pryniant bloc ar gyfer gofal nyrsio i ben a gostyngodd MHA ei nyrsio i 20 gwely mewn dim ond un o'r adenydd i fyny'r grisiau. Yn 2016, cyflwynodd MHA hysbysiad i weddill y ddarpariaeth nyrsio, gyda hwn yn dod i ben ym mis Mawrth 2016. Daeth taliadau bloc y gwelyau preswyl i ben ym mis Chwefror 2017, ac ers hynny mae'r holl leoliadau wedi'u comisiynu ar sail prynu yn ôl y galw.

Mae cynnal lefelau staffio digonol wedi bod yn her erioed, yn fwy felly ers Covid ac oherwydd hyn, mae MHA wedi gorfod cyfyngu ar nifer y derbyniadau i'r cartref, gyda nifer presennol y preswylwyr yn eistedd ar ychydig dros 50. Mae gan MHA bolisi ar waith ar hyn o bryd i beidio â derbyn derbyniadau oherwydd y sefyllfa staffio, er gwaethaf y ffaith y dywedwyd bod recriwtio diweddar yn fwy cadarnhaol. Nid oes dim

rheolwr cofrestredig ar y safle ar hyn o bryd yn dilyn ymddiswyddiad, gyda'r swyddogaeth yn cael ei chyflawni gan reolwr rhanbarthol.

2. Sefyllfa MHA

Cysylltodd uwch reolwyr MHA â thîm Comisiynu'r Cyngor ym mis Mawrth 2023 yn gofyn am gael cyfarfod. Dywedodd MHA fod y cartref yn ei chael hi'n anodd yn ariannol a'i fod am drafod cyfleoedd ac opsiynau posibl mewn perthynas â chynnal y cartref yn y dyfodol. Wedi hynny, gwnaeth Bwrdd MHA benderfyniad ffurfiol i gynnal trafodaethau pellach gyda'r Cyngor i ystyried cynllun ar gyfer y dyfodol, gyda mandad i fynd ar drywydd trosglwyddiad lesddaliad a reolir fel opsiwn.

Cyhoeddodd MHA gyfathrebiadau mewnol i'w staff ar 02/05/23 i gadarnhau bod yr MHA yn bwriadu rhoi'r gorau i nifer o Gartrefi Gofal ar draws y DU a'i fod yn chwilio am Ddarparwyr parod i ymgymryd â'r rhain fel busnes gweithredol, gan gynnwys Hafan y Waun.

Safbwynt y Cyngor bryd hynny oedd 'Mae MHA wedi cysylltu â'r Cyngor ynghylch Hafan y Waun ac rydym yn gwbl ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â cholli cyfleuster mor bwysig yng Ngogledd y Sir. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gweld hwn yn gyfle i ddatblygu a gwella gwasanaethau allweddol yn y dyfodol. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda MHA i ganfod atebion tymor canolig i hirdymor, gyda'r nod o sicrhau dyfodol y Cartref.'

3. Ystyriaethau Cychwynnol

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor les adeilad 125 mlynedd gyda MHA ar gyfer Hafan y Waun, felly mae'r adeilad yn rhan o'r 'Eiddo' y mae'r Cyngor yn berchen arno. Mae gan y les rent hedyn pupur ar yr amod bod Contract sy'n ymwneud â Gofal yn bodoli, fel arall mae'n dychwelyd i werth rhentu llawnach. Mae'n rhaid i'r tenant (MHA) gynnal a chadw'r adeilad ynghyd â gweddill y safle ond pan ddaw'r les i ben, sut bynnag y daw i ben, byddai'r adeilad (ynghyd â'r tir) yn dychwelyd i feddiant y Cyngor. O ystyried bod yr ased wedi'i adeiladu tua 2007, mae'n adeilad pwrpasol modern cwbl weithredol sy'n bodloni gofynion sylfaenol AGC. Dylai fod angen llai o fuddsoddiad cyfalaf a chynnal a chadw na Chartref Gofal mwy nodweddiadol o arddull hŷn.

Felly mae'r opsiwn o ddod â'r ddarpariaeth drosodd i berchnogaeth y Cyngor trwy drosglwyddiad lesddaliad a reolir wedi dechrau cael ei archwilio. Byddai'r dull hwn o weithredu yn sicrhau bod y Cartref Gofal yn parhau i weithredu, bod swyddi Ceredigion yn cael eu diogelu cyn belled ag y bo modd a bod adnodd gwerthfawr yn parhau i gael ei ddarparu i'r sir a'n cymunedau. Byddai'n rhoi sicrwydd i'r preswylwyr presennol a'u teuluoedd ac yn atal y cynnwrf a'r her logistaidd sylweddol o symud a rhoi dros 50 o unigolion mewn Gartrefi Gofal newydd o dan y senario posibl arall o Gau'r Cartref.

Mae risgiau sylweddol i'r Cyngor pe bai'r cartref yn cael ei roi mewn sefyllfa lle byddai'n cau. Byddai colli prif gyfleuster preswyl Dementia'r Sir gyda lle i 90 o welyau yn golygu y byddai'n rhaid i ddefnyddwyr y gwasanaeth a theuluoedd ystyried lleoliadau y tu

allan i'r sir ac ymhell o'u cartrefi. Byddai cau'r cartref hefyd yn golygu bod angen dod o hyd i leoliadau eraill ar gyfer preswylwyr presennol y cartref (50+ o breswylwyr). Gallai fod difrod i enw da'r Cyngor hefyd gyda chanfyddiad y cyhoedd y dylid bod wedi gwneud mwy i sicrhau parhad y ddarpariaeth.

Byddai hefyd yn rhoi cyfleoedd strategol amrywiol posibl i wneud y mwyaf o'r lle adeiladu sydd ar gael o safbwynt y Cyngor, yn ogystal â cheisio gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu prosiectau arloesol trwy gydweithio, megis cefnogi darpariaeth cam-i-fyny a cham-i-lawr ar gyfer Ysbyty Bronglais.

4. Ystyriaethau Ariannol a Chyfreithiol

Er gwaethaf y cyfleoedd strategol a ddaw gyda'r opsiwn o drosglwyddo lesddaliad, o ystyried mai un o'r sbardunau ar gyfer sefyllfa MHA yw un o fynd i golledion ariannol, mae'n hollbwysig nad yw'r Cyngor yn ei dro yn mynd i golledion ariannol tebyg yn y pen draw.

Felly mae angen i strategaeth ariannol fod yn ei lle i reoli'r risgiau ariannol posibl. Byddai hyn yn cynnwys neilltuo cyllid refeniw (cynigir swm refeniw o £1.0m i'w glustnodi mewn cronfa wrth gefn i ganiatáu ar gyfer cyfnod trosiannol) ynghyd â rhywfaint o gyllid cyfalaf cychwynnol yn y flwyddyn ariannol gyfredol (cynigir swm cyfalaf o £200k i'w ddyrannu ar gyfer 23/24).

Ar yr ochr Gyfalaf, mae Arolwg o Gyflwr Adeiladau yn cael ei gynnal a bydd hyn yn helpu i fod yn sail i ofynion cyfalaf eraill yn y dyfodol gan gynnwys anghenion buddsoddi tymor canolig i hirdymor ar sail amnewid cydrannau ar ddiwedd cylch oes e.e. lifftiau / system wresogi / to ac ati. Adeiladwyd yr adeilad yn 2007, felly o'i gymharu â'r rhan fwyaf o Gartrefi Gofal eraill yn y sir, mae'n gyfleuster modern a adeiladwyd i'r pwrpas, er y gallai fod cydrannau allweddol yn dechrau cael eu hadnewyddu/amnewid.

Byddai'r dull hwn o weithredu hefyd yn golygu y byddai angen lefelau uwch o ddefnydd gwelyau. Byddai angen mwy o lwyddiant gyda recriwtio a chadw a dibyniaeth is ar staff Asiantaeth. Mae amodau a thelerau cyflogaeth y Cyngor (sy'n cynnwys lefelau Tâl a bennir yn genedlaethol gydag ychwanegiadau ar gyfer gweithio yn ystod y penwythnos a gyda'r nos, hawliau gwyliau blynyddol, cyfraniadau cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a thâl salwch y tu hwnt i dâl salwch statudol yn unig yn ogystal ag ystod lawer ehangach ar rai nad ydynt yn fuddion ariannol yn gynnig deniadol. Byddai proses TUPE ffurfiol ar gyfer staff presennol MHA o fewn cwmplas gweithrediadau presennol y Cartref Gofal. Mae cynhyrchu incwm ychwanegol o rannau dibreswyl o'r adeilad hefyd yn debygol o fod yn hanfodol. Byddai angen gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r lle sydd ar gael, a ddylai roi cyfleoedd integreiddio sylweddol o ran lechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor a'r Bwrdd lechyd ac mae'n debygol y bydd ffrydiau cyllid grant Llywodraeth Cymru a ddylai gynorthwyo gyda'r wedd hon.

Mae'n hanfodol felly bod yr holl ystyriaethau ac opsiynau a allai ddod o dan ddull gweithredu Cam 2 yn cael eu datblygu a'u gweithredu cyn gynted â phosibl ar ôl i Gam 1 gael ei gyflawni'n ddiogel. Os na ddatblygir opsiynau arloesol yn y dyfodol (a bod

y Cartref Gofal yn cael ei redeg yn union yr un modd), yna ni fydd yn gynaliadwy yn ariannol. Hyd yn oed gydag ystyriaethau ac opsiynau ehangach yn cael eu dilyn, nid oes dim sicrwydd y gellir cwrdd â diffygion ariannol yn gyfan gwbl, felly mae risg y gallai fod angen dod o hyd i ddarpariaeth ychwanegol yn y gyllideb ar ryw adeg yn ystod 2024/25.

Dangosir materion masnachol gan gynnwys Diwydrwydd Dyladwy Ariannol a Chyfreithiol yn fanylach yn Atodiad 1 (papur EITHRIEDIG).

5. Camau Nesaf Arfaethedig

Mae dull gweithredu Rheoli Prosiect strwythuredig wedi'i roi ar waith er mwyn canolbwyntio ar lunio'r opsiwn a ffeirir. Cefnogir hyn gan ffrydiau gwaith sy'n edrych ar y meysydd allweddol i'w hystyried gan gynnwys Adnoddau Dynol, Eiddo, Ystadau, Cyfreithiol a Llywodraethu, Cyllid, TGCh, Gofal Cymdeithasol Proffesiynol a Chyfathrebu.

Y dull arfaethedig o weithredu yw ystyried 2 gam gwahanol:

Cam 1: Cynllunio a gweithredu trosglwyddiad Cartref Gofal Hafan y Waun o MHA i berchnogaeth y Cyngor gan gynnwys trosglwyddiad lesddaliad wedi'i reoli y cytunwyd arno ar y cyfle ymarferol cynharaf, gyda ffocws cychwynol i sicrhau parhad gweithrediadau'r cartref gan y Cyngor o adeg trosglwyddo'r teitl lesddaliadol ymlaen ac i sicrhau bod pob agwedd angenrheidiol ar hyn yn cael ystyriaeth ddyledus, gan gynnwys cwblhau'r holl gytundebau cyfreithiol angenrheidiol i gyflawni hyn.

Cam 2: Datblygu a gweithredu dulliau cydweithredol ac arloesol o weithredu, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid allweddol, er mwyn gwneud y mwyaf o botensial datblygu safle Cartref Gofal Hafan y Waun, gyda'r nod o sicrhau bod gweithrediad cartref gofal a gynhelir gan y Cyngor yn ariannol gynaliadwy ac y gwneir y mwyaf o'r cyfle sy'n cyflwyno ei hun yn awr.

Er y bydd cymorth o ran Rheoli Prosiect wedi'i neilltuo i'r prosiect hwn, mae hon yn fenter fawr ac mae angen canolbwyntio cryn dipyn o amser swyddogion ar y prosiect hwn, a bydd yn parhau i fod angen gwneud hynny, er mwyn cyflawni canlyniad llwyddiannus er mwyn sicrhau canlyniad llwyddiannus yn y tymor byr a'r tymor canolig. Nid yw'n bosibl cadarnhau dyddiad penodol ar gyfer trosglwyddo lesddaliad ar hyn o bryd, ond mae'n debygol y gellid ei gyflawni yn ystod Ch3 y flwyddyn ariannol gyfredol.

Bydd swyddogion yn gweithio'n agos gydag uwch staff MHA fel rhan o'r dull gweithredu Rheoli Prosiect strwythuredig i sicrhau y byddai'r trawsnewidiad i berchnogaeth y Cyngor yn cael ei wneud mor ddiogel â phosibl, tra hefyd yn sicrhau bod y cartref yn parhau i weithredu fel arfer a rhoi'r gofal gorau posibl i'r preswylwyr.

Tudalen 19

Argymhellion:	<ol style="list-style-type: none">1. Nodi cynnwys yr adroddiad.2. Cydnabod a nodi'r Materion Masnachol (gan gynnwys Diwydrwydd Dyladwy Ariannol a Chyfreithiol) a gynhwysir yn Atodiad 1 (Eitem EITHRIEDIG).3. Awdurdodi Swyddogion i fwrw ymlaen â'r dull gweithredu Cam 1 arfaethedig, sy'n cynnwys 'Cynllunio a gweithredu'r broses o drosglwyddo Cartref Gofal Hafan y Waun o MHA i berchnogaeth y Cyngor gan gynnwys trosglwyddiad lesddaliad a reolir y cytunwyd arno ar y cyfle ymarferol cynharaf, a chynnwys cwblhau'r holl gytundebau cyfreithiol angenrheidiol i gyflawni hyn'.4. Awdurdodi Swyddogion i wneud a gweithredu gwaith datblygu mewn perthynas â'r dull gweithredu Cam 2 arfaethedig.
Rhesymau dros y penderfyniad:	Diogelu dyfodol agos Cartref Gofal Hafan y Waun a chaniatáu i Swyddogion symud ymlaen fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.
Trosolwg a Chraffu:	Dim
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	<ul style="list-style-type: none">• Cynigir bod cyllid refeniw o £1.0m yn cael ei glustnodi yn y gronfa wrth gefn Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach er mwyn caniatáu cyfnod trosiannol ar draws 23/24 a rhan o 24/25.• Cynigir dyrannu cyllid cyfalaf cychwynnol o £200k yn 23/24.• Risg o ddiffyg parhaus yn y Gyllideb y tu hwnt i'r cyfnod trosiannol cychwynnol.• Amlinellir ymhellach yn Atodiad 1 (Eitem Eithriedig)
Goblygiadau Cyfreithiol:	Amlinellir yn Atodiad 1 (Eitem Eithriedig)
Goblygiadau Staffio:	Amlinellir yn Atodiad 1 (Eitem Eithriedig)
Goblygiadau eiddo / asedau:	Amlinellir yn Atodiad 1 (Eitem Eithriedig)
Risg(iau):	Amlinellir yn Atodiad 1 (Eitem Eithriedig)

Tudalen 20

Pwerau Statudol:	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (fel y'u diwygiwyd)
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad 1 – Materion Masnachol gan gynnwys Diwydrwydd Dyladwy Ariannol a Chyfreithiol (EITHRIEDIG)
Swyddogion Arweiniol Corfforaethol:	Donna Pritchard – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal Audrey Somerton-Edwards – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal Greg Jones – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyfreithiol a Llywodraethu Lowri Edwards – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd Alan Morris – Swyddog Arweiniol Corfforaethol TGCh a Gwasanaethau i Gwsmeriaid Geraint Edwards – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth Russell Hughes-Pickering – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio
Swyddogion Adrodd:	Donna Pritchard – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyfreithiol a Llywodraethu Greg Jones – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar Lowri Edwards – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd Geraint Edwards – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth George Ryley – Rheolwr Corfforaethol Caffael a Chomisiynu
Dyddiad:	15/06/23

Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



This **Integrated Impact Assessment tool** incorporates the principles of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and the Sustainable Development Principles, the Equality Act 2010 and the Welsh Language Measure 2011 (Welsh Language Standards requirements) and Risk Management in order to inform effective decision making and ensuring compliance with respective legislation.

1. PROPOSAL DETAILS: (Policy/Change Objective/Budget saving)

Proposal Title	Hafan Y Waun Project				
Service Area	Residential care home	Corporate Lead Officer	Donna Pritchard	Strategic Director	James Starbuck
Name of Officer completing the IIA	Donna Pritchard	E-mail	Donna.pritchard@ceredigion.gov.uk	Phone no	

Please give a brief description of the purpose of the proposal

Hafan Y Waun (HYW) is a care home run and managed by Methodist Homes for the Aged (MHA) and is on Waun Fawr in Aberystwyth. Senior managers from MHA contacted the Council Commissioning team in March 2023 asking to meet and subsequently reported that the home has been struggling financially for the past couple of years. They wish to discuss with the Council potential opportunities in relation to maintaining the home within the county going forward.

The option of bringing the provision over to Council ownership in a managed is proposed and would ensure that the home continues to operate, providing a valuable resource to our county/ community whilst securing the placements already in situ, preventing the upheaval of moving 54 individuals to new homes under the possible alternative scenario of a potential Home Closure. A Project group has been initiated to focus on a number of key workstreams. These workstreams will include matters relating to several key areas of consideration including HR, Property, Estates, Legal and Governance, Finance, ICT, Professional Social Care & Communications

Who will be directly affected by this proposal? (e.g. The general public, specific sections of the public such as youth groups, carers, road users, people using country parks, people on benefits, staff members or those who fall under the protected characteristics groups as defined by the Equality Act and for whom the authority must have due regard).

The key groups affected will be the current cohort of residents residing in the home. The project will also impact on their families and carers as well as the staff currently employed in the home.

VERSION CONTROL: The IIA should be used at the earliest stages of decision making, and then honed and refined throughout the decision making process. It is important to keep a record of this process so that we can demonstrate how we have considered and built in sustainable development, Welsh language and equality considerations wherever possible.

Tudalen 21

Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



Author	Decision making stage	Version number	Date considered	Brief description of any amendments made following consideration
Donna Pritchard	Initial draft	V1		N/A

COUNCIL STRATEGIC OBJECTIVES: Which of the Council's Strategic Objectives does the proposal address and how?

Boosting the Economy, supporting Business and enabling employment.	Hafan y Waun is a 90 bedded care home in the North of the County, it provides a valuable resource in delivering Dementia residential care. The home employs a high number of staff (Approx 90), ranging from management, care staff, catering and facilities staff. The success of this project will ensure the sustainability of the home for the future, secure the current workforce and provide opportunities for further employment in the future.
Creating caring and healthy communities	Dementia residential care is a specialist provision and there is currently limited availability within county. Without this facility people with dementia would have to be placed in homes out of county.
Providing the best start in life and enabling Learning at all ages	Possible future opportunities for working with Aberystwyth University on the delivery of the Nursing courses provided currently as well as potential to explore opportunities of working with Local Learning Establishments on the practical delivery of their care related courses including Social care
Creating sustainable, greener and well-connected communities	N/A

NOTE: As you complete this tool you will be asked for **evidence to support your views**. These need to include your baseline position, measures and studies that have informed your thinking and the judgement you are making. It should allow you to identify whether any changes resulting from the implementation of the recommendation will have a positive or negative effect. Data sources include for example:

- *Quantitative data - data that provides numerical information, e.g. population figures, number of users/non-users*
- *Qualitative data – data that furnishes evidence of people's perception/views of the service/policy, e.g. analysis of complaints, outcomes of focus groups, surveys*
- *Local population data from the census figures (such as Ceredigion Welsh language Profile and Ceredigion Demographic Equality data)*
- *National Household survey data*
- *Service User data*
- *Feedback from consultation and engagement campaigns*
- *Recommendations from Scrutiny*
- *Comparisons with similar policies in other authorities*

Tudalen 22



- Academic publications, research reports, consultants' reports, and reports on any consultation with e.g. trade unions or the voluntary and community sectors, 'Is Wales Fairer' document.
- Welsh Language skills data for Council staff

2. SUSTAINABLE DEVELOPMENT PRINCIPLES: How has your proposal embedded and prioritised the five sustainable development principles, as outlined in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, in its development?

Sustainable Development Principle	Does the proposal demonstrate you have met this principle? If yes, describe how. If not, explain why.	What evidence do you have to support this view?	What action (s) can you take to mitigate any negative impacts or better contribute to the principle?
Long Term Balancing short term need with long term and planning for the future.	<ul style="list-style-type: none"> • The prevalence of dementia is increasing as our aging population increases. • There will be an increased need for specialist residential provision to support the rising demand for care 	The 2021 census reported that most people diagnosed as living with Dementia in Ceredigion are over 65 years of age (97%). This is the age group that has seen a dramatic increase in population change with 2,700 more 65+ people in Ceredigion than in 2011, leading to a 17.2% increase in 10 years.	Bringing Hafan Y Waun into Council ownership and operation will enable a long term plan to be developed to meet the needs of this population group in the future. It will create opportunities for integrated innovation and creative delivery models
Collaboration Working together with other partners to deliver.	<ul style="list-style-type: none"> • The project will require the Council to work collaboratively with the current owners of the provision as part of the transition arrangements and longer term with key partners such as the Health Board and 3rd Sector in supporting the delivery of services in the future. 	Project Board in place with partners involved in the process	Robust project management support to ensure the project board delivers on its objectives.
Involvement Involving those with an interest and seeking their views.	Following the initial phase of the project in managing the transfer of the home the project team will ensure that the residents, families and carers will be involved in the development of the	Communication plans from MHA Project plan	

Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



	proposed model of care for the future, There is regular communication to all groups on the current situation and progress being made.		
Prevention Putting resources into preventing problems occurring or getting worse.	The project board monitors progress and risks associated with the work programme, identifies any emerging issues or challenges and ensures that actions are taken as needed.	Project plan	
Integration Positively impacting on people, economy, environment and culture and trying to benefit all three.	The project will have a positive impact in relation to maintaining job Security, future provision of dementia residential care and will create opportunities to work in Partnership with key stakeholders in delivering innovative services for the future.	Project plan	

3. WELL-BEING GOALS: Does your proposal deliver any of the seven National Well-being Goals for Wales as outlined on the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015? Please explain the impact (positive and negative) you expect, together with suggestions of how to mitigate negative impacts or better contribute to the goal. We need to ensure that the steps we take to meet one of the goals aren't detrimental to meeting another.

Well-being Goal	Does the proposal contribute to this goal? Describe the positive or negative impacts.	What evidence do you have to support this view?	What action (s) can you take to mitigate any negative impacts or better contribute to the goal?
3.1. A prosperous Wales Efficient use of resources, skilled, educated people, generates wealth, provides jobs.	Successful completion of the project will support the ongoing employment of the current staff within the home as well as create opportunities for further employment in the future. There will be opportunities for Health and social care student placements and building of links with Aberystwyth University in the future.	Existing staffing numbers (approx. 90)	

Tudalen 24

Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



<p>3.2. A resilient Wales Maintain and enhance biodiversity and ecosystems that support resilience and can adapt to change (e.g. climate change).</p>	<p>N/A</p>		
<p>3.3. A healthier Wales People's physical and mental wellbeing is maximised and health impacts are understood.</p>	<p>Ensuring the continuation of this important resource within the county is essential in the provision of local quality Standard care for the older population of Ceredigion</p>		
<p>3.4. A Wales of cohesive communities Communities are attractive, viable, safe and well connected.</p>	<p>Hafan y Waun has been an important establishment within the Town of Aberystwyth and the North of the County and has become an integral part of the local Community and this should continue in the new arrangements.</p>		
<p>3.5. A globally responsible Wales Taking account of impact on global well-being when considering local social, economic and environmental well-being.</p>	<p>N/A</p>		

Tudalen 25

Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



Mae cefnogi ein hysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yn y cyfleoedd gorau oll i ffynnu yn eu bywydau ac yn eu cymunedau lleol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2023 – 2024.

Deallwn y bydd adferiad o effaith y pandemig yn cymryd blynyddoedd lawer, ac felly mae cefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr ar bob lefel yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Byddwn yn cefnogi ein hysgolion i gynllunio'n effeithiol ar gyfer cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i bob ymarferwr, beth bynnag fo'u cyfnod yn eu gyrfa i wella'r ddarpariaeth ar gyfer lles a chynnydd dysgwyr a sicrhau bod prosesau hunan-werthuso yn onest ac yn gywir wrth nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella.

O werthu ein gwaith o 2022 – 2023, ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a'r telerau ac amodau a nodir yn Atodiad 1 a 2 y Grant Consortia Rhanbarthol (RCG), bydd Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol ar gyfer 2023 – 2024:

TROSOLWG O FLAENORIAETHAU 2023 - 2024

1. Cefnogi holl ysgolion PACC i ddatblygu **dulliau dysgu ac addysgu effeithiol** er mwyn sicrhau bod **dysgwyr yn gwneud y cynnydd** disgwylidig.
2. Cefnogi holl ysgolion PACC i sicrhau bod **dylunio a gweithrediad y cwricwlwm o ansawdd uchel**, gan adeiladu arferion addysgeg, dilyniant ac asesu effeithiol gyda ffocws penodol ar fedrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.
3. Datblygu cefnogaeth bellach i ysgolion i sefydlu ymagwedd ysgol gyfan wrth gefnogi **lles dysgwyr ac ymarferwyr a sicrhau ecwiti** o ran profiadau er mwyn **lleihau effaith tloedi ac amddifadedd ar gynnydd dysgwyr**.
4. Cefnogi ymarferwyr PACC i ddilyn **llwybrau arweinyddiaeth a datblygiad** cenedlaethol a lleol fel bod arferion pob ymarferydd PACC yn gryf ac effeithiol gan **ddylanwadu'n gadarnhaol ar les a chynnydd dysgwyr**.
5. Datblygu ymhellach **drefniadau** cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a **llywodraethu cryf** PACC.

Mae'r 5 blaenoriaeth ar gyfer 23/24 yn cyd-fynd â'r meysydd canlynol yn atodiad 2 o'r RCG:

		datblygu dulliau dysgu ac addysgu effeithiol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwylidig	dylunio a gweithrediad y cwricwlwm o ansawdd uchel	ymagwedd ysgol gyfan wrth gefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr a sicrhau ecwiti o ran profiadau er mwyn lleihau effaith tlodi ac amddifadedd ar gynnydd dysgwyr	Ilwybrau arweinyddiaeth a datblygiad cenedlaethol a lleol fel bod arferion pob ymarferydd PACC yn gryf ac effeithiol gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar les a chynnydd dysgwyr	Datblygu ymhellach drefniadau cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywodraethu cryf PACC.
A. Cymorth cwricwlwm ac asesu	Gwella gwybodaeth ac ymarfer wrth ddylunio, asesu a sicrhau dilyniant o fewn y cwricwlwm	✓	✓	✓		✓
	Hyrwyddo ymgysylltiad uniongyrchol ysgolion â thrafodaethau polisi ac ymarfer drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol	✓	✓			✓
	Gwella medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yng Nghymru fel y nodir yn Sgiliau Traws Gwricwlwm	✓	✓			✓
	Ymateb yn adeiladol i flaenoriaethau presennol a datblygol y llywodraeth ar gyfer cefnogi'r cwricwlwm ysgol	✓	✓			✓
	Adeiladu capasiti yr haen ganol i gefnogi ysgolion ac Unedau Cyfeirio drwy ddiwygio'r cwricwlwm			✓		

		datblygu dulliau dysgu ac addysgu effeithiol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwylidig	dylunio a gweithrediad y cwricwlwm o ansawdd uchel	ymagwedd ysgol gyfan wrth gefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr a sicrhau ecwiti o ran profiadau er mwyn lleihau effaith tloedi ac amddifadedd ar gynnydd dysgwyr	llywybrau arweinyddiaeth a datblygiad cenedlaethol a lleol fel bod arferion pob ymarferydd PACC yn gryf ac effeithiol gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar les a chynnydd dysgwyr	Datblygu ymhellach drefniadau cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywodraethu cryf PACC.
B. Addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel	Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad dysgu	Cyllid yn cael ei rannu yn uniongyrchol i ysgolion er mwyn ymgysylltu â dysgu proffesiynol				
	Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio ym maes cynllunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn medrau ymholi ac addysgeg yr holl staff (NPEP)		✓			✓
	Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferydd mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad sy'n dysgu		✓			✓
	Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio ym maes cynllunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn medrau ymholiadau ac addysgeg yr holl staff	✓	✓			✓
	Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad sy'n dysgu. Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu Lefel A ac WBQ Sefydlu / Cymorth Gyrfa Cynnar				✓	✓
	Ymgorffori myfyrdod, hunan-werthuso a gwella mewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth ysgol dda fel rhag-amod ar gyfer hynny				✓	✓
	Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd	✓				✓
	Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed	✓	✓	✓	✓	✓

<p>Maes Blaenoriaeth 1</p> <p>Priority Area 1</p>	<p>Cefnogi holl ysgolion PACC i ddatblygu dulliau dysgu ac addysgu effeithiol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwylledig.</p>
<p>Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru Welsh Government Priorities</p>	<p>RCG - Rhan o'r wyth ffactor gyfrannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu llawn botensial, sy'n gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn. • Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr. • Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg yr holl staff. • Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliadau sy'n dysgu. • Ymgorffori myfyrio, hunan-werthuso a gwelliant o fewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgolion fel sail ar gyfer hynny. • Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.
<p>Prif Swyddog (ion) Lead Officer (s)</p>	<p>Chris Davies, Sally Llewellyn, Aled Rumble, Rhianydd James & Elen Gwenllian Davies</p>
<p>Rhesymeg Rationale</p>	<p>Ledled Ceredigion a Phowys nodir arferion addysgeg cryf, fodd bynnag, o fewn ac ar draws PACC ceir gormod o amrywiaeth o hyd o ran ansawdd y dysgu a'r addysgu.</p> <p>Mae dulliau addysgol cryf ac effeithiol yn ganolog i wella cynnydd a chanlyniadau dysgwyr, ac mae ymchwil wedi dangos sut y gall addysgu o ansawdd uchel wneud y gwahaniaeth mwyaf i ddysgu, ac yn y pen draw lleihau'r bwlch anfantais. Er mwyn cefnogi pob ysgol ac ymarferydd i ddarparu addysgu o ansawdd uchel, mae'n bwysig eu bod yn cael datblygiad proffesiynol effeithiol. Fel yr eglura gan Rauch a Coe gellid dadlau mai dyma'r peth pwysicaf y gall athrawon ac arweinwyr ysgol ganolbwyntio arno i wneud gwahaniaeth ym maes dysgu plant. Yn fwy na hynny, nid yw ansawdd yr</p>

	<p>addysgu yn sefydlog: gellir gwella athrawon, a gellir eu gwella drwy ddatblygiad proffesiynol effeithiol.²</p> <p>Mae cefnogi dysgwyr i symud ymlaen a chyflawni yn hanfodol ac un agwedd o addysgu effeithiol yw darparu adborth effeithiol.</p>
<p>Bwriad cyffredin</p> <p>Overarching intention</p>	<p>Darparu dysgu proffesiynol cyffredinol ac wedi'i dargedu ar gyfer ysgolion, lleoliadau nas gynhelir a chlystyrau, fel bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr holl dysgu proffesiynol a ddarperir o ansawdd uchel ac effeithiol gan arwain at allu addysgu gwell ymarferwyr • cefnogaeth i ysgolion i gynllunio a gwneud yr amser a'r lle ar gyfer dysgu proffesiynol yn effeithiol fel bod y grant dysgu proffesiynol yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl gorau gyda diwylliant cadarnhaol o welliant parhaus ym mhob ysgol • y rhan fwyaf o ysgolion yn ymgysylltu ac yn hyderus yn y defnydd effeithiol o'r adnodd cenedlaethol "Cefnogi Dysgwyr Bregus trwy Addysgu a Dysgu effeithiol"³ fel bod dysgu proffesiynol ar gyfer pob ymarferydd wedi'i strwythuro a'i hwyluso i gynyddu eu gallu addysgu • gan ymarferwyr arferion effeithiol i gefnogi gwelliant mewn addysgu a dysgu gyda ffocws ar adborth effeithiol ac asesu ffurfiannol.
<p>Meini Prawf Llwyddiant</p> <p>Success Criteria</p>	<p><u>Tymor byr:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu cryf gan y rhan fwyaf o ysgolion PACC yn y rhaglen dysgu proffesiynol • Adborth cadarnhaol gan y grŵp cyfeirio penaethiaid ynglŷn â chynnig dysgu proffesiynol PACC. <p><u>Hir dymor:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwell arferion addysgu a dysgu ar draws pob ysgol PACC • Mae triongli gydag adroddiadau YGY yn dangos cynnydd mewn arferion addysgu a dysgu ar draws ysgolion PACC

² [Effective Professional Development | EEF \(educationendowmentfoundation.org.uk\)](https://www.eef.org.uk/effective-professional-development)

³ [Supporting Vulnerable Learners](#)

- Mae canlyniadau arolygiadau gan Estyn o ysgolion Ceredigion a Phowys yn dangos gostyngiad yn nifer yr ysgolion mewn categori statudol ac yn adnabod arfer da i'r rannu trwy astudiaethau achos. (Ym mis Ebrill 2023, roedd dwy ysgol PACC mewn categori statudol (Powys: 2 | Ceredigion: 0))
- Canlyniadau dysgwyr cryf – canlyniadau CAP9 ysgolion PACC.

<p>Maes Blaenoriaeth 2</p> <p>Priority Area 2</p>	<p>Cefnogi holl ysgolion PACC i sicrhau bod dylunio a gweithrediad y cwricwlwm o ansawdd uchel, gan adeiladu arferion addysgeg, dilyniant ac asesu effeithiol gyda ffocws penodol ar fedrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.</p>
<p>Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru Welsh Government Priorities</p>	<p>RCG - Rhan o'r wyth ffactor gyfrannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu llawn botensial, sy'n gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn. • Cyd-lunio cwricwlwm sy'n hyrwyddo ystod eang o wybodaeth, medrau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithio) gyda dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n bwysig - mae cymwysterau yn rhan allweddol o hyn. • Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg yr holl staff. • Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliadau sy'n dysgu. • Ymgorffori myfyrio, hunan-werthuso a gwelliant o fewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgolion fel sail ar gyfer hynny.
<p>Prif Swyddog (ion)</p> <p>Lead Officer (s)</p>	<p>Sally Llewellyn, Aled Rumble, Rhianydd James, Elen Gwenllian Davies & Chris Davies,</p>
<p>Rhesymeg</p> <p>Rationale</p>	<p>Ym mis Medi 2022, ledled Ceredigion a Phowys, mabwysiadodd holl ysgolion / cyfnodau cynradd a chwech ysgol / cyfnod uwchradd, pob oed ac arbennig (un yng Ngheredigion a 5 ym Mhowys) y Cwricwlwm i Gymru. O fis Medi 2023 ymlaen bydd pob ysgol / cyfnod yn mabwysiadu'r cwricwlwm newydd yn llawn. Wrth baratoi ar gyfer mis medi 2022 paratôdd Llywodraeth Cymru ganllaw i ysgolion 'Y daith i 2022'⁴ a'r newidiadau i ganllawiau'r</p>

⁴ [WG41302 Curriculum for Wales document english \(gov.wales\)](#)

	<p>Cwricwlwm i Gymru o fis Ionawr 2023⁵. Wrth i ysgolion gychwyn ar y ‘Daith tu hwnt i 2022’, mae’n bwysig bod PACC yn cefnogi ysgolion yn llawn wrth sicrhau eu bod yn gwerthuso eu cynlluniau a darpariaeth yn ofalus ac yn ymgymryd â mireinio eu cwricwlwm a’u cynlluniau asesu parhaus i sicrhau bod pob ysgol PACC yn rhoi’r profiadau a’r canlyniadau dysgu gorau posibl i ddysgwyr, beth bynnag fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau, er mwyn sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb.</p>
<p>Bwriad cyffredin Overarching intention</p>	<p>Darparu dysgu proffesiynol a chymorth cyffredinol, pwrpasol ac wedi’i dargedu i ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys trwy glystyrau, fel bod pob ysgol PACC yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hyderus yn eu dyluniad o’r cwricwlwm wedi ei arwain gan y pedwar diben a’u prosesau sicrhau ansawdd • sicrhau bod y cwricwlwm ysgol a’r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn hynod ddiddorol ac yn darparu profiadau dysgu eang a chytbwys yn y gwersi ac yn allgyrsiol, ac yn cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd uchel a chyson o ran eu dysgu a lles • gweithio’n dda gydag ysgolion clwstwr / bwydo, fel bod cynllunio a dealltwriaeth gref ar sut i adeiladu ar ddysgu blaenorol dysgwyr er mwyn sicrhau cynnydd parhaus • hyderus yn eu cynllunio, mapio ac adrodd am ddilyniant dysgwyr.
<p>Meini Prawf Llwyddiant Success Criteria</p>	<p><u>Tymor byr:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu cryf gan y rhan fwyaf o ysgolion PACC yn y rhaglen dysgu proffesiynol • Adborth cadarnhaol gan y grŵp cyfeirio penaethiaid ynglŷn â chynnig dysgu proffesiynol PACC. <p><u>Hir dymor:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Arferion effeithiol yn cael ei nodi gan ysgolion PACC ar gyfer ei rannu ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol

⁵ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>

- Canlyniadau cadarnhaol ac astudiaethau achos yn cael eu adnabod gan arolygiadau Estyn
- Mae triongli gydag adroddiadau YGY yn dangos cynnydd cryf wrth gyflwyno'r cwricwlwm gydag effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.

<p>Maes Blaenoriaeth 3</p> <p>Priority Area 3</p>	<p>Datblygu cefnogaeth bellach i ysgolion i sefydlu ymagwedd ysgol gyfan wrth gefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr a sicrhau ecwiti o ran profiadau er mwyn lleihau effaith tlodi ac amddifadedd ar gynnydd dysgwyr.</p>
<p>Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru Welsh Government Priorities</p>	<p>WG2: Cymru gydnerth WG3: Cymru lachach WG5: Cymru o gymunedau cydlynol</p> <p>RCG - Rhan o'r wyth ffactor gyfrannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu llawn botensial, sy'n gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn. • Cyd-lunio cwricwlwm sy'n hyrwyddo ystod eang o wybodaeth, medrau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithio) gyda dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n bwysig - mae cymwysterau yn rhan allweddol o hyn. • Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr. • Bod yn ganolog i'w cymunedau – rydym am feithrin gwell perthynas rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyflawniad addysgol a chyflogaeth ardderchog, y camau nesaf mewn addysg a hyfforddiant. • Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.
<p>Prif Swyddog (ion) Lead Officer (s)</p>	<p>Gareth Lewis</p>
<p>Rhesymeg Rationale</p>	<p>I wella lles a chynnydd pob dysgwr, waeth beth fo'u cefndir fel eu bod yn barod ar gyfer y camau nesaf yn eu bywyd, boed yn yr ysgol, addysg bellach, prentisiaethau neu'r byd gwaith.</p>

<p style="text-align: center;">Bwriad cyffredin</p> <p style="text-align: center;">Overarching intention</p>	<p>I gefnogi pob ysgol PACC i ganolbwyntio ar gefnogi pob dysgwr i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ysgol, dysgu a lles a sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad teg at addysg a chyfleoedd teg i'w cynnwys yn yr ysgol a gweithgareddau allgyrsiol.</p> <p>Cefnogi dysgwyr bregus a'u teuluoedd trwy gwella ymgysylltiad teuluoedd gyda'r ysgol a gwella'r gefnogaeth o fewn y gymuned a thrwy aml-asiantaethau.</p> <p>Cefnogi ysgolion wrth sefydlu a gwreiddio dull ysgol gyfan o les emosiynol a meddyliol yn eu hysgolion fel bod pob arweinydd ac ymarferydd yn ymgorffori ethos ysgol gyfan i sicrhau amgylchedd cefnogol lle mae pob dysgwr yn gallu cymryd rhan yn effeithiol yn eu dysgu.</p>
<p style="text-align: center;">Meini Prawf Llwyddiant</p> <p style="text-align: center;">Success Criteria</p>	<p><u>Tymor byr:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu cryf gan y rhan fwyaf o ysgolion PACC yn y rhaglen dysgu proffesiynol • Adborth cadarnhaol gan y grŵp cyfeirio penaethiaid ynglŷn â chynnig dysgu proffesiynol PACC. • Mae'r rhan fwyaf o ysgolion PACC yn ymgymryd ac yn ymateb yn gadarnhaol i ganlyniadau'r data SHRN. <p><u>Hir dymor:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Canlyniadau cadarnhaol ac astudiaethau achos yn cael eu adnabod gan arolygiadau Estyn • Mae triongli gydag adroddiadau YGY yn dangos bod ysgolion PACC wedi sefydlu diwylliant cyson, lle mae cynnydd a lles disgyblion yw'r brif flaenoriaeth • Ffigyrau presenoldeb gwell ar gyfer ysgolion PACC (data presenoldeb yn cael ei ail gasglu gan Llywodraeth yn dilyn cyfnod o oedi yn ysgol y pandemig) • Canlyniadau dysgwyr cryf – canlyniadau CAP9 ysgolion PACC.

<p>Maes Blaenoriaeth 4</p> <p>Priority Area 4</p>	<p>Cefnogi ymarferwyr PACC i ddilyn llwybrau arweinyddiaeth a datblygiad cenedlaethol a lleol fel bod arferion pob ymarferydd PACC yn gryf ac effeithiol gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar les a chynnydd dysgwyr.</p>
<p>Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru Welsh Government Priorities</p>	<p>RCG - Rhan o'r wyth ffactor gyfrannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliadau sy'n dysgu. • Ymgorffori myfyrio, hunan-werthuso a gwelliant o fewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgolion fel sail ar gyfer hynny.
<p>Prif Swyddog (ion)</p> <p>Lead Officer (s)</p>	<p>Sarah Perdue, Alwyn Ward & Dafydd Iolo Davies</p>
<p>Rhesymeg</p> <p>Rationale</p>	<p>Mae arweinyddiaeth gref ac effeithiol ar bob lefel yn hollbwysig ar gyfer sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bob dysgwr. Ar draws PACC cydnabyddir mai ychydig iawn o symudiad sydd mewn staff ac felly mae adnabod a chefnogi arweinwyr ar bob lefel yn gynnar yn bwysig.</p>
<p>Bwriad cyffredin</p> <p>Overarching intention</p>	<p>I godi ymwybyddiaeth gan benaethiaid, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, a chyrrff llywodraethu o lwybrau arweinyddiaeth cenedlaethol a rhanbarthol sydd ar gael. Trwy ddysgu proffesiynol effeithiol, cymell a mentora, bydd gan arweinwyr ar bob lefel y sgiliau a'r wybodaeth i ddefnyddio amrywiaeth o arddulliau i gynnal safonau uchel ar draws pob agwedd ar eu gwaith. Bydd arweinwyr effeithiol yn grymuso pob aelod o staff i gymryd risgiau priodol a gwneud dewisiadau gwybodus yn seiliedig ar werthoedd, ymddygiad a gweledigaeth yr ysgol.</p>
<p>Meini Prawf Llwyddiant</p> <p>Success Criteria</p>	<p><u>Tymor byr:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu cryf a chadarnhaol gyda rhaglenni datblygu ac arweinyddiaeth ar bob lefel • Adnabod ymarferwyr cryf yn gynnar.

Hir dymor:

- Canlyniadau cadarnhaol ac astudiaethau achos yn cael eu adnabod gan arolygiadau Estyn
- Mae triongli gydag adroddiadau YGY yn dangos bod ysgolion PACC wedi sefydlu diwylliant cyson, lle mae cynnydd a lles disgyblion yw'r brif flaenoriaeth.

<p>Maes Blaenoriaeth 5</p> <p>Priority Area 5</p>	<p>Datblygu ymhellach drefniadau cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywodraethu cryf PACC</p>
<p>Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru</p> <p>Welsh Government Priorities</p>	<p>RCG - Rhan o'r wyth ffactor gyfrannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu llawn botensial, sy'n gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn. • Cyd-lunio cwricwlwm sy'n hyrwyddo ystod eang o wybodaeth, medrau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithio) gyda dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n bwysig - mae cymwysterau yn rhan allweddol o hyn. • Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr. • Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg yr holl staff. • Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliadau sy'n dysgu. • Ymgorffori myfyrio, hunan-werthuso a gwelliant o fewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgolion fel sail ar gyfer hynny. • Bod yn ganolog i'w cymunedau – rydym am feithrin gwell perthynas rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyflawniad addysgol a chyflogaeth ardderchog, y camau nesaf mewn addysg a hyfforddiant. • Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.
<p>Prif Swyddog (ion)</p> <p>Lead Officer (s)</p>	<p>Anwen Orrells</p>
<p>Rhesymeg</p> <p>Rationale</p>	<p>Wedi sefydliad PACC ym mis Medi 2021, mae'r gwaith a'r ddealltwriaeth o'r cydweithio rhwng Ceredigion a Phowys yn parhau i gael eu datblygu. Nod blaenoriaethau 2023 – 2024 yw sicrhau gwell dealltwriaeth, gan bob parti, o waith, cefnogaeth ac effaith cefnogaeth a dysgu proffesiynol Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru.</p>

<p>Bwriad cyffredin</p> <p>Overarching intention</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu perthynas waith gref a chadarnhaol gyda'r holl rhanddeiliaid, gan gynnwys penaethiaid ledled Ceredigion a Phowys fel bod gwaith PACC yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr. • Datblygu sianeli cyfathrebu effeithiol ar gyfer ysgolion ac ymarferwyr PACC fel bod pob ysgol yn deall y gwaith, y dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael drwy PACC. • Sicrhau bod prosesau cynllunio gwerthusol a datblygu cadarn ar waith fel bod cydweithio a gwaith PACC yn cefnogi anghenion gwasanaethau ac ysgolion Ceredigion a Phowys yn effeithiol.
<p>Meini Prawf Llwyddiant</p> <p>Success Criteria</p>	<p><u>Tymor byr:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth gref o rôl a gwaith PACC gan yr holl rhanddeiliaid • Ymgysylltu cryf gan rhanddeiliaid mewn gwefan PACC, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'r cylchlythyr • Mesurau cynllunio, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn ar waith. <p><u>Hir dymor:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gwaith PACC yn rhoi cefnogaeth gref i holl ysgolion Ceredigion a Phowys • Dim ysgolion yng nghategori swyddogol Estyn.

CYLLID RCG PACC - 2023 – 2024

Disgrifiad o'r gyllideb	Cymru	Powys £1,092,272	Ceredigion £706,038
A. Cymorth cwricwlwm ac asesu			
Cymorth rhanbarthol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm ac asesu (CYBLD)	£3,400,000	£137,276	£69,591
Datblygiad y cwricwlwm ac asesu i ysgolion, gan gynnwys rhwydweithiau cenedlaethol a dilyniant dysgu (CYBLD)	£9,346,000	£377,347	£191,294
Cefnogaeth ranbarthol ar gyfer ieithoedd modern (Global Futures) (Dosbarthiad cyfartal)	£462,000	£19,250	£19,250
Ieithoedd Tramor Modern – meithrin gallu ar gyfer ieithoedd modern yn y sector cynradd (CYBLD)	£271,000	£10,942	£5,547
Grant llythrennedd a rhifedd / cymorth ar gyfer gwella'r cwricwlwm (Dosbarthiad cyfartal)	£500,000	£20,833	£20,833
Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cynradd – Cynllun llafaredd i Gymru (CYBLD)	£400,000	£16,150	£8,187
Fframwaith Cymhwysedd Digidol (Dosbarthiad cyfartal)	£100,000	£4,167	£4,167
Codio a medrau digidol (CYBLD)	£300,000	£12,113	£6,140
B. Addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel			
Cyllid dysgu proffesiynol i ysgolion (Fformiwla / FTE athrawon a staff cynorthwyol. Wedi ei ddisbarthu gan yr ALL yn syth i ysgolion).	£12,000,000	(£489,251) Dosbarthwyd trwy'r ALL yn uniongyrchol i ysgolion	(£263,384) Dosbarthwyd trwy'r ALL yn uniongyrchol i ysgolion
Dysgu, ymholiadau ac ymchwil proffesiynol dan arweiniad yr ysgol i wireddu'r cwricwlwm (CYBLD)	£3,000,000	£121,126	£61,404
Rhaglen dysgu proffesiynol i ddiwygio'r cwricwlwm (Dosbarthiad cyfartal)	£2,700,000	£112,500	£112,500

Dysgu proffesiynol ar gyfer datblygu ymarfer a myfyrio (Dosbarthiad cyfartal)	£900,000	£37,500	£37,500
Llwybr dysgu i gynorthwyyr addysgu (Dosbarthiad cyfartal)	£950,000	£39,583	£39,583
Dysgu proffesiynol lefel A a'r Fagloriaeth Cymru (Seiliedig ar y nifer o ddysgwyr 6ed dosbarth)	£650,000	£35,880	£13,455
Sefydlu / Cymorth gyrfa cynnar (Dosbarthiad cyfartal)	£250,000	£10,417	£10,417
Rhaglen arweinyddiaeth y dyfodol (cymorth i ddarpar arweinwyr, arweinwyr canol, cymell a mentora) (Dosbarthiad cyfartal)	£850,000	£35,417	£35,417
Cymhwyster cenedlaethol ar gyfer prifathrawon (CPCP)	£550,000	Yn seiliedig ar nifer y cyfranogwyr	
Cymraeg – datblygiad proffesiynol (CYBLD)	£2,500,000	£100,938	£51,170
Grant cynhwysedd Cymraeg (Dyraniadau)	£226,000	(£11,667) Dosbarthwyd trwy'r ALI yn uniongyrchol i ysgolion	(£17,917) Dosbarthwyd trwy'r ALI yn uniongyrchol i ysgolion
Cefnogi Dysgwyr sy'n agored i niwed	£75,000		£18,750
C. Arall			
Grant Gwella Addysg i Ysgolion (EIG) (wedi'i bwysoli yn ôl mis a CYBLD – Dosbarthwyd trwy'r ALI yn uniongyrchol i ysgolion)		(£4,724,930) Dosbarthwyd trwy'r ALI yn uniongyrchol i ysgolion	(£2,495,706) Dosbarthwyd trwy'r ALI yn uniongyrchol i ysgolion
Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru (Dosbarthiad cyfartal)	£20,000	£833	£833
		£6,318,120 O hyn bydd £5,225,848 yn cael ei ddosbarthu yn uniongyrchol i'r ysgolion gan yr ALI. Cyfanswm yn weddill ar gyfer gwaith PACC: £1,092,272.00	£3,483,045 O hyn bydd £2,777,007 yn cael ei ddosbarthu yn uniongyrchol i'r ysgolion gan yr ALI. Cyfanswm yn weddill ar gyfer gwaith PACC: £706,038.00

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	4 Gorffennaf 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar waith ac effaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC)
DIBEN YR ADRODDIAD:	Darparu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023

CEFNDIR:

Bu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn ystyried gwaith ac effaith adroddiad Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC) yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2023. Rhoddodd Arweinydd Strategol PACC a'r Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion gyflwyniad ar adroddiad Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC). Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Pwrpas
- Y strwythur a threfniadau llywodraethu ar draws awdurdodau lleol
- Cyllid
- Gwerthusiad o waith PACC
- Blaenoriaethau 2022 – 2023
- Yr ystod o ddysgu proffesiynol a'r cymorth a gynigir
- Cynllunio ar gyfer 2023 – 2024
- Chwe Amcan Cyffredinol ar gyfer Addysg Genedlaethol a'r Iaith Gymraeg
- Wyth Ffactor Gyfrannol – fel a osodwyd yn rhan 1 o'r Grant Consortia Rhanbarthol ar gyfer 23/24
- Blaenoriaethau 2023 – 2024
- Camau Nesaf

Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

Y Cyngorydd Endaf Edwards
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r:** Cabinet**Dyddiad y Cyfarfod:** 04-07-2023**Teitl:** Canllawiau Pontio ar gyfer ysgolion a lleoliadau - model cymorth cynhwysol**Pwrpas yr adroddiad:** Darparu gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer ysgolion, lleoliadau a cholegau ar drefniadau pontio a chymorth cynhwysol effeithiol. Bydd y canllaw yn rhannu arferion da gan ddarparu arweiniad effeithiol, er mwyn cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i ffynnu, byw bywydau llawn ac ystyrlon, a dod yn aelodau a chyfranwyr gwerthfawr yn eu cymuned leol.**Er:** Penderfyniad**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**CEFNDIR:**

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) Cymru yn rhan o'r rhaglen diwygio addysg ehangach yng Nghymru ac yn sicrhau darpariaeth o 0-25. Mae Ceredigion wedi ymrwmo i greu amgylchedd addysgol sy'n gynhwysol, yn meithrin gwytnwch ac yn hybu annibyniaeth, gan alluogi pob plentyn a pherson ifanc i ffynnu, byw bywydau llawn ac ystyrlon, a dod yn aelodau a chyfranwyr gwerthfawr yn eu cymuned leol.

Bydd pontio'n llyfn trwy gydol eu gyrfa addysgol ac i fyd oedolion yn galluogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu potensial.

Mae hyn yn golygu y bydd plant a phobl ifanc:

- yn cael eu hanghenion holistig wedi'u nodi yn gynnar;
- yn cael cydnabyddiaeth i'w hannibyniaeth a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau;
- lle bo'n briodol, yn cael cymorth aml-asiantaeth mewn da bryd a'r cymorth hwnnw yn effeithiol wrth hyrwyddo eu hanghenion addysgol yn ogystal â'u lles personol; ac
- yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad yn sgil y ddeddf trawsnewid ADY, gan roi ffocws ar arferion effeithiol o bontio yn ystod y tri cyfnod allweddol o bontio ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Cyfnod 1: Pontio yn y Blynyddoedd Cynnar

Cyfnod 2: Pontio o'r Cynradd i'r Uwchradd

Cyfnod 3: Pontio cynhwysol ôl 16

Mae'n darparu arweiniad ac yn rhannu arferion da o ran y gwahanol lefelau o gymorth fydd angen eu cynllunio yn unol ag anghenion dysgu yr unigolyn.

Yn unol a gweledigaeth gynhwysol Ceredigion, mi fydd anghenion y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael eu diwallu ar y lefel pontio cynhwysol. Pan fo cymhlethdod yr anghenion yn cynyddu, bydd y trefniadau ychwanegol ar bob lefel yn ymgorffori trefniadau'r lefel flaenorol. Bydd hyn yn sicrhau bod y plentyn a'r person ifanc yn trosglwyddo'n llyfn i ddiwallu lefel eu hangen unigol hwy.

Pan fo plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY yn symud yn annisgwyl i ysgol/lleoliad, dylai'r ysgol sy'n eu derbyn gynnal adolygiad cyn gynted â phosibl i sicrhau cynllunio darpariaeth sy'n diwallu'r anghenion a nodwyd. Dylai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol briodol fod wedi'i hadlewyrchu yng Nghynllun Datblygu Unigol (CDU) y plentyn/person ifanc.

Lefelau'r cymorth o bontio

Pontio cynhwysol:

Trefniadau pontio cynhwysol sydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yn ôl trefniadau lleoliad/ysgol.

Pontio wedi'i dargedu:

Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a phobl ifanc y nodwyd bod ganddynt angen sy'n dod i'r amlwg/angen dynodedig (wedi'i fonitro o fewn trefniadau presennol cyfan y lleoliad/ysgol).

Pontio wedi'i adolygu:

Cymorth wedi'i dargedu wrth adolygu'r pontio ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â CDU.

Pontio dwysach:

Cymorth dwysach i blant a phobl ifanc y nodwyd bod ganddynt lefelau anghenion difrifol, cymhleth, cyson a pharhaus.

Nid oes un ffordd unigol o gynllunio pontio. Bydd pob lleoliad a phob ysgol wedi datblygu dulliau pontio sy'n cyd-fynd â'u hethos, eu cyd-destun a'u diwylliant nhw eu hunain.

Y SEFYLLFA SYDD OHONI:

Mae'r ddogfen hon wedi'i datblygu gan nifer o gyfranwyr e.e. yr ysgolion, staff cynhwysiant Ceredigion gan gynnwys swyddogion ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar gyfer ysgolion ac yn adlewyrchu'r ffordd o weithio yn unol a thrawsnewid ADY. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb gweithredu ar draws y Sir.

**Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol:**

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

**Crynodeb:
Hirdymor:
Cydwethio:
Cynnwys:
Atal:
Integreiddio:**

Tudalen 213

Argymhelliad / Argymhellion:	Cytuno i fabwysiadu cynnwys y canllaw pontio ar gyfer ysgolion a lleoliadau Ceredigion.
Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	<ol style="list-style-type: none">i. Er mwyn cydymffurfio â gofynion Trawsnewid ADY. Bydd y ddogfen yn sicrhau bod trefniadau pontio ar draws Ceredigion yn gyson gynhwysol ac o'r safon uchaf.ii. Datblygu cysondeb gweithredu a phontio llyfn ar gyfer plant a phobl ifanc trwy gydol eu gyrfa addysgol ac i fyd oedolion , gan eu galluogi i gyrraedd eu potensial.
Trosolwg a Chraffu:	Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu ar yr 8fed o Fehefin, gyda pawb o blaid ac yn cefnogi mabwysiadu.
Fframwaith Polisi:	
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	
Goblygiadau cyfreithiol:	
Goblygiadau staffio:	
Goblygiadau eiddo / asedau:	
Risg(iau):	
Pwerau Statudol:	
Papurau Cefndir:	<ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Craffu
Atodiadau:	Atodiad 1- Canllawiau Pontio Ceredigion 2023
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion (dros dro)
Swyddog Adrodd:	Gillian Evans (Rheolwr Corfforaethol – ADY, Cynhwysiant a Lles) ac Angharad Behnan (Prif Seicolegydd Addysg)
Dyddiad:	15/06/23

Gwasanaethau Ysgolion Ceredigion



**Canllawiau Pontio ar gyfer
ysgolion a lleoliadau:
'model' cymorth
cynhwysol**

Cynnwys

1.	Cyflwyniad a datganiad gweledigaeth	t. 2
2.	Canllawiau ar gyfer pontio <i>holl</i> blant a phobl ifanc Ceredigion	t. 4
3.	Lefelau cymorth pontio	t. 5
4.	Arferion da wrth Bontio – y Blynyddoedd Cynnar	t. 6
	O'r Cartref i leoliad Cyn-Ysgol y Blynyddoedd Cynnar	t. 7
	Lleoliad Blynyddoedd Cynnar i Ysgol Gynradd	t. 9
5.	Arferion da wrth Bontio – Cynradd i Uwchradd	t.13
6.	Arferion da wrth Bontio – Ôl-16	t.17

Atgoffir ysgolion Ceredigion bod yn rhaid cadw at reoliadau GDPR wrth rannu unrhyw wybodaeth fel rhan o'r pontio.

1. Cyflwyniad

Mae Ceredigion wedi ymrwymo i greu amgylchedd addysgol sy'n gynhwysol, yn meithrin gwytnwch ac yn hybu annibyniaeth, gan alluogi pob plentyn a pherson ifanc i ffynnu, byw bywydau llawn ac ystyrlon, a dod yn aelodau a chyfranwyr gwerthfawr yn eu cymuned leol.


Bydd pontio'n llyfn trwy gydol eu gyrfa addysgol ac i fyd oedolion yn galluogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu potensial.

Mae hyn yn golygu y bydd plant a phobl ifanc:

- yn cael eu hanghenion holistig wedi'u nodi yn gynnar;
- yn cael cydnabyddiaeth i'w hannibyniaeth a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau;
- lle bo'n briodol, yn cael cymorth aml-asiantaeth mewn da bryd a'r cymorth hwnnw yn effeithiol wrth hyrwyddo eu hanghenion addysgol yn ogystal â'u lles personol; ac
- yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant.

2. Canllawiau ar gyfer pontio *holl* blant a phobl ifanc Ceredigion.

Mae'r model pontio a ddangosir isod yn ceisio nodi lefel y cymorth sydd ei angen yn ystod y cyfnod pontio.



O'r llun uchod, mae'n amlwg y bydd anghenion y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael eu diwallu ar y lefel pontio cynhwysol (cylch porffor). Pan fo cymhlethdod yr anghenion yn cynyddu, bydd y trefniadau **ychwanegol** ar bob lefel yn ymgorffori trefniadau'r lefel flaenorol. Bydd hyn yn sicrhau bod y plentyn a'r person ifanc yn trosglwyddo llyfn i ddiwallu lefel eu hangen unigol hwy.

Pan fo plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY yn symud yn annisgwyl i ysgol/lleoliad, dylai'r ysgol sy'n eu derbyn gynnal adolygiad cyn gynted â phosibl i sicrhau cael darpariaeth sy'n diwallu'r anghenion a nodwyd. Dylai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol briodol nawr fod wedi'i hadlewyrchu yng Nghynllun Datblygu Unigol (CDU) y plentyn/person ifanc.

3. Lefelau'r cymorth pontio

Nid oes un ffordd unigol o gynllunio pontio. Bydd pob lleoliad a phob ysgol wedi datblygu dulliau pontio sy'n cyd-fynd â'u hethos, eu cyd-destun a'u diwylliant nhw eu hunain. Mae'r tabl isod yn cynnig arweiniad o ran yr hyn y gallai pob lefel o gymorth pontio ei gynnwys:

Pontio cynhwysol	Pontio wedi'i dargedu	Pontio wedi'i adolygu	Pontio dwysach
<p>Mae pob lleoliad ac ysgol yn dilyn eu prosesau a'u gweithdrefnau pontio eu hunain y cytunwyd arnynt eisoes ac sy'n berthnasol i'r cyfnod pontio priodol yn unol â threfniadau'r ysgol.</p> <p>Bydd pontio cynhwysol yn cael ei wneud o fewn amserlenni penodol pan fydd plant a phobl ifanc yn symud i leoliad neu ysgol newydd.</p> <p>Mae'r pontio hyn nid yn unig yn cynnwys o ysgol i ysgol ond hefyd o flwyddyn i flwyddyn, e.e. o flwyddyn 1 i flwyddyn 2.</p>	<p>Mae lefel hon y cymorth yn canolbwyntio ar yr angen sy'n codi/a nodwyd ar adeg y pontio. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys plentyn/person ifanc:</p> <ul style="list-style-type: none"> - y gwyddys ei fod yn mynd yn bryderus mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. - sydd wedi dioddef gofid diweddar yn eu bywydau. - sydd ag anghenion meddygol tymor byr, er enghraifft, salwch. <p>Mae cymorth pontio ar y lefel hon yn gofyn bod yn fwy gwylidwrus o fewn trefniadau presennol y lleoliad/ysgol gyfan, yn unol â'r prosesau pontio cynhwysol y cytunwyd arnynt. Bydd pennu dull i drafod a chynllunio yn ddefnyddiol ar gyfer y lleoliad/ysgol ill dau wrth gynllunio ar gyfer pontio ar y lefel hon a gallai hyn fod trwy ddilyniant cymorth sy'n seiliedig ar ddeilliannau.</p>	<p>Mae lefel hon y cymorth pontio yn canolbwyntio ar y gefnogaeth sydd ar gael i bob disgybl ag ADY. Gallai hyn gynnwys plentyn/person ifanc:</p> <ul style="list-style-type: none"> - sydd angen cymorth ADY ac mae ganddo CDU. - sydd dan ofal yr Awdurdod. - sydd ag anghenion meddygol hirdymor. - sydd yn hynod sensitif i newid a gall ddangos eu trallod ar draws ystod o ymddygiadau ar adeg y pontio. <p>Bydd angen cyfleoedd cynllunio a chymorth pontio ychwanegol ar y plentyn/person ifanc. Y Cydlynnydd ADY neu'r gweithwyr proffesiynol sy'n arwain y pontio fyddai'r cyswllt dynodedig fel arfer a byddent yn cydlynu, monitro a rhaeadru gwybodaeth i eraill yn dilyn y cyfarfod adolygu'r pontio.</p> <p>Mae'r broses o gynllunio pontio yn ystyried a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y lleoliad newydd. Ni waeth a yw'r angen am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn parhau ai peidio, mae'n bwysig dewis lefel gywir y pontio i ddiwallu anghenion holistig y plentyn/person ifanc.</p>	<p>Mae cymorth ar y lefel hon yn canolbwyntio ar blant/pobl ifanc sydd â lefelau anghenion cymhleth, difrifol a pharhaus. Gallai hyn gynnwys plentyn/person ifanc:</p> <ul style="list-style-type: none"> - sydd ag ADY llai cyffredin /cymhlethod uchel. - sydd ag anghenion meddygol hirdymor, cymhleth - anawsterau dysgu dwys a lluosog. - yn sensitif iawn i newid a gall ddangos eu trallod ar draws ystod o ymddygiadau ar adeg y pontio. <p>Cefnogir y plentyn/person ifanc gan wasanaethau cymorth arbenigol ac/neu wedi'u targedu ac mae'n debygol y bydd amryw o asiantaethau yn rhan. Efallai y bydd angen cyfarfod fim aml-ddisgyblaethol ychwanegol, cyd-gynllunio a chymorth integredig, ynghyd â chyswllt a monitro agos ar gyfer y cyfnod pontio. Y Cydlynnydd ADY (sef fel arfer y gweithiwr proffesiynol dynodedig) fydd y pwynt cyswllt a bydd yn cydlynu, monitro a rhaeadru gwybodaeth i eraill. Bydd yna gynllun yn seiliedig ar ganlyniadau i gefnogi'r plentyn/person ifanc a'i deulu.</p> <p>Mae'n bwysig nodi – er na fydd angen pontio dwysach ar bob plentyn/person ifanc sydd ag ADY, dylid enwi'r rheiny sy'n annhebygol o bontio'n llwyddiannus heb gynllun pontio erbyn hanner tymor mis Hydref eu blwyddyn olaf.</p>

Mae'r adrannau canlynol yn canolbwyntio'n fanylach ar y mathau o drefniadau a gweithgareddau pontio y gellid eu cynnwys ar bob lefel o gymorth pontio ar y gwahanol gamau.

4. Arferion da wrth Bontio– y Blynyddoedd Cynnar

Gall pontio achosi straen i blant a theuluoedd yn y Blynyddoedd Cynnar. Mae trefn reolaidd a chysondeb yn bwysig iawn ym mlynyddoedd cynnar plentyn ond mae newid yn anochel wrth iddynt symud o'r cartref i leoliad addysg/gofal ac o'r lleoliad hwnnw i'r ysgol. Gall plant ag ADY fod yn arbennig o fregus ar adegau o newid. Bydd angen cymorth ychwanegol, hyblyg ar blant ag ADY.

Mae cysylltiad rhwng pontio gwael a chanlyniadau llai llwyddiannus e.e. presenoldeb gwael ac ymddieithrio. Fodd bynnag, os yw plant a rhieni yn fwy gwybodus ac yn cael eu cefnogi yn ystod cyfnodau pontio, mae'n bosibl iawn y bydd y plentyn yn mwynhau profiadau newydd ac yn teimlo'n fwy aeddfed. Drwy reoli'r pontio'n ofalus, gallwn gynorthwyo â'r broses o newid. Yr allwedd i lwyddiant yw paratoi a chynllunio ymlaen llaw a chymorth i setlo yn y lleoliad newydd wedyn.

Mae pontio yn broses barhaus ac nid yn un digwyddiad sy'n digwydd unwaith. Dyma'r hyn sydd gan Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 ei ddweud:

27.14 Trwy gynllunio prosesau pontio yn gynnar ac mewn modd cydgysylltiedig, gellir cynorthwyo plant a phobl ifanc ag ADY i gael profiad pontio cadarnhaol. Mae'n arfer da gweld cynlluniau pontio fel proses barhaus yn hytrach nag yn un digwyddiad, a theilwra'r broses honno yn ôl anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc.



Pontio cynhwysol: o'r Cartref i lleoliad Cyn-Ysgol y Blynnyddoedd Cynnar

Sail a sylfaen **pob** cynllunio da ar bontio:

Gweinyddol:

- Sefydlu cyfathrebu da a meithrin perthynas o ymddiried yn ei gilydd.
- Gwerthfawrogi a pharchu'r berthynas gyda rhieni/gofalwyr, gan gynnwys tadau.
- Casglu gwybodaeth: hoff a chas bethau'r plentyn, iaith a diwylliant, cymuned a diddordebau.
- Trafod sut y bydd y plentyn yn ymateb i rŵtin, gweithgareddau, teganau, pethau y bydd yn eu mwynhau, pethau y gall eu cael yn anodd.
- Datblygu Proffil Un Dudalen gyda'r rhieni yn cyfrannu ato.
- Darparu amrywiaeth o wybodaeth hygyrch i deuluoedd e.e. diwrnodau agored, digwyddiadau gwybodaeth, cyfarfodydd rhieni, cylchlythyrau.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Parhad yn y profiad rhwng y cartref a'r lleoliad: llyfrau cyfarwydd, eitemau neu wrthrychau sy'n rhoi cysur.
- Ymweliadau pontio: yn raddol, cynyddu faint o amser y mae'r plentyn yn ei dreulio yn y lleoliad, yn dibynnu ar faint o bryder a straen.
- Ffotograffau o'r teulu yn y lleoliad a hefyd ffotograffau o'r lleoliad/staff yn y cartref.
- Rhoi digon o amser i blentyn arsylwi ar yr amgylchedd.

y Cwricwlwm:

- Esbonio dull gweithio Dysgu Sylfaen: Cynllunio ar y pryd, Dysgu drwy chwarae, Dilyn arweiniad y plentyn, Dysgu drwy brofiad.

Addysgeg:

Rhaid i weithiwr allweddol y plentyn:

- Adeiladu perthynas waith agos gyda'r teulu.
- Rhoi cefnogaeth i'r plentyn a'r teulu trwy'r cyfnod pontio.
- Rhoi sicrwydd emosiynol.
- Bod yn effro i ymateb emosiynol plentyn.
- Rhoi cysur ac arweiniad.
- Gwneud sylwadau am gynnydd y plentyn.
- Meithrin hyder.

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Egluro'r ymagwedd at gynhwysiant, polisi ADY, ymrwymiad i gyfle cyfartal.
- Deunydd gweledol: defnyddio symbolau i labelu'r amgylchedd.
- Cardiau Nawr a Nesaf/Amserlen Weledol.
- Laniard: symbolau allweddol ar laniard.



Pontio dwysach: o'r Cartref i lleoliad Cyn-Ysgol y Blynyddoedd Cynnar

Gweinyddol:

- Yr Awdurdod Lleol yn cydweithio â'r cartref, y lleoliad ac asiantaethau.
- Sawl asiantaeth wedi'u cynnwys.
- Gwybodaeth fanwl wedi'i rhannu a gwybodaeth wedi'i rhoi gan y cartref/asiantaethau/Awdurdod Lleol.
- Cyfarfod Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn wedi'i drefnu. Cytuno yn y cyfarfod ar Ganlyniadau, Dilyniant Cefnogaeth a Chynllun Gweithredu.
- CDU wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi gan yr ALI.
- Ystyried yr angen am asesiadau risg.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Ymuno'n raddol â'r lleoliad newydd.
- Nodi unrhyw addasiadau rhesymol y gall fod angen eu gwneud cyn i'r plentyn gyrraedd y lleoliad.
- Cael gwared ar yr holl rwystrau a all atal plentyn rhag dysgu neu ymuno â'r plant eraill cyn iddynt gyrraedd. Mae hon yn ddyletswydd gyfreithiol.
- Swyddog Sefydlu i gynnal Archwiliadau Amgylcheddol (ar gyfer plant sydd â nam ar y golwg) yn ystod y cyfnod pontio cynnar.
- Ymweliadau ymgyswrtedig a hyfforddiant symudedd pwrpasol mewn ysgolion/lleoliadau (disgyblion â nam ar y golwg).

y Cwricwlwm:

- Cyfleoedd i arsylwi.
- Dilyn diddordebau penodol y plentyn.

Addysgeg:

- Cael profiad/ymarfer defnyddio offer.
- Hyfforddi staff – defnyddio deunyddiau ac adnoddau pwrpasol.

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Cymorth yn cael ei gynnig drwy'r Cynllun Atgyfeirio.
- Dull Cyfathrebu Cyflawn: defnyddio ystumiau, lluniau, tŷn y llais ac iaith syml i gefnogi dealltwriaeth y plentyn.
- Cefnogaeth weledol – cardiau Nawr a Nesaf, cardiau cyfathrebu ar laniard.
- Dilyn unrhyw argymhellion gan wasanaethau asiantaethau.

- **Adolygiad ar ôl y pontio:** Yr Awdurdod Lleol yn adolygu cynnydd a CDU plentyn gyda chefnogaeth y lleoliad, rhieni ac aml-asiantaeth.



Pontio cynhwysol: Lleoliad Blynyddoedd Cynnar i Ysgol Gynradd

Sail a sylfaen **pob** cynllunio da ar bontio:

Gweinyddol:

Po fwyaf y bydd lleoliadau ac ysgolion yn cydweithio, y mwyaf cadarnhaol fydd y broses bontio. Gellir gwneud hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Amserlen pontio flynyddol i gynllunio cyfleoedd i'r ysgol a'r lleoliad gydweithio h.y. teithiau, cyngherddau, diwrnodau mabolgampau, sesiynau stori a chanu.
- Gwahodd athro/athrawes neu aelod o staff yr ysgol yn rheolaidd i ddarllen stori neu arwain sesiwn ganu yn y lleoliad Blynyddoedd Cynnar.
- Nodi ac egluro rolau a chyfrifoldebau yn ystod y cyfnod pontio er mwyn sicrhau pontio llyfn.
- Rhannu gwybodaeth berthnasol gyda chaniatâd y rhieni.
- Trefnu a chynnal ymweliadau a chyfarfodydd.
- Rheolaeth gyffredinol ar nosweithiau cael blas ar yr ysgol gynradd ar gyfer darpar ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Rhannu Proffil Un Dudalen diweddar.
- Cyfleoedd i ymweld â'r ysgol ar adegau gwahanol y diwrnod: bore, prynhawn, amser cinio a'r diwrnod cyfan.
- Cyfleoedd i dreulio amser yn yr ystafell ddosbarth newydd a'r holl lefydd pwysig yn yr ysgol.
- Cyfleoedd cymdeithasol.
- Trefnu system 'cyfaiil' (cydweithio ag ysgolion/lleoliadau eraill os oes plentyn yn pontio ar eu pen eu hunain)
- Fideos ar gyfer y pontio - teithiau rhithwir o gwmpas yr ysgol/lleoliad newydd.
- Gadael i'r plentyn/teulu dynnu ffotograffau o'r amgylchedd newydd.
- Edrych ar wefan yr ysgol.
- Profiadau/canllawiau ar y trefniadau cludiant.
- Creu llyfr o ffotograffau a gwybodaeth i helpu i baratoi at symud.
- Gwybod ble/at bwy i fynd i gael cefnogaeth.
- Trafod emosiynau trwy gydol y broses bontio.
- Datblygu sgiliau hunanofal annibynnol plant.
- Creu blwch neu lyfr 'Amdanaf i'.
- Troi'r ardal chwarae rolau yn amgylchedd ysgol.

y Cwricwlwm:

- Nosweithiau agored a chyfleoedd i edrych o gwmpas yr amgylchedd.
- Yr ysgol a'r lleoliad i rannu'r un amcanion, dibenion ac athroniaeth o ran addysg.
- Parhad mewn ymarfer da o'r lleoliad i'r ysgol – patrymau iaith, amser tocyn, gweddi.
- Nosweithiau rhieni i rannu gwybodaeth ynghylch disgwyladau/newidiadau.
- Polisi 'drws agored' – cyfleoedd i ofyn cwestiynau.
- Cwrdd â'r athro/athrawes/staff.

Addysgeg:

- Cysondeb yn yr iaith a ddefnyddir i sicrhau cysondeb i'r plentyn (er enghraifft, rheolau ysgol, enwau athrawon a therminoleg newydd).

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Profiadau amser cinio/amser egwyl (llai o oruchwyliaeth a gwneud dewisiadau).



Pontio wedi'i dargedu: Lleoliad Blynnyddoedd Cynnar i Ysgol Gynradd

Mae anghenion plentyn yn cael eu diwallu drwy CDU, fodd bynnag, mae angen mynd ati mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person i sicrhau parhau i gefnogi'r anghenion hynny heb yr angen am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn ystod y pontio.

Gweinyddol:

- Asiantaeth ychwanegol o bosibl wedi'i chynnwys.
- Yr Awdurdod Lleol o bosibl wedi'i gynnwys. Cyfarfod pontio wedi'i drefnu â'r cartref ac asiantaethau.
- Y Cydlynedd ADY o bosibl wedi'i gynnwys.
- Rhannu gwybodaeth allweddol – e.e. Proffil Un Dudalen, asesiadau Wellcomm, cynlluniau Chwarae Unigol, cynlluniau gofal iechyd, cymorth y Cynllun Atgyfeirio.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Ymweliadau ychwanegol wedi'u trefnu.
- Ymweliadau mewn grwpiau bychain wedi'u trefnu.
- Fideo 'cerdded o gwmpas' pwrpasol sy'n benodol i anghenion y plentyn.
- Dull cyffyrddiad ysgafn – cerdded o gwmpas yr ysgol ar ôl amser ysgol.

y Cwricwlwm:

- Cyfleoedd i arsylwi.
- Gweithgareddau pontio mewn grwpiau bychain.

Addysgeg:

- Staff i ymweld â'r plentyn yn y lleoliad i arsylwi/dod i adnabod y staff, yr amgylchedd.

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Cyfathrebu â'r rhieni/cartref – llyfrau cyswllt.
- Pecynnau croeso i rieni newydd.

- **Posibilrwydd ar gyfer adolygiad ar ôl y pontio:** Adolygu cynnydd y plentyn gyda'r ysgol, rhieni a chefnogaeth aml-asiantaethau yn ystod y tymor.



Pontio wedi'i adolygu: Lleoliad Blynnyddoedd Cynnar i Ysgol Gynradd

Mae gan y plentyn ADY ac yn ystod y broses adolygu CDU rhaid ystyried a chynllunio ar gyfer pontio.

Rhaid cofnodi'r wybodaeth hon yn adran 3C y CDU.

Gweinyddol:

- Yr Awdurdod Lleol wedi'i gynnwys: Adolygiad pontio wedi'i gynnal wrth adolygu CDU (ac ystyried a fydd yr angen am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn parhau yn y lleoliad newydd).
- Asiantaeth arall wedi'i gynnwys.
- Y Cydlynnydd ADY wedi'i gynnwys.
- A fydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y lleoliad newydd? Ystyried diwedd/trosglwyddo CDU.
- Rhannu gwybodaeth allweddol – cyflwyniad Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, CDU, Proffil Un Dudalen wedi'i ddiweddarau.
- Adran 3C i'w llenwi yn y CDU.
- Adolygu unrhyw asesiadau risg sy'n bodoli eisoes/ ystyried yr angen am rai.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Ymweliadau ychwanegol wedi'u trefnu.
- Ymweliadau mewn grwpiau bychain wedi'u trefnu.
- Fideo 'cerdded o gwmpas' pwrpasol sy'n benodol i anghenion y plentyn.
- Dull cyffyrddiad ysgafn – cerdded o gwmpas yr ysgol ar ôl amser ysgol.
- Archwiliadau Amgylcheddol o'r lleoliad newydd os oes angen.
- Nodi unrhyw addasiadau rhesymol y gall fod angen eu gwneud cyn i'r plentyn gyrraedd y lleoliad.
- Cael gwared ar yr holl rwystrau a all atal plentyn rhag dysgu neu ymuno â'r plant eraill cyn iddynt gyrraedd. Mae hon yn ddyletswydd gyfreithiol.

y Cwricwlwm:

- Cyfleoedd i arsylwi.
- Gweithgareddau pontio mewn grwpiau bychain.

Addysgeg:

- Staff i ymweld â'r plentyn yn y lleoliad i arsylwi/dod i adnabod y staff, yr amgylchedd.

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Cyfathrebu â'r rhieni/cartref – llyfrau cyswllt.

- Adolygiad yr ALI ar ôl y pontio: Adolygu cynnydd y plentyn gyda'r Awdurdod Lleol, yr ysgol, rhieni ac aml-asiantaeth cyn diwedd y tymor. Trafod trosglwyddo'r CDU.



Pontio dwysach: Lleoliad Blynnyddoedd Cynnar i Ysgol Gynradd

Gweinyddol:

- Sawl asiantaeth wedi'u cynnwys.
- Yr Awdurdod Lleol wedi'i gynnwys
- Cyfarfod Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn wedi'i drefnu. Cytuno yn y cyfarfod ar Ganlyniadau, Dilyniant Cefnogaeth a Chynllun Gweithredu.
- CDU wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi gan yr ALI. Trosglwyddo cyfrifoldeb i'r ysgol.
- Y Cydlynnydd ADY wedi'i gynnwys.
- A fydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y lleoliad newydd? Ystyried diweddu/trosglwyddo CDU.
- Gwybodaeth fanwl wedi'i rhannu a'i rhoi gan y lleoliad/ysgol ill dau.
- Trefnu sgwrs gyda'r rheini a'r plentyn i holi a ydi popeth yn iawn.
- Creu amserlen strwythuredig o ddigwyddiadau ar gyfer profiadau pontio.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Ymuno'n raddol â'r lleoliad newydd os oes angen.
- Lle bo modd, darparu profiadau ymarferol penodol i'r plentyn – yn unol â'i anghenion.
- Swyddog Sefydlu i gynnal Archwiliadau Amgylcheddol (ar gyfer plant sydd â nam ar y golwg) yn ystod y cyfnod pontio cynnar.
- Ymweliadau ymglyfarwyddo a hyfforddiant symudedd pwrpasol mewn ysgolion/lleoliadau (disgyblion â nam ar y golwg).
- Nodi unrhyw addasiadau rhesymol y gall fod angen eu gwneud cyn i'r plentyn gyrraedd y lleoliad.
- Cael gwared ar yr holl rwystrau a all atal plentyn rhag dysgu neu ymuno â'r plant eraill cyn iddynt gyrraedd. Mae hon yn ddyletswydd gyfreithiol.

y Cwricwlwm:

- Cyfleoedd i arsylwi.
- Gweithdai pontio mewn grwpiau bychain.
- Dilyn diddordebau penodol y plentyn.

Addysgeg:

- Cael profiad/ymarfer defnyddio offer.
- Hyfforddi staff – defnyddio deunyddiau ac adnoddau pwrpasol.

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Staff yr ysgol i weithio yn y lleoliad gyda'r plentyn yn ystod tymor olaf y pontio.
- Dull Cyfathrebu Cyflawn: defnyddio ystumiau, lluniau, tôn y llais ac iaith syml i gefnogi dealltwriaeth y plentyn.
- Cefnogaeth weledol – amserlen weledol, cardiau Nawr a Nesaf, cardiau cyfathrebu ar laniard.
- Dilyn unrhyw argymhellion gan wasanaethau asiantaethau.

Adolygiad ar ôl y pontio: y Cydlynnydd ADY yr ysgol i arwain yr adolygiad ar ddiwedd y tymor cyntaf ar ôl y pontio.

5. Arferion da wrth Bontio – Cynradd i Uwchradd



Pontio cynhwysol: Cynradd i Uwchradd

Sail a sylfaen **pob** cynllunio da ar bontio:

Gweinyddol:

Archwilio'r prosesau a gweithdrefnau pontio yn y lleoliad/ysgol gan asesu cyfraniadau'r prif egwyddorion pontio at les cyffredinol y plentyn. Dylid rhoi clod i'r hyn sy'n gweithio, ynghyd â:

- Nodi ac egluro rolau a chyfrifoldebau yn ystod y cyfnod pontio er mwyn sicrhau pontio llyfn.
- Rhannu gwybodaeth berthnasol.
- Trefnu a chynnal ymweliadau a chyfarfodydd.
- Sicrhau rheolaeth gyffredinol ar nosweithiau blasu Blwyddyn 5 a 6 i'r ysgolion uwchradd ar gyfer darpar ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid
- Sicrhau cynllunio cyffredinol a threfnu ymweliadau yn unol â threfniadau ysgol gyfan.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Sesiynau pontio ar yr amserlen (ABCh/Iechyd a Lles) gyda ffocws ar Arferion sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn; dyheadau/nodau/cyraeddiadau/cryfderau/ hobiau a diddordebau/camau nesaf/cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- Rhannu Proffil Un Dudalen wedi'i ddiweddarau.
- Cyfleoedd cymdeithasol.
- Trefnu system 'cyfaiil' (cydweithio ag ysgolion/lleoliadau eraill os oes plentyn yn pontio ar eu pen eu hunain)
- Fideos ar gyfer y pontio - teithiau rhithwir o gwmpas yr ysgol/lleoliad newydd.
- Gadael i'r plentyn/teulu dynnu ffotograffau o'r amgylchedd newydd.
- Edrych ar wefan yr ysgol.
- Profiadau/arweiniad ar y trefniadau cludiant.
- Sesiynau cefnogi cyfoedion – gwrando ar ei gilydd, rhannu enghreifftiau o waith a chyfleoedd i ddathlu llwyddiant.
- Creu llyfr o ffotograffau a gwybodaeth i helpu i baratoi at symud.
- Gwybod ble/at bwy i fynd i gael cefnogaeth.
- Cefnogaeth a chynghor ar y glasoed a chyfeillgarwch.
- Ymwybyddiaeth o fwlio.
- Ymwybyddiaeth ofalgar, gwydnwch, a chymorth iechyd meddwl.

y Cwricwlwm:

- Nosweithiau agored a chyfleoedd i archwilio meysydd pwnc/yr amgylchedd.
- Nosweithiau rhieni i rannu gwybodaeth ynghylch disgwyliadau/newidiadau i'r cwricwlwm.
- Polisi 'drws agored' – cyfleoedd i ofyn cwestiynau.
- Cwrdd â'r athro/athrawes/staff.
- Rheoli amserlen a chael cyfle i ymgyswrtio â chynnwys pwnc newydd.
- Archwilio defnyddio offer, llyfrau, deunyddiau newydd ar gyfer pynciau penodol.

Addysgeg:

- Profiadau gwersi.
- Cysondeb yn yr iaith a ddefnyddir i sicrhau cysondeb i'r plentyn (er enghraifft, rheolau ysgol, enwau athrawon a therminoleg newydd).

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Mynediad i'r amserlen.
- Llythrennedd ariannol (sgiliau trin arian).
- Profiadau amser cinio/amser egwyl (llai o oruchwyliaeth a gwneud dewisiadau).



Pontio wedi'i dargedu: **Cynradd i Uwchradd**

Caiff anghenion y plentyn eu diwallu drwy CDU, fodd bynnag, mae angen mynd ati mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i sicrhau parhau i gefnogi'r anghenion hynny heb yr angen am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn ystod y pontio.

Gweinyddol:

- Trefnu cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (os oes angen).
- Asiantaeth ychwanegol o bosibl wedi'i chynnwys.
- Yr Awdurdod Lleol o bosibl wedi'i gynnwys.
- Rhannu gwybodaeth allweddol – e.e. Proffil Un Dudalen.
- Adolygu unrhyw asesiadau risg sy'n bodoli eisoes / ystyried yr angen am asesiadau o'r fath.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Ymweliadau ychwanegol wedi'u trefnu.
- Ymweliadau mewn grwpiau bychain wedi'u trefnu.
- Defnyddio offer Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn sesiynau pontio wedi'u hamserlennu gan fod â ffocws ar ddyheadau.
- Cyfleoedd sgiliau bywyd ar yr amserlen (er enghraifft, paratoi pecyn bwyd/beth i'w gynnwys mewn bag ar gyfer yr ysgol, defnyddio drama/straeon cymdeithasol/chwarae rôl).
- Fideo 'cerdded o gwmpas' pwrpasol sy'n benodol i anghenion y plentyn.
- Dull cyffyrddiad ysgafn – cerdded o gwmpas yr ysgol ar ôl amser ysgol.

y Cwricwlwm:

- Cyfleoedd i arsylwi.
- Gweithdai pontio mewn grwpiau bychain.

Addysgeg:

- Staff i ymweld â'r plentyn yn y lleoliad/ysgol i arsylwi/dod i adnabod staff, yr amgylchedd.

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Cyfleoedd hyfforddiant yn ymwneud â chludiant ysgol.
- Cyfleoedd sgiliau trin arian.
- Cyfathrebu â'r rhieni/cartref – llyfrau ysgol.



Pontio wedi'i adolygu: **Cynradd i Uwchradd**

Mae gan y plentyn ADY ac yn ystod y broses adolygu CDU rhaid ystyried a chynllunio ar gyfer pontio. Rhaid cofnodi'r wybodaeth hon yn adran 3C y CDU.

Gweinyddol:

- Adolygiad pontio wedi'i gynnal wrth adolygu CDU (ac ystyried a fydd yr angen am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn parhau yn y lleoliad newydd). Ystyried diwedd/trosglwyddo CDU.
- Adran 3C i'w llenwi yn y CDU.
- Asiantaeth ychwanegol o bosibl wedi'i chynnwys.
- Yr Awdurdod Lleol o bosibl wedi'i gynnwys.
- Rhannu gwybodaeth allweddol – trefniadau mynediad, Proffil Un Dudalen.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Ymweliadau ychwanegol wedi'u trefnu.
- Ymweliadau mewn grwpiau bychain wedi'u trefnu.
- Defnyddio offer Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn sesiynau pontio wedi'u hamserlennu gan fod â ffocws ar ddyheadau.
- Cyfleoedd sgiliau bywyd ar yr amserlen (er enghraifft, paratoi pecyn bwyd/beth i'w gynnwys mewn bag ar gyfer yr ysgol, defnyddio drama/straeon cymdeithasol/chwarae rôl).
- Fideo 'cerdded o gwmpas' pwrpasol sy'n benodol i anghenion y plentyn.
- Dull cyffyrddiad ysgafn – cerdded o gwmpas yr ysgol ar ôl amser ysgol.

y Cwricwlwm:

- Cyfleoedd i arsylwi.
- Gwaith 'prosiect' pontio – adeiladu portffolio/pasbort pontio ar gryfderau/ymchwil i gyrchfan a ffefrir/tebygol.
- Gweithdai pontio mewn grwpiau bychain.

Addysgeg:

- Staff i ymweld â'r plentyn/person ifanc yn y lleoliad/ysgol i arsylwi/dod i adnabod staff, yr amgylchedd.

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Cyfleoedd hyfforddiant yn ymwneud â chludiant ysgol.
- Cyfleoedd sgiliau trin arian.

Adolygiad ar ôl y pontio: Dylai Cydlynnydd ADY yr ysgol uwchradd gynnal yr adolygiad ar ddiwedd y tymor cyntaf ar ôl pontio.



Pontio dwysach: Cynradd i Uwchradd

Gweinyddol:

- Sawl asiantaeth wedi'u cynnwys.
- Yr Awdurdod Lleol wedi'i gynnwys.
- Gwybodaeth fanwl wedi'i rhannu a'i rhoi gan y lleoliad/ysgol ill dau.
- Trefnu sgwrs gyda'r rheini a'r plentyn i holi a ydi popeth yn iawn.
- Creu amserlen strwythuredig o ddigwyddiadau ar gyfer profiadau pontio.
- A fydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y lleoliad newydd? Ystyried diweddu/trosglwyddo CDU.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Ymuno'n raddol â'r lleoliad newydd.
- Lle bo modd, darparu profiadau ymarferol penodol i'r plentyn – yn unol â'i anghenion.
- Swyddog Sefydlu i gynnal Archwiliadau Amgylcheddol (ar gyfer plant sydd â nam ar y golwg) yn ystod y cyfnod pontio cynnar.
- Ymweliadau ymglyfarwyddo a hyfforddiant symudedd pwrpasol mewn ysgolion/lleoliadau (disgyblion â nam ar y golwg).

y Cwricwlwm:

- Cyfleoedd i arsylwi.
- Gweithdai pontio mewn grwpiau bychain.

Addysgeg:

- Cael profiad/ymarfer defnyddio offer.
- Hyfforddi staff – defnyddio deunyddiau ac adnoddau pwrpasol.

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Staff uwchradd i weithio yn yr ysgol gyda'r plentyn yn ystod y cyfnod pontio.

Adolygiad ar ôl y pontio: Dylai Cydlynnydd ADY yr ysgol uwchradd gynnal yr adolygiad ar ddiwedd y tymor cyntaf ar ôl pontio.

6. Arferion da wrth Bontio – Ôl-16

Mae'r egwyddorion uchod ar gyfer pontio yn dal yn berthnasol i'r grŵp oedran hwn, ond mae rhai ystyriaethau unigryw sy'n berthnasol i ddysgwyr dros 16 oed.

Gwneud eu penderfyniadau eu hunain

Wrth i blant ddod yn bobl ifanc (yn 16 oed) mae ganddyn nhw'r hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain ar faterion sy'n effeithio ar eu dyfodol. Mae'n hollbwysig parchu eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Mae angen i ysgolion sicrhau bod pobl ifanc yn cael y wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i'w galluogi i fod yn rhan o'r penderfyniadau. Mae'n bwysig bod y person ifanc yn gwybod y gall newid ei feddwl ar unrhyw adeg a dylai roi gwybod i'r lleoliad newydd os yw'n gwneud hynny.

Cyn Blwyddyn 11, mae angen i ysgolion sefydlu gallu person ifanc i wneud penderfyniadau penodol ac mae angen iddynt sicrhau y caiff deunyddiau a gwybodaeth eu cyflwyno iddynt mewn fformat sy'n galluogi'r person ifanc hwnnw i ddefnyddio'u dealltwriaeth a'u galluogi i benderfynu drostynt eu hunain. Rhaid cofnodi'r gweithgareddau hyn a phenderfyniad y person ifanc i roi/peidio â rhoi caniatâd. Os oes amheuaeth ynghylch gallu person ifanc i wneud penderfyniadau penodol yn dilyn y gweithgareddau uchod, rhaid sicrhau asesiad galluedd meddyliol a, lle bo angen, penodi cynrychiolwyr i wneud penderfyniadau ar ran y person ifanc.

Dewisiadau Ôl-16

Yn y cyfnod Ôl-16, efallai y bydd dysgwyr yn gwneud cynlluniau i aros yn yr ysgol, symud i leoliad addysg bellach/hyfforddiant newydd neu'n gwneud cynlluniau i adael addysg yn gyfan gwbl. Mae angen i ddisgyblion fod yn ymwybodol o'u dewisiadau trwy'r Cynnig Lleol (h.y. beth yw'r ddarpariaeth yn lleol – boed hynny'n addysg/hyfforddiant, cyflogaeth neu gefnogaeth y gwasanaethau cymdeithasol i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol). Mae'n hollbwysig sefydlu ar y cam hwn a oes angen rhesymol am addysg bellach/hyfforddiant er mwyn bodloni dyheadau'r person ifanc, neu a yw llwybr arall i fyd oedolion yn fwy priodol.

Bydd ysgolion yn cynorthwyo gyda'r pontio, beth bynnag fo'r cyrchfan a ddewisir ac yn cynnig cyngor a chymorth ynghylch yr hyn sy'n digwydd pan ddaw eu CDU i ben, er mwyn galluogi'r person ifanc i gyrraedd ei botensial a byw bywyd annibynnol, bodlon.

POST 16**Pontio cynhwysol: Ôl-16**
Sail a sylfaen pob cynllunio da ar bontio**Gweinyddol:**

Archwilio prosesau a gweithdrefnau pontio'r lleoliad/ysgol gan asesu cyfraniadau'r prif egwyddorion pontio at les cyffredinol y person ifanc. Rhoi clod i'r hyn sy'n gweithio a sicrhau'r canlynol:

- Bod y person ifanc yn cydsynio i'r gweithgareddau canlynol er mwyn hwyluso pontio llyfn. Dylid cofnodi'r caniatâd a roddwyd.
- Bod eglurhad ar y rolau a'r cyfrifoldebau yn y cyfnod pontio er mwyn sicrhau pontio llyfn.
- Caniatâd y person ifanc i rannu gwybodaeth berthnasol.
- Trefnu a chynnal ymweliadau a chyfarfodydd.
- Rheolaeth gyffredinol ar nosweithiau blasu i'r lleoliad ar gyfer darpar ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid.
- Cynllunio cyffredinol a threfnu ymweliadau yn unol â threfniadau'r ysgol/lleoliad newydd.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Sesiynau pontio ar yr amserlen (ABCh/Iechyd a lles) gyda ffocws ar Arferion sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn; dyheadau/nodau/cyraeddiadau/cryfderau/ hobiau a diddordebau/camau nesaf/cynlluniau ar gyfer y dyfodol/ archwilio'r cynnig lleol.
- Rhannu Proffil Un Dudalen wedi'i diweddarau.
- Cyfleoedd cymdeithasol.
- Trefnu system 'cyfail' (cydweithio ag ysgolion/lleoliadau eraill os oes plentyn yn pontio ar eu pen eu hunain)
- Fideos ar gyfer y pontio - teithiau rhithwir o gwmpas yr ysgol/lleoliad newydd.
- Gadael i'r person ifanc/teulu dynnu lluniau o'r amgylchedd newydd.
- Archwilio gwefan yr ysgol/sefydliad AB.
- Profiad/arweiniad ar y trefniadau cludiant.
- Sesiynau cefnogi cyfoedion – gwrandao ar ei gilydd, rhannu enghreifftiau o waith a chyfleoedd i ddathlu llwyddiant.
- Creu llyfr o ffotograffau a gwybodaeth i helpu i baratoi at symud.
- Gwybod ble/at bwy i fynd am gefnogaeth.
- Cefnogaeth a chyngor iechyd rhywiol/cael perthynas a chyfeillgarwch.
- Ymwybyddiaeth o fwlio.
- Ymwybyddiaeth ofalgar, gwydnwch, a chymorth iechyd meddwl.

y Cwricwlwm:

- Nosweithiau agored a chyfleoedd i archwilio meysydd pwnc/amgylchedd.
- Nosweithiau rhieni i rannu gwybodaeth ynghylch disgwyladau/newidiadau i'r cwricwlwm.
- Polisi 'drws agored' – cyfleoedd i ofyn cwestiynau.
- Cwrdd â'r athrawes/athro/tiwtor/staff.
- Rheoli amserlen a chael cyfle i ymgyfarwyddo â chynnwys pwnc newydd.
- Archwilio defnyddio offer, llyfrau, deunyddiau newydd ar gyfer pynciau penodol.

Addysgeg:

- Profiadau gwersi.
- Cysondeb yn yr iaith a ddefnyddir i sicrhau cysondeb i'r person ifanc (er enghraifft, rheolau'r lleoliadau, enwau athrawon/tiwtoriaid a staff cymorth a therminoleg newydd).

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Mynediad i'r amserlen.
- Llythrennedd ariannol (sgiliau trin arian).
- Profiadau amser cinio/amser egwyl (llai o oruchwyliaeth a gwneud dewisiadau).
- Cyngor ar yrfa/llwybr/beth sydd ar gael yn lleol.
- Cyfleoedd profiad gwaith/ ffug gyfweiliadau.
- Ystyried gwneud cais am fuddion consesiynau (e.e. tocyn bws/grantiau dysgu)

POST 16**Pontio wedi'i dargedu: Ôl-16**

Caiff anghenion y person ifanc eu diwallu drwy CDU, fodd bynnag, mae angen mynd ati mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person i sicrhau parhau i gefnogi'r anghenion hynny heb yr angen am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn ystod y pontio.

Gweinyddol:

- Gofyn am ganiatâd y person ifanc i wneud y gweithgareddau canlynol i hwyluso pontio llyfn. Rhaid cofnodi'r caniatâd a roddwyd.
- Trefnu cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (os oes angen).
- Asiantaeth ychwanegol o bosibl wedi'i chynnwys.
- Yr Awdurdod Lleol o bosibl wedi'i gynnwys.
- Rhannu gwybodaeth allweddol – e.e. Proffil Un Dudalen.
- Adolygu unrhyw asesiadau risg sy'n bodoli'n barod/ ystyried yr angen amdanynt

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Ymweliadau ychwanegol wedi'u trefnu.
- Ymweliadau mewn grwpiau bychain wedi'u trefnu.
- Defnyddio offer Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn sesiynau pontio wedi'u hamserlennu gan fod â ffocws ar ddyheadau.
- Cyfleoedd sgiliau bywyd ar yr amserlen (er enghraifft, paratoi pecyn bwyd/sut i archebu a thalu am ginio yn y cantîn / beth i'w gynnwys mewn bag ar gyfer yr ysgol/ coleg, defnyddio drama/straeon cymdeithasol/chwarae rôl).
- Fideo 'cerdded o gwmpas' pwrpasol sy'n benodol i anghenion y person ifanc.
- Dull cyffyrddiad ysgafn –ymweliadau â'r darpar leoliad newydd pan fo hi'n dawel yno.

y Cwricwlwm:

- Cyfleoedd i arsylwi.
- Gweithdai pontio mewn grwpiau bychain.
- Gwaith 'prosiect' pontio – adeiladu portffolio/pasbort pontio ar gryfderau/ymchwil i gyrchfan a ffefrir neu un tebygol

Addysgeg:

- Staff i ymweld â'r person ifanc yn y lleoliad/ysgol i arsylwi/dod i adnabod staff, yr amgylchedd.

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Cyfleoedd hyfforddiant teithio.
- Cyfleoedd sgiliau trin arian.

POST 16**Pontio wedi'i adolygu: Ôl-16**

Mae gan y person ifanc ADY ac yn ystod y broses adolygu CDU rhaid ystyried a chynllunio ar gyfer pontio. Rhaid cofnodi'r wybodaeth hon yn adran 3C y CDU.

Gweinyddol:

- Sicrhau bod gan y person ifanc y gallu i ddeall a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag ef/hi ei hun. Dylid cofnodi sut y cynhaliwyd yr asesiad hwn.
- Sicrhau y gofynnwyd am ganiatâd y person ifanc i gadw/diweddu/trosglwyddo'r CDU, bod y caniatâd wedi'i roi ac wedi'i gofnodi.
- Cofnodi caniatâd y person ifanc i rannu ei wybodaeth ag eraill.
- Adolygiad pontio wedi'i gynnal wrth adolygu CDU.
- Trafodaeth wedi'i chofnodi ynghylch a oes angen rhesymol am hyfforddiant ac addysg bellach yn seiliedig ar ddyheadau a chanlyniadau'r person ifanc.
- A fydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y lleoliad newydd? Ystyried diweddu/trosglwyddo CDU.
- Adran 3C i'w llenwi yn y CDU.
- Asiantaeth ychwanegol o bosibl wedi'i chynnwys.
- Yr Awdurdod Lleol o bosibl wedi'i gynnwys.
- Rhannu gwybodaeth allweddol – trefniadau mynediad, Proffil Un Dudalen.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Ymweliadau ychwanegol wedi'u trefnu.
- Ymweliadau mewn grwpiau bychain wedi'u trefnu.
- Defnyddio offer Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn sesiynau pontio wedi'u hamserlennu gan fod â ffocws ar ddyheadau.
- Cyfleoedd sgiliau bywyd ar yr amserlen (er enghraifft, paratoi pecyn bwyd/sut i archebu a thalu am ginio yn y cantîn / beth i'w gynnwys mewn bag ar gyfer yr ysgol/coleg, defnyddio drama/straeon cymdeithasol/chwarae rôl).
- Fideo 'cerdded o gwmpas' pwrpasol sy'n benodol i anghenion y person ifanc.
- Dull cyffyrddiad ysgafn – ymweliadau â'r darpar leoliad newydd pan fo hi'n dawel yno.

y Cwricwlwm:

- Cyfleoedd i arsylwi.
- Gwaith 'prosiect' pontio – adeiladu portffolio/pasbort pontio ar gryfderau/ymchwil cyrchfan a ffefrir/tebygol.
- Gweithdai pontio mewn grwpiau bychain.

Addysgeg:

- Staff i ymweld â'r plentyn/person ifanc yn y lleoliad/ysgol i arsylwi/dod i adnabod staff, yr amgylchedd.
- Hyfforddi staff i ddefnyddio deunyddiau ac adnoddau pwrpasol i sicrhau y gall y person ifanc ddeall a chydysynio i'r penderfyniadau a wneir.
- Hyfforddi staff i fod yn ymwybodol o alluedd meddyliol.
- Sicrhau bod staff yn deall hawl y person ifanc i wrthod rhannu gwybodaeth a allai hwyluso'r pontio.

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Cyfleoedd hyfforddiant teithio.
- Cyfleoedd sgiliau trin arian.

Adolygiad ar ôl y pontio: I'w gwblhau gan y Cydlynnydd ADY yn y ddarpariaeth sy'n derbyn erbyn diwedd y tymor cyntaf yn dilyn y cyfnod pontio.

POST 16

Pontio dwysach: Ôl-16

Gweinyddol:

- Sicrhau bod gan y person ifanc y gallu i ddeall a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag ef/hi ei hun. Cofnodwch sut y cynhaliwyd yr asesiad hwn. Os oes amheuaeth ynghylch galluedd, gofynnwch i'r gweithiwr cymdeithasol gynnal asesiad galluedd meddyliol a chael cynrychiolydd priodol.
- Pan fo gallu'r person ifanc i benderfynu wedi'i gadarnhau, rhaid sicrhau y gofynnwyd am ganiatâd y person ifanc i gadw/diweddu/trosglwyddo'r CDU, bod y caniatâd wedi'i roi ac wedi'i gofnodi.
- Os yw gallu'r person ifanc i benderfynu wedi'i gadarnhau, cofnodwch gydsyniad y person ifanc i rannu ei wybodaeth ag eraill.
- Trafodaeth wedi'i chofnodi ynghylch a oes angen rhesymol am hyfforddiant ac addysg bellach yn seiliedig ar ddyheadau a chanlyniadau'r person ifanc.
- A fydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y lleoliad newydd? Ystyried diweddu / trosglwyddo CDU.
- Sawl asiantaeth wedi'u cynnwys.
- Yr Awdurdod Lleol wedi'i gynnwys.
- Gwybodaeth fanwl wedi'i rhannu a'i rhoi gan y lleoliad/ysgol ill dau.
- Trefnu sgwrs gyda'r bobl ifanc, rheini/cynrychiolwyr i holi a ydi popeth yn iawn.
- Creu amserlen strwythuredig o ddiwyddiadau ar gyfer profiadau pontio.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- Pontio dwysach i'r lleoliad newydd.
- Lle bo'n bosibl, profiadau ymarferol penodol yn cael eu cynnig i'r person ifanc – yn ôl eu hanghenion.
- Archwiliadau Amgylcheddol o'r lleoliad newydd os oes angen.

y Cwricwlwm:

- Cyfleoedd i arsylwi.
- Gweithdai pontio mewn grwpiau bychain.

Addysgeg:

- Cael profiad/ymarfer defnyddio offer.

Rheoli'r dysgu/Diwallu anghenion

- Staff yn y lleoliad newydd i weithio yn yr ysgol gyda'r person ifanc yn ystod blwyddyn olaf y pontio.
- Cynghorydd Gyrfa Arbenigol / Cyngor ar Lwybrau / Cynnig Lleol
- Cyfleoedd profiad gwaith/cyfweliadau ffug lle bo'n briodol.
- Ystyried a oes angen cofrestru gyda'r gwasanaethau brys fel oedolyn bregus.

Adolygiad ar ôl y pontio: I'w gwblhau gan y Cydlynnydd ADY yn y ddarpariaeth sy'n derbyn erbyn diwedd y tymor cyntaf yn dilyn y cyfnod pontio.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	4 Gorffennaf 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar y Canllawiau Pontio ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau- model cymorth cynhwysol
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023

CEFNDIR:

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu'r Canllawiau Pontio ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau: model cymorth cynhwysol yn eu cyfarfod ar 8 Mehefin 2023. Roedd y canllawiau wedi'u cyflwyno er mwyn darparu gwybodaeth ac arweiniad i ysgolion, lleoliadau a cholegau ar drefniadau pontio a chymorth cynhwysol effeithiol. Byddai'r canllawiau'n rhannu arferion da gan ddarparu arweiniad effeithiol, er mwyn cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i ffynnu, byw bywydau llawn ac ystyrlon, a dod yn aelodau a chyfranwyr gwerthfawr yn eu cymuned leol.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i argymhell i'r Cabinet:-

- I. mabwysiadu cynnwys y canllawiau pontio ar gyfer ysgolion a lleoliadau Ceredigion; a
- II. datblygu cysondeb gweithredu a phontio llyfn ar gyfer planta phobl ifanc trwy gydol e u gyrfa addysgol ac i fyd oedolion, gan eu galluogi i gyrraedd eu potensial

Y Cynghorydd Endaf Edwards
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	04 Gorffennaf 2023
Teitl:	Polisi Derbyn Ysgolion 2024/2025
Pwrpas yr Adroddiad:	I fabwysiadu'r trefniadau derbyn 2024/2025 fel polisi
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Mae'r trefniadau derbyn a gynigwyd ar gyfer 2024/2025 nawr wedi mynd trwy'r broses ymgynghorol, fel y pennwyd yn Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Atgynhychir y polisi arfaethedig yn ddogfen atodedig.

	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam	Amherthnasol – Ni fu unrhyw newidiadau i'r polisi ers y llynedd ac eithrio dyddiadau wedi'u diweddarau
Lles Cenedlaethau'r Dyfodol:	Crynodeb: Tymor Hir: Integreiddio: Cydwethio: Cyfranogiad: Atal:	
Argymhelliad:	Gofynnir i'r aelodau gadarnhau'r Polisi derbyn disgyblion 2024/2025.	
Rheswm dros y penderfyniad:	I gael polisi mewn lle ar gyfer 2024/2025.	
Trosolwg a Chraffu:	Dim yn Berthnasol.	
Fframwaith Polisi:	Y Cod Derbyn I Ysgolion: Dogfen Cod Statudol Rhif: 005/2013.	
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae'r polisi'n berthnasol i Amcan Strategol y Cyngor: <ul style="list-style-type: none"> • Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl. 	
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim yn Berthnasol.	

Tudalen 238

Goblygiadau cyfreithiol:	Methu â chydymffurfio â gofyniad statudol.
Goblygiadau staffio:	Dim yn Berthnasol
Goblygiadau eiddo/asedau:	Dim yn Berthnasol
Risg(iau):	Methu â chydymffurfio â gofyniad statudol.
Pwerau Statudol:	Y Cod Derbyn I Ysgolion: Dogfen Cod Statudol Rhif: 005/2013.
Papurau Cefndir:	Cabinet 07/06/2022 – Polisi Derbyn Ysgolion 2023/2024 – Cadarnhau'r Polisi Derbyn Disgyblion ar gyfer 2023/2024.
Atodiadau:	Atodiad 1- Polisi Derbyn Ysgolion 2024-2025
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion
Swyddog Adrodd:	Gwion Dafydd: Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd
Dyddiad:	05/06/2023



Cyngor Sir Ceredigion

Gwasanaeth Ysgolion

Polisi Derbyn Ysgolion 2024/2025

Contents

DERBYN	3
AWDURDODAU DERBYN.....	3
GWYBODAETH DDEFNYDDIOL.....	4
Fforwm Derbyn	4
Cludiant	4
Addysg Ddewisol yn y Cartref.....	4
1. OED Y GALL PLANT DDECHRAU YSGOL	5
2. AMSERLEN DDERBYN	6
3. Y BROSES DDERBYN	7
3.1 DEWIS Y RHIENI	7
3.2 DEWIS YSGOL	7
3.3 GWNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL	7
3.4 DYRANNU LLEOEDD	8
3.5 MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO.....	8
3.6 CYFEIRIAD CARTREF.....	9
3.7 NEWID CYFEIRIAD	9
3.8 TEULUOEDD GWEITHWYR LLUOEDD ARFOG Y D.U. A GWEISION ERAILL Y GORON (gan gynnwys DIPLOMYDDION)	9
3.9 DISGYBLION A WAHARDDWYD	9
4. CYNIG LLE MEWN YSGOL (RHOI GWYBOD AM GYNNIG).....	10
4.1 YSGOL AML-SAFLE	10
4.2 GRWPIAU BLWYDDYN	10
4.3 DECHRAU YSGOL	10
4.4 TYNNU'R CYNIG O LE YN ÔL.....	10
5. CEISIADAU AFLWYDDIANNUS	11
5.1 APELIADAU	11
5.2 RHESTRAU AROS	11
6. GWNEUD CAIS Y TU ALLAN I'R ROWND DERBYN ARFEROL	12
6.1 SYMUD I'R ARDAL.....	12
6.2 NEWID YSGOL YN YSTOD Y FLWYDDYN.....	12
6.3 LLEOEDD CHWECHED DOSBARTH	12
ATODIAD A – Niferoedd Derbyn a Chapasiti Ysgolion	13
Ysgol Gynradd (Ysgol 3 – 11 gyda Darpariaeth Feithrin)	13
Ysgol Gynradd (Ysgol 4 – 11 heb Ddarpariaeth Feithrin)	13
Ysgol Ganol 3 - 16	14
Ysgol Ganol 3 - 19	14
Ysgolion Uwchradd.....	15
ATODIAD B – EITHRIADAU I'R FENTER MAINT DOSBARTHIADAU BABANOD	16

DERBYN

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn pennu swyddogaethau i Awdurdodau Derbyn, Paneli Apêl a Fforymau Derbyn mewn perthynas â derbyn disgyblion i ysgolion.

Awdurdod Lleol (ALI) Ceredigion yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yng Ngheredigion.

Gydag Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr, mae'r Corff Llywodraethu'n gweithredu fel Awdurdod Derbyn. Mae Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yn ysgol a ariannir gan y wladwriaeth lle mae sefydliad neu ymddiriedolaeth (sefydliad crefyddol fel arfer) yn cyfrannu at y costau adeiladu ac yn cael dylanwad sylweddol ar y ffordd mae'r ysgol yn cael ei rhedeg.

Mae gan bob un o'r cyrff hyn ddyletswydd statudol i "weithredu" yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion.

AWDURDODAU DERBYN

Ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir

Mae holl ysgolion Ceredigion (ac eithrio Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant) yn dod o fewn y categori hwn, a rheolir y broses dderbyn gan ALI Ceredigion, nid yr Ysgolion neu'u Cyrff Llywodraethu. Gydag ysgolion o'r fath, dylid gwneud pob cais i'r ALI ac nid i'r Ysgol am mai'r ALI yw'r unig gorff a all gynnig lleoedd ysgol.

Mae manylion cyswllt yr Awdurdod Derbyn fel a ganlyn:

Tîm Derbyniadau

Gwasanaeth Ysgolion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

Dylid gwneud ceisiadau trwy ddefnyddio'r ffurflen dderbyn ar-lein, sydd ar gael ar wefan Ceredigion (www.ceredigion.gov.uk).

Ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant yw'r unig ysgol o'i math yng Ngheredigion. Dylid gwneud ymholiadau derbyn i'w Chorff Llywodraethu, er y bydd unrhyw ffurflenni ar-lein a dderbynnir gan yr ALI yn cael eu hanfon ymlaen i'r ysgol. Mae cyfeiriad yr ysgol fel a ganlyn:

Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant

Ffordd Llanbadarn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1EZ

GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

Fforwm Derbyn

Mae Fforwm Derbyn Ceredigion yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i drafod materion derbyn lleol. Cynrychiolir Penaethiaid, Llywodraethwyr, Rhieni ac Awdurdodau Esgobaethol.

Mae cofnodion y cyfarfodydd ar gael ar wefan Ceredigion.

Trwy gydol y ddogfen hon bydd y gair **Rhieni** yn golygu nid yn unig y rhieni ond unrhyw berson(au) sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol fel rhiant plentyn.

Cludiant

Mae'r ALI yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant oed ysgol statudol (y tymor ar ôl eu 5^{ed} pen-blwydd) ar sail y canlynol:

- Disgyblion oed cynradd sy'n byw dros ddwy filltir i ffwrdd o'r ysgol gynradd addas agosaf;
- Disgyblion oed uwchradd sy'n byw dros dair milltir i ffwrdd o'r ysgol uwchradd addas agosaf.

Mesurir y pellter yn ôl y llwybr cerdded byrraf rhwng yr ysgol â'r cartref. O'r ffordd fawr agosaf at yr eiddo at brif fynedfa'r ysgol.

Mae gwybodaeth bellach ar gael oddi wrth yr Uned Cludiant (01545 570881).

Addysg Ddewisol yn y Cartref

Gall rhieni hefyd ddewis addysgu'u plant gartref. Gelwir hyn yn Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae angen meddwl yn ofalus cyn penderfynu addysgu gartref, am ei fod yn gofyn llawer yn nhermau ymrwymiad, amser a chost.

Cynghorir rhieni sy'n ystyried yr opsiwn hwn i gysylltu â'r ALI, a gofyn am arweiniad oddi wrth y Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref, ar 01970 633624.

1. OED Y GALL PLANT DDECHRAU YSGOL

1.1 Plant Oed Meithrin – 3 Oed

Oed	Dyddiad y mae'n rhaid cyrraedd yr oed priodol	Tymor Derbyn
3	31 Rhagfyr 2023 31 Mawrth 2024 31 Awst 2024	Gwanwyn 2024 Haf 2024 Hydref 2024

Nid yw bod yn ddisgybl mewn Dosbarth Meithrin yn golygu bod plentyn yn gymwys i gael ei dderbyn i'r Dosbarth Derbyn. Bydd angen i Rieni/Gwarcheidwaid wneud cais ar wahân.

1.2 Plant Oed Cynradd - 4 Oed

Oed	Dyddiad y mae'n rhaid cyrraedd yr oed priodol	Tymor Derbyn
4	31 Rhagfyr 2023 31 Mawrth 2024 31 Awst 2024	Gwanwyn 2024 Haf 2024 Hydref 2024

Nid yw deddfwriaeth yn gwneud hi'n ofynnol i blentyn ddechrau ysgol tan y tymor ar ôl ei bumed pen-blwydd, a gall y rhiant ohirio'r mynediad tan yr oed hwnnw. Fodd bynnag, rhaid cyflwyno ceisiadau am dderbyn gohiriedig erbyn yr un dyddiad cau â cheisiadau arferol (gweler adran 2 am fanylion dyddiadau cau).

1.3 Plant Oed Uwchradd – 11 Oed

Oed	Dyddiad y mae'n rhaid cyrraedd yr oed priodol	Tymor Derbyn
11	31 Awst 2024	Hydref 2024

Gwahoddir rhieni disgyblion blwyddyn 6 i fynegi'u dewis o Ysgol Uwchradd yn Nhymor yr Hydref yn y flwyddyn cyn y trosglwyddo.

Ni fydd disgyblion Blwyddyn 6 sy'n mynychu Ysgol Ganol ac sy'n bwriadu aros yn yr ysgol honno yn gorfod gwneud cais ar gyfer y cyfnod Uwchradd.

Gweler Atodiad A am enwau Ysgolion Ceredigion a'r math o ddarpariaeth a gynnigir h.y. Meithrin, Cynradd neu Uwchradd.

2. AMSERLEN DDERBYN

Darpariaeth	Oed	Dechrau Ysgol	Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau	Dyddiad Cynnig/Hysbysu	Dyddiad Cau ar gyfer Apelio
Plant Oed Meithrin.	3ydd Penblwydd 1af Medi 2023 i 31ain Awst 2024	Ionawr, Ebrill, Medi 2024	31^{ain} Ionawr 2023	17 ^{eg} Ebrill 2023	Dim hawl i Apelio
Plant Oed Cynradd. (Does dim trosglwyddo awtomatig o'r ddarpariaeth Feithrin – bydd angen gwneud cais ar wahân).	4ydd Penblwydd 1af Medi 2023 i 31ain Awst 2024	Ionawr, Ebrill, Medi 2024	31^{ain} Ionawr 2023	17 ^{eg} Ebrill 2023	10 Diwrnod Gwaith o dderbyn y Llythyr Gwrthod.
Plant Oed Uwchradd. (Ceisiadau ar gyfer disgyblion cynradd sy'n dechrau Blwyddyn 7 yn yr uwchradd).	Penblwydd yn 11 oed 1af Medi 2023 i 31ain Awst 2024	Medi 2024	20^{fed} Rhagfyr 2023	1 ^{af} Mawrth 2024	10 Diwrnod Gwaith o dderbyn y Llythyr Gwrthod.

3. Y BROSES DDERBYN

3.1 DEWIS Y RHIENI

Er bod y rhan fwyaf o rieni'n anfon eu plentyn i'r ysgol agosaf, mae ganddynt yr hawl i ddewis unrhyw ysgol yng Ngheredigion.

Gellir gwneud newidiadau i'r dewis o ysgol ar unrhyw adeg hyd at y dyddiad cau (gweler y Tabl Derbyn yn adran 2) – bydd angen i rieni wneud hyn yn ysgrifenedig (i'r Tîm Derbyn) yn ogystal â chyflwyno cais newydd.

Bydd unrhyw newid o ran y dewis o ysgol ar ôl y dyddiad cau yn cael ei drin fel cais hwyr.

Gellir dewis tair ysgol (gan nodi trefn blaenoriaeth). Os na fydd yr ALI yn gallu cynnig lle yn y dewis cyntaf, yna ystyrir yr ail ddewis ac yn y blaen.

3.2 DEWIS YSGOL

Pa bynnag ysgol a ddewisir gan y rhieni, argymhellir eu bod yn cysylltu, yn trafod, ac yn ymweld â'r ysgol(ion) a ddewiswyd er mwyn cael gwybod pa gyfleusterau a chyfleoedd sydd ar gael.

3.3 GWNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL

Bydd angen i bob cais gael eu gyflawni a'u gyflwyno erbyn y dyddiadau cau a osodir yn yr Amserlen Dderbyn yn Adran 2. Ar ôl y dyddiad cau, bydd yr holl geisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau'n cael eu prosesu. Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau'n cael eu hystyried ar ôl yr holl geisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau, oni bai bod yna resymau eithriadol dros gyflwyno cais hwyr

e.e. pan fydd y teulu wedi symud i'r ALI rhwng y dyddiad cau a'r dyddiad cynnig lle (ac os felly bydd angen tystiolaeth o'r newid cyfeiriad) neu pan fydd yna resymau eithriadol dros fethu â chyflwyno cais ar amser.

Rhaid nodi rhesymau dros geisiadau hwyr yn ysgrifenedig gyda'r cais, gan gynnwys unrhyw ddogfennau/datganiadau ategol priodol.

3.4 DYRANNU LLEOEDD

Bydd yr ALI yn derbyn plant hyd at nifer derbyn yr ysgol a ffeirir. Serch hynny, pan fydd y lle olaf a ddyrannir (hyd at y nifer derbyn) yn un o enedigaeth luosog, bydd yr ALI hefyd yn derbyn y brawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd arall/eraill.

Mae'r Nifer Derbyn yn nodi nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn yr ysgol.

Mae'r Nifer Derbyn ar gyfer pob ysgol i'w weld yn Atodiad A: Niferoedd Derbyn a Chapasiti Ysgolion.

Cyfrifir y nifer gan ddefnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru - 'Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru'. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.wales.gov.uk.

3.5 MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO

Mewn achosion lle mae nifer y ceisiadau'n fwy na'r Nifer Derbyn yna bydd y lleoedd ysgol yn cael eu dyrannu yn ôl y meini prawf gordanysgrifio isod (a restrir yn nhrefn blaenoriaeth):

- plant sy'n derbyn gofal neu a oedd yn arfer derbyn gofal (sydd wedi'u mabwysiadu neu'n destun gorchymyn preswyl neu orchymyn gwarcheidwaeth arbennig yn union ar ol bod mewn gofal). Bydd angen tystiolaeth bod y plentyn yn arfer derbyn gofal;
- yr ysgol a ffeirir yw'r ysgol addas agosaf ac mae gan y plentyn **frawd neu chwaer** yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu;
- yr ysgol a ffeirir yw'r ysgol addas agosaf;
- plant nad yr ysgol honno yw'r ysgol addas agosaf atynt, ond sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.

Diffinnir brodyr a chwiorydd fel a ganlyn: disgyblion gyda brodyr neu chwiorydd llawn, hanner brodyr neu chwiorydd, llys frodyr neu chwiorydd, neu blant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n mynychu'r ysgol a ffeirir, ac sy'n byw ar un aelwyd.

Pan fod mwy nag un plentyn yn cwrdd â'r meini prawf hyn a bod yna ymgeiswyr ar ôl o hyd, yna bydd y plentyn sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael ei dderbyn. Mesurir pob pellter yn ôl y llwybr cerdded byrraf (gan ddefnyddio Google Maps) rhwng prif gât yr ysgol â'r man lle mae cartref y plentyn yn cwrdd â'r briffordd.

3.6 CYFEIRIAD CARTREF

Cyfeiriad cartref y disgybl yw'r eiddo preswyl sy'n unig gartref neu'n brif gartref swyddogol iddo/iddi, sydd un ai:

- yn berchen i'r rhiant/rhieni neu'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; neu
- ar brydles neu'n cael ei rentu gan riant/rhieni'r plentyn neu'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant dan gytundeb rhentu ysgrifenedig.

Pan fydd y cyfrifoldeb rhiant yn cael ei rannu, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant, am ran o'r wythnos, yna ystyrir mai'r cartref swyddogol yw'r cyfeiriad y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. 3 allan o 5 diwrnod).

Mae'r ALI yn cadw'r hawl i ofyn am brawf o gyfeiriad ar unrhyw adeg yn ystod y broses dderbyn.

3.7 NEWID CYFEIRIAD

Pan fydd teulu'n symud a bod y rhieni'n gwneud cais am dderbyn plentyn i ysgol ar sail eu cyfeiriad newydd, gall yr ALI gymryd camau i wirio'r trefniadau. Bydd yr ALI yn derbyn un ai:

- llythyr cyfreithiwr yn nodi bod cytundeb wedi'i gyfnewid ynghyd â dyddiad cwblhau;
- cytundeb tenantiaeth sydd wedi'i lofnodi a'i ddyddio.

Os na ellir darparu prawf o'r cyfeiriad newydd, yna seilir y cais ar y cyfeiriad presennol.

3.8 TEULUOEDD GWEITHWYR LLUOEDD ARFOG Y D.U. A GWEISION ERAILL Y GORON (gan gynnwys DIPLOMYDDION)

Mae'r teuluoedd uchod yn tueddu i symud yn aml o fewn y Deyrnas Unedig ac o dramor, a hynny'n aml ar rybudd cymharol fyr. O ganlyniad, bydd ceisiadau am leoedd ar gyfer y flwyddyn ysgol sydd i ddod yn cael eu hystyried os byddant yn dod gyda llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, yn nodi dyddiad dychwelyd. Yna dyrannir lleoedd ysgol os byddai'r ymgeisydd yn cwrdd â'r meini prawf ar ôl symud i'r cyfeiriad newydd.

Bydd cyfeiriadau post unedau'n cael eu derbyn hefyd ar gyfer ceisiadau oddi wrth y lluoedd arfog, yn absenoldeb cyfeiriad post newydd.

3.9 DISGYBLION A WAHARDDWYD

Os bydd disgybl eisoes wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor, er y gall rhiant nodi ei fod yn ffafrio ysgol benodol ar gyfer addysg y plentyn, does dim rhaid i'r ALI gydymffurfio â'r dymuniad hwnnw am gyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad y gwaharddiad diweddaraf.

4. CYNNIG LLE MEWN YSGOL (RHOI GWYBOD AM GYNNIG)

Bydd rhieni'n derbyn e-bost yn cadarnhau, neu beidio, bod lle ar gael yn yr ysgol ac yn cynnig cyfle iddyn nhw dderbyn y lle hwnnw.

Anfonir ebysts ynghylch penderfyniadau ceisiadau **Ysgolion Uwchradd** ar y **1^{af} o Fawrth 2023** ac ar gyfer ceisiadau **Ysgolion Cynradd** ar y **19^{eg} Ebrill 2022**.

Bydd angen derbyn yr holl gynigion. Mi fydd yr ebost a anfonir atoch yn cynnwys dolen a fydd yn caniatáu i chi wneud hynny.

Os nad yw'r cynnig yn cael ei dderbyn, yna gall y lle hwnnw gael ei dynnu'n ôl a'i gynnig i ddisgybl arall.

4.1 YSGOL AML-SAFLE

Bydd cynigion Ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un safle ar gyfer yr Ysgol ac nid ar gyfer safle penodol.

Mater ar gyfer trefniadaeth fewnol yr ysgol yw'r safle a fynychir gan y plant. Ni ellir apelio yn erbyn y safle a ddyrannir.

4.2 GRWPIAU BLWYDDYN

Bydd disgyblion yn cael eu derbyn i'r grŵp blwyddyn sy'n briodol ar gyfer eu hoed cronolegol. Mae hyn yn gyson gyda Pholisi Anghenion Addysg Arbennig Ceredigion (<http://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/ysgolion-ac-addysg/anghenion-addysg-arbennig-aaa/>) a Dogfen Egwyddorion a Disgwyliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol Ceredigion (<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/ysgolion-ac-addysg/anghenion-dysgu-ychwanegol/>), sy'n datgan y gall ysgol ei chael yn briodol i gynnig gwersi penodol i ddisgyblion, am gyfnod cyfyngedig, mewn grwpiau addysgu is neu uwch fel rhan o wahaniaethu arferol o fewn y brif ffrwd, ond ni ddylid gosod disgyblion yn barhaol mewn grwpiau cofrestru hŷn neu iau na'u hoed cronolegol.

Nid oes unrhyw hawl i apelio os bydd lle wedi'i gynnig, ond nid yn y grŵp blwyddyn a ddymunir.

4.3 DECHRAU YSGOL

Oni bai bod yna resymau eithriadol, disgwylir i'r plentyn ddechrau'r ysgol ar y dyddiad a nodir yn y cynnig. Bydd angen trafod unrhyw oedi o ran dechrau gyda'r Ysgol oherwydd ni fydd modd cadw'r lle am gyfnod amhenodol. Gwneir penderfyniadau ynghylch pa mor hir y dylid cadw lle fesul achos, ac mewn ymgynghoriad â'r rhieni a'r ysgol. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd lle'n cael ei gadw am fwy na 6 wythnos.

4.4 TYNNU'R CYNNIG O LE YN ÔL

Bydd y cynnig o le mewn ysgol yn cael ei dynnu'n ôl ar sail y canlynol:

- Darganfod ar ôl gwneud y cynnig bod y cais yn un twyllodrus neu'n fwriadol gamarweiniol (megis rhoi cyfeiriad ffug sy'n agosach at yr ysgol).
- Cadarnhad bod y lle'n cael ei dderbyn heb ei ddychwelyd i'r ALI erbyn y dyddiad a nodwyd yn y cynnig.

5. CEISIADAU AFLWYDDIANNUS

Os na fydd rhieni'n llwyddo i gael lle i'w plentyn yna byddant yn cael gwybod beth yw'r rheswm am hynny, a'u hawl i wneud apêl annibynnol.

5.1 APELIADAU

Bydd angen i'r rhieni anfon llythyr yn gofyn am apêl i Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion o fewn 10 diwrnod o'r dyddiad y cawsant eu hysbysu bod eu cais am le'n aflwyddiannus.

Gwneir trefniadau i'r panel apêl gwrdd trwy adran Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir Ceredigion.

Nid oes unrhyw hawl i apelio yn erbyn darpariaeth feithrin anstatudol.

Nid yw'r penderfyniad i wrthod yn cael ei wneud yn ysgafn, ac fe'i gwneir pan fydd y nifer derbyn wedi'i gyrraedd yn unig a/neu pan fydd dosbarth babanod (h.y. blwyddyn derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2) yn croesi'r trothwy 30. Mae Rheoliadau Llywodraeth Cymru'n gofyn bod Awdurdodau'n cyfyngu maint dosbarthiadau babanod i 30 o ddisgyblion. Byddai derbyn mwy na hynny'n creu rhagfarn maint dosbarth, hynny yw, yn rhagfarnu yn erbyn addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau. Ni fyddai rhagfarn maint dosbarth babanod i'w gael mewn achosion lle nad oedd nifer derbyn yr ysgol wedi'i gyrraedd.

Mae yna, fodd bynnag, eithriadau i'r rheoliadau hyn (a elwir yn "ddisgyblion a eithrir") a all ganiatáu croesi'r trothwy o 30 disgybl mewn dosbarth. Ceir rhestr lawn o 'ddisgyblion a eithrir' yn Atodiad B.

5.2 RHESTRAU AROS

Bydd unrhyw blentyn sydd ddim yn cael cynnig lle yn ei ddewis cyntaf o ysgol yn cael ei gadw ar restr aros tan 30ain Medi yn y flwyddyn academaidd berthnasol.

Os bydd lleoedd yn dod ar gael yna byddant yn cael eu dyfarnu yn unol â'r meini prawf gordanystrifio, yn hytrach na maint yr amser ers cyflwyno'r cais.

6. GWNEUD CAIS Y TU ALLAN I'R ROWND DERBYN ARFEROL

6.1 SYMUD I'R ARDAL

Dylai rhieni sy'n symud i'r ardal gyflwyno cais ddim cynharach na thymor cyn y dyddiad y rhagwelir y bydd eu plentyn/plant yn dechrau

e.e. os oes angen lle yn nhymor y gwanwyn yna dylid cyflwyno'r cais ddim cynharach na dechrau tymor yr hydref blaenorol.

Bydd ceisiadau a gyflwynir dros dymor ymlaen llaw'n cael eu cadw tan yr adeg briodol.

Gall oedi o ran symud i'r ardal arwain at dynnu cynigion yn ôl.

6.2 NEWID YSGOL YN YSTOD Y FLWYDDYN

Mae angen ystyried yn ofalus cyn newid ysgol a dylid trafod y mater yn llawn gyda Phennaeth ysgol bresennol y plentyn yn y lle cyntaf.

Os bydd rhieni'n dal i fod angen symud eu plentyn o un ysgol i un arall, yna rhaid iddyn nhw gyflwyno cais i wneud hynny.

6.3 LLEOEDD CHWECHED DOSBARTH

Mae holl Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Canol Ceredigion yn gyfrifol am eu derbyniadau 6ed dosbarth eu hunain a dylech gyflwyno bob cais yn uniongyrchol i'ch dewis ysgol.

ATODIAD A – Niferoedd Derbyn a Chapasiti Ysgolion**Ysgol Gynradd (Ysgol 3 – 11 gyda Darpariaeth Feithrin)**

Ysgol	Capasiti	Nifer Derbyn
Aberaeron	201	28
Aberteifi	421	60
Bro Sion Cwilt	147	21
Cenarth	97	13
Dyffryn Cledlyn	120	17
Llwyn-Yr-Eos	219	31
Plascrug	409	58
Rhydypennau	190	27
T. Llew Jones	180	25
Y Dderi	133	19
Y Gymraeg	370	52

Bydd angen i ddisgyblion Meithrin wneud cais ar gyfer y Cyfnod Cynradd.

Ysgol Gynradd (Ysgol 4 – 11 heb Ddarpariaeth Feithrin)

Ysgol	Capasiti	Nifer Derbyn
Aberporth	181	25
Cei Newydd	98	14
Ciliau Parc	68	9
Comins Coch	202	28
Craig yr Wylfa	74	10
Dihewyd	35	5
Felinfach	60	8
Llanarth	86	12
Llanfarian	56	8
Llanfihangel-y-Creuddyn	37	5
Llangwryfon	55	7
Llanilar	173	24
Llannon	59	8
Llechryd	90	12
Myfenydd	91	13
Mynach	51	7

Tudalen 252

Padarn Sant	134	19
Penllwyn	55	7
Penparc	146	20
Penrhyncoch	110	15
Pontrhydfendigaid	98	14
<u>Rhos Helyg</u>	104	14
- Campws Llangeitho	Mae Rhos Helyg yn gweithredu ar ddau safle. Bydd y lleoedd a gynigir ar gyfer yr ysgol yn hytrach na safle penodol. Mater ar gyfer trefniadaeth fewnol yr ysgol fydd y safle a fynychir gan y plant.	
- Campws Rhos Y Wlad		
Syr John Rhys	39	5
Talgarreg	63	9
Talybont	127	18

Ysgol Ganol 3 - 16

Ysgol	Capasiti	Nifer Derbyn
Henry Richard		
Henry Richard 3 - 11	120	17
Henry Richard 11 – 16	373	74

Ysgolion Ganol 3 - 19

Ysgol	Capasiti	Nifer Derbyn
Bro Pedr		
Bro Pedr (3-11)	376	53
Bro Pedr (11-19)	841	150 (Bl. 7 – 11)
Bro Teifi		
Bro Teifi (3-11)	360	51
Bro Teifi (11 – 19)	678	111 (Bl. 7 – 11)

Ni fydd disgyblion oed Cynradd (4 – 11) sy'n bwriadu aros yn eu hysgol yn gorfod gwneud cais i'r Cyfnod Uwchradd.

Ysgolion Uwchradd

Ysgol	Capasiti	Nifer Derbyn (Bl. 7 – 11)
Aberaeron	965	156
Aberteifi	691	115
Penglais	1336	209
Penweddig	1070	170

ATODIAD B – EITHRIADAU I'R FENTER MAINT DOSBARTHADAU BABANOD

- Plant y mae eu datganiadau AAA yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, ac a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i rownd dderbyn arferol.
- Plant y mae awdurdodau lleol yn gofalu amdanynt (plant sy'n derbyn gofal), neu nad ydynt yn cael gofal bellach (plant oedd yn arfer derbyn gofal) am eu bod wedi'u mabwysiadu neu'u gosod gyda theulu, neu wedi cael gwarcheidwad arbennig, ac sy'n cael eu derbyn i'r ysgol y tu allan i rownd dderbyn arferol.
- Plant na chafodd eu derbyn i ysgol yn y lle cyntaf, ond a gafodd gynnig lle wedi hynny yn sgil cyfarwyddyd panel apeliadau derbyn, neu am fod y sawl oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod bod camgymeriad wedi'i wneud wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol.
- Plant a dderbynnir y tu allan i'r rownd dderbyn arferol:
 - y mae'r awdurdod lleol cynhaliol wedi cadarnhau na allant gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref am eu bod wedi symud i'r ardal y tu allan i rownd dderbyn arferol, neu
 - sydd am gael addysg grefyddol neu addysg Gymraeg, ac mai'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol addas o fewn pellter rhesymol.
- Plant a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i rownd dderbyn arferol y trefnodd yr ysgol ei dosbarthiadau yn ei sgil ac ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol, y byddai ei effaith yn golygu y byddai'r ysgol yn gorfod cymryd mesur perthnasol os nad oedd y plant yn ddisgyblion a eithrir.
- Plant gweithwyr y lluoedd arfog a dderbynnir y tu allan i rownd dderbyn arferol.
- Plant y mae eu hefaill neu frawd neu chwaer o enedigaeth luosog wedi'u derbyn fel y disgybl(ion) nas eithrir olaf cyn croesi'r trothwy nifer derbyn.
- Plant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig, ond sy'n cael rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd.
- Plant gydag AAA sydd fel arfer yn cael eu haddysgu mewn uned arbennig o fewn ysgol brif ffrwd, sy'n derbyn rhan o'u gwersi mewn dosbarth nad yw'n un arbennig.

Bydd disgyblion a eithrir yn parhau felly, unwaith eu bod wedi'u derbyn, am weddill eu hamser mewn dosbarth babanod, neu nes bod y nifer yn y dosbarth yn gostwng a bod modd eu trefnu i gydymffurfio â'r cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod. Er enghraifft, os bydd plentyn nas eithrir yn gadael dosbarth, bydd un lle ychwanegol yn y dosbarth babanod, neu os penodir athro ychwanegol, yna ni fydd y plentyn hwnnw'n ddisgybl a eithrir bellach. Rhaid trefnu dosbarthiadau i gydymffurfio a'r cyfyngiadau lle bynnag y bo'n bosib.

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	04 Gorffennaf 2023
Teitl:	Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol
Pwrpas yr adroddiad:	Cadarnhau enwebu Cynrychiolydd Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethol
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Ysgol Gynradd Gymunedol Y Dderi: Ail-enwebu Sheila Pugh fel Llywodraethwr Awdurdod Lleol ar gais Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Y Dderi.

Ysgol Gynradd Gymunedol Llangwryfon: Ail-enwebu Nudd Lewis fel Llywodraethwr Awdurdod Lleol ar gais Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Llangwryfon.

Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam Na – nid yw'r adroddiad yn cyfeirio at newid Polisi neu Wasanaeth.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

**Crynodeb:
Hirdymor:
Cydwethio:
Cynnwys:
Atal:
Integreiddio:**

Argymhelliad / Argymhellion:

Gofynnir i Aelodau gadarnhau'r enwau a enwebwyd uchod fel cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:

Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol.

Trosolwg a Chraffu:

Amherthnasol

Fframwaith Polisi:

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Amherthnasol

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Dim

**Goblygiadau
cyfreithiol:**

Goblygiadau staffio: Dim

**Goblygiadau eiddo /
asedau:** Dim

Risg(iau): Amherthnasol

Pwerau Statudol: Amherthnasol

Papurau Cefndir: Amherthnasol

Atodiadau: Amherthnasol

**Swyddog Arweiniol
Corfforaethol:** Clive Williams, Dirprwy Brif Swyddog Addysg a Swyddog
Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion (Dros dro)

Swyddog Adrodd: Nia James, Rheolwr Corfforaethol, Adnoddau Dysgu,
Gwasanaethau Ysgolion

Dyddiad: 14/06/2023

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	4 Gorffennaf 2023
Teitl:	Trefniadau Tâl y Crwner Diwygiedig ar gyfer 2023/24
Diben yr adroddiad:	Cymeradwyo trefniadau tâl y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Tai, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

CEFNDIR

Ar 7 Mawrth 2023, cymeradwyodd y Cabinet drefniadau tâl y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol ar gyfer 2023/24 yn unol â'r cyfraddau tâl a nodwyd yng Nghylchlythyr 67 y Cydgyngor Trafod Telerau (JNC):

Gosodwyd y cyfraddau tâl ar gyfer 2023/24 (1/4/23-31/3/24) fel a ganlyn (Cofnod 177):

Uwch Grwner rhan-amser:

- i) Cyflog Cadw o £21,449 y flwyddyn i gwmpasu cadw/argaeledd gwasanaeth y tu allan i oriau o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024.
- ii) Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £472.25 i dalu cyflog blynyddol o £11,806 i'r Crwner (25 diwrnod gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant) o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024.

Cyfanswm blynyddol o £33,255 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).

Crwner Cynorthwyol:

- diwrnod llawn: £403;
- hanner diwrnod: £202.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Ar 5 Mehefin 2023 cyhoeddodd y JNC Gylchlythyr 68 (**Atodiad 1**):

“O 1 Ebrill 2023 ymlaen, dylai'r cyflogau lleol a chyfraddau dydd ar gyfer unigolion, sy'n deillio o drefniadau'r JNC isod, godi 3.5%”

Tudalen 258

Nodir ffigurau newydd y JNC yn y tabl isod:

Uwch Grwner rhan-amser

Uwch Grwner rhan-amser	1 Ebrill 2023
Cyflog sylfaenol	£22,200
Cyfradd ddyddiol	£489 i £555

Crwner Cynorthwyol

Crwner Cynorthwyol	1 Ebrill 2023
Cyfradd ddyddiol	£417 i £503

Argymhellir bod y cyfraddau tâl y cytunwyd arnynt gan y Cabinet ar 7 Mawrth 2023 yn cael eu diwygio i ystyried gofynion Cylchlythyr 68 y JNC o ran graddfeydd cyflog diwygiedig, a'u hôl-ddyddio i 1 Ebrill 2023.

Cynigion 2023/24

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r trefniadau tâl a ffioedd diwygiedig canlynol mewn perthynas â'r Uwch Grwner a'r Crwner Cynorthwyol a fydd mewn grym oddi ar 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024.

1) Uwch Grwner rhan-amser:

- i) Cyflog Cadw o £22,200 y flwyddyn i gwmpasu cadw/argaeledd gwasanaeth y tu allan i oriau o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024.
- ii) Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £489 i dalu cyflog blynyddol o £12,225 i'r Crwner (25 diwrnod y flwyddyn gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant) o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024.
Cyfanswm o £34,425 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).

Mae'r newidiadau'n cynrychioli swm ychwanegol o £1,170 y flwyddyn.

2) Crwner Cynorthwyol

Diwrnod llawn: £417;
Hanner diwrnod: £209.

Mae'r newidiadau'n cynrychioli swm ychwanegol o £20 a £7 yn y drefn honno.

Nid oes newid i dreuliau/lwfans cymorth busnes Swyddfa'r **Uwch Grwner** - £5,000 y flwyddyn - o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	<p>A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam</p> <p>Crynodeb: Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid mewn polisi na strategaeth</p> <p>Hirdymor:</p> <p>Cydweithio:</p> <p>Cynnwys:</p> <p>Atal:</p> <p>Integreiddio:</p>	Naddo
Argymhelliad:	<p>Bod y cabinet yn cymeradwyo'r cyfraddau tâl canlynol ar gyfer yr Uwch Grwner a'r Crwner Cynorthwyol ar gyfer 2023/24 yn unol â Chylchlythyr 68 y JNC:</p> <p>1) Uwch Grwner rhan-amser</p> <p>i) Cyflog Cadw o £22,200 y flwyddyn i gwmpasu cadw/argaeledd gwasanaeth y tu allan i oriau o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024.</p> <p>ii) Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £489 i dalu cyflog blyneddol o £12,225 i'r Crwner (25 diwrnod y flwyddyn gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024).</p> <p>Cyfanswm: £34,425 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).</p> <p>2) Crwner Cynorthwyol:</p> <p>Diwrnod llawn: £417;</p> <p>Hanner diwrnod: £209.</p>	
Y rhesymau dros y penderfyniad:	<p>I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Chylchlythyr y JNC; lliniaru heriau a diogelu arian cyhoeddus.</p>	
Trosolwg a Chraffu:	Dim	
Fframwaith Polisi:	Amherthnasol	
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth (darparu gwasanaeth effeithlon y crwner)	
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Parhau â'r trefniadau cyfredol; potensial ar gyfer cynnydd yng nghostau cyflogau a goblygiadau i'r gyllideb yn ymwneud â thâl y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol.	
Goblygiadau Cyfreithiol:	Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol	
Goblygiadau Staffio:	Dim - Nid yw'r Crwner a'r Crwner Cynorthwyol wedi'u dynodi fel cyflogeion i'r Cyngor	

Tudalen 260

Goblygiadau Eiddo/ Asedau:	Dim
Risgiau:	Her gyfreithiol gan y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol os na ddilynir yr argymhellion.
Pwerau Statudol:	Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/25/contents Rheoliadau Treuliau, Ffioedd a Lwfansau Crwneriaid 2013: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1615/made
Papurau cefndir:	Cylchlythyr 67 y JNC (16 Chwefror 2023): https://www.local.gov.uk/our-support/workforce-and-hr-support/coroners/coroners-circulars/jnc-coroners-circular-no-67 Cylchlythyr 68 y JNC (5 Mehefin 2023): https://www.coronersociety.org.uk/announcements/jnc---coroners-circular-no-68-with-effect-from-1st-april-2023/ Adroddiad Cabinet 7/03/23: https://council.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=148&MId=392&Ver=4&LLL=0
Atodiadau:	Atodiad 1: Cylchlythyr 68 y JNC
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)
Swyddog Adrodd:	Elin Prysor
Dyddiad:	12 Mehefin 2023

Management Side Secretary, Sarah Ward
Local Government Association
18 Smith Square,
London, SW1P 3HZ
coroners.queries@local.gov.uk

**JOINT NEGOTIATING COMMITTEE
FOR CORONERS**

Officers' Side Secretary, Joanne Kearsley
2/3rd Floor, Newgate House
Rochdale,
OL16 1AT
joanne.kearsley@rochdale.gov.uk

To: Chief Executives (London Boroughs, Metropolitan Districts, County Councils and Unitary Councils in England and Wales)

5 June 2023

CORONERS' CIRCULAR No 68

Dear Sir/Madam

JNC for Coroners – Pay 2023/24

We write to confirm that agreement has now been reached. With effect from 1st April 2023, local salaries and day rates for individuals derived from the JNC arrangements below should be increased by 3.5%.

The new JNC figures are provided in the table below:

Senior coroner	1st April 2023
Range	£129,872 to £144,303
Part-time senior coroner	1st April 2023
Base salary	£22,200
Daily rate	£489 to £555
Area coroner	1st April 2023
Range	£96,572 to £111,002
Assistant coroner	1st April 2023
Daily rate	£417 to £503

Detailed discussion will take place on potential terms of reference following on from the previous in principle JNC agreement that, subject to the terms of reference being agreed, there will be a joint update of the 2017 Korn Ferry Hay report. This would be with the intention of such work informing the pay negotiation for 2024.

Yours faithfully

**SARAH WARD
JOANNE KEARSLEY**

Joint Secretaries

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	4 Gorffennaf 2023
Teitl:	Ymgynghoriad ynghylch Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion
Pwrpas yr adroddiad:	Gofyn am ganiatâd i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Rheoli Harbyrau Ceredigion
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Keith Henson – Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, a Rheoli Carbon

CEFNDIR

Cymeradwyodd y Cyngor y fersiwn bresennol o Bolisi Rheoli Harbyrau Ceredigion ar 19 Hydref 2010.

Mae'r Polisi wedi darparu fframwaith clir, defnyddiol ac addas ar gyfer darparu a rheoli gweithgarwch harbyrau'r Cyngor yn Aberaeron, Aberystwyth a Cheinewydd. Fodd bynnag, credir ei bod hi'n briodol ac yn amserol adolygu'r Polisi a'i ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a fu ers cyflwyno'r Polisi, ynghyd â mynd i'r afael ag unrhyw fylchau rhwng y Polisi a gweithgarwch presennol yr harbyrau sydd wedi dod i'r amlwg drwy brofiad.

Adeilada'r newidiadau arfaethedig ar y Polisi presennol sydd wedi bod yn adnodd gwerthfawr i randdeiliaid am dros ddegawd. Mae'r newidiadau'n cydnabod ac yn adlewyrchu'r ffaith fod yr harbyrau'n gyfleusterau amldeffnydd sy'n cael eu cyd-ddefnyddio, a nod y Cyngor yw cryfhau'r Polisi fel y gellir parhau i'w rheoli mewn ffordd sy'n deg, tryloyw a chytbwys er budd yr holl randdeiliaid.

Paratowyd Polisi diwygiedig drafft ac fel rhan o'r broses ar gyfer newid polisiâu mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i roi cyfle i'r rhanddeiliaid ddarparu eu hadborth. Felly, gofynnir i'r Cabinet am ganiatâd i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

Ar ôl gwerthuso'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwneud unrhyw newidiadau priodol yn sgil yr ymatebion hynny, bydd y Polisi terfynol arfaethedig yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, cyn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cabinet.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam	Naddo – diben yr adroddiad yw gofyn am ganiatâd i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gwblhau ar ôl gwerthuso'r ymatebion a geir i'r ymgynghoriad.
	Crynodeb: Hirdymor: Cydwethio: Cynnwys: Atal: Integreiddio:	
Argymhelliad / Argymhellion:	Dylid rhoi caniatâd i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus.	
Rhesymau dros y penderfyniad:	Er mwyn sicrhau bod Polisi'r Cyngor ar gyfer Rheoli Harbyrau Ceredigion yn addas i'w ddiben.	
Trosolwg a Chraffu:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus	
Fframwaith Polisi:	Amherthnasol	
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth	
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim	
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim	
Goblygiadau o ran Staff:	Dim	
Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:	Dim	
Risg / Risgiau:	Dim	
Pwerau statudol:	Pwerau'r Cyngor fel Awdurdod Harbyrau a'r pwerau o dan y Deddfau Harbyrau perthnasol.	
Papurau Cefndir:	Dim	
Atodiadau:	Atodiad 1- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion	

Tudalen 265

**Swyddog Arweiniol
Corfforaethol:**

Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd
a Gwasanaethau Amgylcheddol

Swyddog Adrodd:

Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau
Amgylcheddol

Dyddiad:

01 Mehefin 2023

Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion



Awdur a gwasanaeth: Owen Morgan –
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol.
Dyddiad cymeradwywyd gan y Cabinet: I'w
gadarnhau
Asesiad Effaith Integredig (Ie/Na):
Dyddiad cyhoeddi: I'w gadarnhau
Dyddiad adolygu: I'w gadarnhau

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Amcanion y Polisi.....	3
Swyddogaethau Harbyrau Ceredigion.....	3 & 4
Mathau o Angorfeydd a Chyfleusterau.....	4, 5, 6 & 7
Rhestrau Aros Angori Hamdden, Dingis a Stondin Offer Gweithgareddau Dŵr.....	7
Angorfeydd Masnachol – Rhestrau Aros.....	7 & 8
Rhestr Aros am Angorfa Dŵr Dwfn	8
Hyd Cytundebau Angori, Lansio a Chyfleusterau.....	8 & 9
Costau a Rheolau Angori, Cyfleusterau a Lansio.....	9 & 10
Adnewyddu Angorfa/Cyfleuster a Ddyrannwyd	10
Canslo Cytundebau Ffurflen Angori a Gwrthod Ceisiadau Rhestr Aros.....	10 & 11
Risg, Atebolrwydd, Gofynion Yswiriant ac Argymhellion.....	11 & 12
Cychod a Badau Dŵr Eraill neu Offer sy'n Niweidiol i Amwynder yr Harbwr.....	12
Gwahardd Aseinio/Is-osod Angorfeydd/Cyfleusterau	12
Etifeddiaeth	13
Dull Adnabod.....	13
Newid Cwch, Bad Dŵr neu Offer Arall.....	13
Trosglwyddiadau Angori.....	13
Partneriaethau.....	13
Defnyddio Angorfeydd.....	14
Llenwi ac ail-lenwi â thanwydd	14
Llygredd a Gwastraff	14
Ymddygiad Di-hid ac Ymddygiad Afreolus	14
Cydymffurfio â Deddfau, Is-ddeddfau a Chyfarwyddiadau Rheolwr yr Harbwr.....	14 & 15
Contractwyr	15
Glanio Teithwyr	16
Glanio Nwyddau.....	16
Dogfennau.....	16
Manylion Cysylltu	17
Atodiad 1	18
Gweithdrefn Rhestrau Aros Hamdden, Masnachol, Dŵr Dwfn a Chyfleusterau.....	18

Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion

Cyflwyniad

1.1 Polisi yw hwn ar gyfer rheoli cyfleusterau ac angorfeydd gwahanol gychod yn harbyrau Ceredigion a reolir gan y Cyngor, sef Aberystwyth, Aberaeron a Cheinewydd.

1.2 Tra mai harbyrau Aberystwyth, Aberaeron a Cheinewydd yw cwmpas presennol y polisi, os bydd unrhyw harbyrau eraill neu gyfleusterau cysylltiedig yn dod yn gyfleusterau a reolir gan y Cyngor yn y dyfodol, bydd y polisi hwn yn ymestyn yn awtomatig i gynnwys y cyfleusterau hynny.

1.3 Mae'r holl angorfeydd a chyfleusterau eraill yn rhan o wasanaeth dewisol a ddarperir gan Awdurdod yr Harbwr. Dyrennir pob angorfa a chyfleuster cysylltiedig yn amodol ar gais ar sail dymhorol (Haf 1 Ebrill – 31 Hydref, Gaeaf 1 Tachwedd – 31 Mawrth) yn unig, ac mae wedi'i gwmpasu gan Ffurflen Cytundeb Angori neu Gyfleuster gyda thelerau ac amodau defnydd cysylltiedig.

1.4 Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod dull cyson, teg a chyfartal yn cael ei gymhwyso i ddeiliaid angorfeydd a defnyddwyr harbwr newydd, presennol a phosibl yn harbyrau Ceredigion. Ei nod yw sicrhau y deallir yn llawn y Polisi gweithredol a'r amodau cysylltiedig a'u bod yn deg, yn rhesymol ac yn gyfartal i bawb yn yr hyn sy'n gyfleusterau defnydd a rennir.

1.5 Mae'r datganiad polisi gweithredol hwn yn ategu Deddf Harbwr Aberystwyth 1987, Deddf Harbwr Aberaeron 1807, a Deddf Harbwr Ceinewydd 1835, Deddf Cymalau Harbyrau, Dociau a Phierau 1847 (a phob deddfwriaeth berthnasol arall gan gynnwys unrhyw Orchmynion a deddfwriaeth atodol a diwygio dilynol), yr Is-ddeddfau Harbwr cysylltiedig, a'r Telerau ac Amodau ar gyfer defnyddio harbyrau Cyngor Sir Ceredigion. Lle Cyngor Sir Ceredigion yw'r Awdurdod Harbwr Statudol mae'r Polisi hwn yn berthnasol.

1.6 Defnyddir y term 'Harbwr Feistr', fel y'i diffinnir mewn deddfwriaeth genedlaethol, i ddisgrifio'r term 'Rheolwr yr Harbwr' yn y polisi hwn.

1.7 Teclyn rheoli yw'r Polisi hwn, ni fydd dim ynddo yn amharu ar allu cyffredinol Rheolwr yr Harbyrau i ddyrannu neu reoleiddio nifer, lleoliad, maint a math yr angorfeydd a chyfleusterau a ddefnyddir ar unrhyw adeg o fewn tri Harbwr Ceredigion.

Amcanion y Polisi

2.1 Bydd prif amcanion y polisi fel a ganlyn:

- (i) Diffinio'n glir y meini prawf ar gyfer gweithredu a rheoli angorfeydd yn yr harbwr ac unrhyw ddefnydd perthnasol wrth ochr y cei, gan roi sylw dyledus i anghenion a dymuniadau lleol yn ogystal ag annog defnydd a mwynhad y cyhoedd o geiau'r harbwr.
- (ii) Parhau i hyrwyddo'r harbyrau fel rhai o'r prif leoliadau yn y sir fel harbyrau gweithredol ac ar gyfer adloniant a gweithgareddau hamdden ar y dŵr, gan ystyried yr angen i ddarparu mynediad diogel a hawdd ar gyfer holl aelodau'r cyhoedd.
- (iii) Cyfrannu'n gadarnhaol at reoli amgylchedd naturiol ac adeiledig yr harbyrau sy'n cynnwys dilyn yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol.
- (iv) Darparu trosolwg cyffredinol o gyfrifoldebau a rhwymedigaethau deiliaid angorfeydd/cyfleusterau a darparu amlinelliad o rai o'r telerau allweddol sy'n sail i ddyrannu'r angorfa/cyfleuster.

2.2 Darperir copi o'r polisi os gofynnir amdano i ymgeiswyr, ymgeiswyr posibl, aelodau'r cyhoedd a phersonau neu gyrrff eraill sydd â diddordeb. Bydd copi yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd.

Swyddogaethau Harbyrau Ceredigion

3.1 Bydd y paragraffau canlynol yn cadarnhau'r amrywiaeth gymhleth o swyddogaethau sydd gan yr harbyrau ac yn tanlinellu'r angen am bolisi angori clir fel sail i'w rheoli'n briodol.

(a) Gweithgarwch Masnachol

3.2 Bydd y cwmnïau masnachol sy'n gysylltiedig â'r porthladd yn yr harbyrau yn cynnwys cwmnïau siartr sy'n rhedeg teithiau ym Mae Ceredigion, nifer o fusnesau cychod pysgota masnachol, a darparwyr gweithgareddau ar y dŵr.

(b) Gweithgarwch Hamdden

3.3 Mae defnydd o'r harbyrau yn parhau i fod gan ddeiliaid angori hamdden yn bennaf sydd ar hyn o bryd yn amrywio o gychod hwylio i gychod pŵer. Hwylusir mynediad i gychod sy'n ymweld yn ogystal â deiliaid angorfeydd.

3.4 Mae defnydd o'r harbyrau ar gyfer adloniant ar y dŵr wedi cynyddu, yn enwedig ond heb ei gyfyngu i hwylfyrddio a hwylio dingis, canŵio, caiacio, rhwyfo, padlfyrddio a physgota. Lleolir llithrfeydd a chyfleusterau ar gyfer gweithgareddau dŵr ym mhob harbwr.

(c) Atyniadau Ymwelwyr

3.5 Yn ogystal â digwyddiadau blynyddol ar y dŵr megis regatas, mae ardaloedd yr harbwr yn cyfrannu'n helaeth at economi twristiaeth y sir yn ogystal â bod yn adnodd hamdden werthfawr i bobl leol. Bydd yr harbyrau yn darparu mynediad i ymwelwyr a

phobl leol i'r ddwy Ardal Gadwraeth Forol Arbennig, cartref i ddolffiniaid enwog Bae Ceredigion a bywyd gwyllt arall o bwysigrwydd rhyngwladol.

Mathau o Angorfeydd a Chyfleusterau

4.1 Mae'r dosbarthiad ar gyfer angorfeydd a chyfleusterau mewn harbyrau a reolir gan Gyngor Sir Ceredigion fel a ganlyn:

- (a) Angorfeydd hamdden
- (b) Angorfeydd masnachol
- (c) Angorfeydd dŵr dwfn
- (d) Angorfeydd tymor byr i ymwelwyr
- (e) Cyfleusterau
- (f) Maint a manylion cychod, badau dŵr ac offer arall

4.2 Heblaw am y trefniadau penodol y cyfeirir atynt yn ymwneud â'r parcio cyfyngedig ger y cei yn Harbwr Ceinewydd nid oes darpariaeth o ran parcio wedi ei gwneud na thocynnau tymor wedi eu rhoi i ddefnyddwyr yr Harbwr ym meysydd parcio Talu ac Arddangos y Cyngor.

(a) Angorfeydd Hamdden

4.3 Mae darparu angorfeydd ar gyfer cychod hamdden (fel arfer cychod bach a ddefnyddir gan unigolion preifat at eu defnydd eu hunain) yn rhan hanfodol o ddefnydd hamdden y tri harbwr. Darperir angorfeydd hamdden mewn amrywiol leoliadau er mwyn galluogi hyblygrwydd rheoli a gweithredu. Mae hyn yn golygu y gellir diwallu'r galw amrywiol am angorfeydd o'r fath yn ystod y flwyddyn.

4.4 Mae'r rhain yn angorfeydd a ddefnyddir am gyfnod aros o fwy na phythefnos. Nid yw tymor hir yn golygu bod yr angorfeydd hyn yn barhaol nac ychwaith yn glwm wrth leoliad neu ddeiliad angorfa penodol. Defnyddir y math hwn o angorfa gan berchnogion cychod hamdden a hoffai gadw eu cychod yn yr harbwr am gyfnodau hwy yn seiliedig ar gytundeb tymhorol. Nid yw perchnogion y cychod yn berchen ar yr hawliau i'r angorfa, ac ni chaniateir iddynt drosglwyddo hawliau defnyddio'r angorfa os ydynt yn gwerthu'r cwch sydd ar yr angorfa ar hyn o bryd. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn hyrwyddo defnydd o'r harbyrau gan gychod hamdden, ac mae darparu cyfleusterau gwasanaethau ychwanegol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Gall y rhain gael eu darparu gan y Cyngor neu mewn partneriaeth ag eraill.

(b) Angorfeydd Masnachol

4.5 Mae nifer cyfyngedig o angorfeydd ar gyfer cychod pleser sy'n cludo teithwyr, chwaraeon dŵr masnachol a chychod pysgota masnachol wedi'u cytuno ym mhob harbwr. Cydnabyddir y gellir darparu angorfeydd pellach fel rhan o gyfleoedd datblygu yn y dyfodol neu lle bydd capasiti ar gael yn y dyfodol.

4.6 Mae angorfeydd masnachol yn amodol ar y rheolaethau canlynol:

(i) Gellir categoraiddio angorfeydd masnachol fel a ganlyn:

Angorfeydd Cychod Pleser sy'n Cludo Teithwyr

Gellir defnyddio rhai angorfeydd ar gyfer cychod pleser sy'n cludo teithwyr i gynnig teithiau bywyd gwyllt, teithiau pysgota a gweithgareddau dŵr ym Mae Ceredigion.

Angorfeydd Cychod Pysgota Masnachol

Gall angorfeydd penodol gael eu defnyddio gan gychod masnachol i bysgota ym Mae Ceredigion.

(ii) Bydd angen i bob cwch sydd am gael angorfa fasnachol benodedig feddu ar y trwyddedau masnachol, codio ac ardystio angenrheidiol yn ogystal â chytundeb angori.

(iii) Bydd yn ofynnol i unrhyw gwch masnachol sy'n masnachu mewn lleoliadau strategol o'r harbwr y bydd digwyddiadau yn effeithio arnynt allu symud er mwyn ei adleoli o dro i dro.

(iv) Caiff yr holl wastraff a gynhyrchir gan y defnyddiwr ei gadw lle bynnag y bo'n bosib ar y cwch. Rhaid cadw biniau ar y cwch a'u storio mewn modd boddhaol fel nad ydynt yn amharu ar edrychiad y cwch. Bydd yn ofynnol i gychod gydymffurfio â gofynion Rheolwr yr Harbwr o ran gwaredu gwastraff, a all amrywio o dro i dro yn dibynnu ar y cynllun gwaredu gwastraff sy'n weithredol ar y pryd. Rhaid i bob defnyddiwr masnachol waredu gwastraff yn unol â'r Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd diweddaraf.

(vi) Mae cwota ar gyfer angorfeydd masnachol sef:

Aberystwyth:

Teithwyr Masnachol: 3.

Pysgota Masnachol: 9.

Aberaeron:

Teithwyr Masnachol: 6.

Pysgota Masnachol: 1.

Ceinewydd:

Teithwyr Masnachol: 11.

Pysgota Masnachol: 6.

Angorfeydd Dŵr Dwfn Masnachol: 12.

Gallai cwotâu newid yn dibynnu ar gyfleoedd datblygu yn y dyfodol neu lle bydd capasiti ar gael yn y dyfodol. Ni fydd unrhyw hawliau parcio ceir yn rhan o unrhyw angorfa fasnachol, er y bydd mynediad ar gyfer gwasanaethu'r cwch yn bosibl fel rheol.

(c) Angorfeydd Dŵr Dwfn

4.7 Ar hyn o bryd mae 18 angorfa dŵr dwfn wedi eu lleoli oddi ar yr arfordir yng Ngheinewydd. Mae angorfeydd penodol wedi eu dynodi ar gyfer cymysgedd o gychod masnachol a hamdden. Mae nifer yr angorfeydd dŵr dwfn bellach yn llawn.

(d) Angorfeydd Ymwelwyr Tymor Byr

4.8 Angorfeydd Hamdden Ymwelwyr Tymor Byr

Bydd angorfeydd ymwelwyr arhosiad byr/dros nos ar gael ym mhob harbwr lle mae capasiti yn caniatáu hynny. Mae ffi benodol fesul dydd ac wythnos ar gyfer yr angorfeydd hyn (gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau'). Yr hwyaf y gallwch aros ar yr angorfeydd hyn yw pythefnos a byddant ar gael ar sail y cyntaf i'r felin yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr. Gellir ymestyn hyd arhosiad yn ystod tymor y gaeaf, yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

4.9 Angorfeydd Masnachol Ymwelwyr Tymor Byr

Bydd angorfeydd ymwelwyr masnachol arhosiad byr/dros nos ar gael ym mhob harbwr lle mae capasiti yn caniatáu hynny. Mae ffi benodol fesul dydd ac wythnos ar gyfer yr angorfeydd hyn (gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau'). Yr hwyaf y gallwch aros ar yr angorfeydd hyn yw pythefnos a byddant ar gael ar sail y cyntaf i'r felin yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr. Gellir ymestyn hyd arhosiad yn ystod tymor y gaeaf yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

(e) Cyfleusterau Eraill

4.10 Bydd angen i unrhyw gychod hamdden, tendars, cychod, ceir ac offer pysgota ac ati ar harbyrau, pierau, dociau a llithrfeydd mewn lleoliadau strategol neu unrhyw leoliad arall yn yr harbwr a effeithir gan ddirgwyddiadau allu symud i ganiatáu ar gyfer adleoli ac anghenion gweithredu o dro i dro yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

4.11 Mae stondin offer gweithgareddau dŵr ar gael at ddefnydd tymor hir yn harbwr Ceinewydd. Gellir defnyddio'r stondin i storio offer gweithgaredd dŵr, ond heb ei gyfyngu i, gaiacau, padlfyrddau, hwylyfyrddau, byrddau syrffio yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr. Nid yw tymor hir yn golygu fod y lleoedd stondin/cyfleuster yn barhaol nac ychwaith yn glwm wrth leoliad penodol.

Defnyddir y cyfleuster gan berchnogion offer gweithgareddau dŵr sy'n dymuno eu storio yn yr harbwr am gyfnodau hir yn amodol ar gytundeb blyneddol. Nid yw'r defnyddwyr yn berchen ar yr hawliau i'r gofod, ac nid oes ganddynt yr hawl i drosglwyddo'r defnydd o'r gofod os ydynt yn gwerthu'r offer a ddyrannwyd ar gyfer y gofod.

(f) Maint a Manylion Cychod, Badau Dŵr ac Offer Arall

4.12 Ni chaniateir gosod unrhyw gwch/bad dŵr/offer ar angorfa ac eithrio'r cwch/bad dŵr/offer y gwneir cais amdano. Dyrennir yr angorfa/cyfleuster yn unol â manylion y cwch ac ni ddylai deiliad yr angorfa/cyfleuster gynyddu maint ei gwch/bad dŵr/offer heb ganfod a oes angorfa/cyfleuster arall addas ar gael ai peidio a heb gytundeb

ymlaen llaw gyda Rheolwr yr Harbyrau. Gall deiliad yr angorfa/cyfleuster golli ei angorfa/cyfleuster heb i un arall gael ei gynnig yn ei le.

Rhestrau Aros Angori Hamdden, Dingis a Stodin Offer Gweithgareddau Dŵr

5.1 Gellir cynnig angorfa neu ofod storio a'i dyrannu i'r person sydd â'i enw nesaf ar y rhestr aros briodol yn unig ar gyfer harbwr/cyfleuster penodol yn amodol ar addasrwydd y cwch/offer y gwneir cais amdano, y diffiniadau blaenoriaeth isod ac yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr. Bydd angen talu blaendal (gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau') cyn y gellir ymuno â'r rhestr aros a bydd y rhestrau'n cau pan fydd tri deg enw ar y rhestr gan yr ystyrir wedyn y bydd wedi ei gordanysgrifio. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer y rhestr aros a'r modd y defnyddir y blaendal i'w gweld yn Atodiad 1 isod.

5.2 Nid yw angorfeydd, ar ôl eu dyrannu, yn drosglwyddadwy.

5.3 Caiff y rhestr aros ei rhannu i'r categorïau /trefn blaenoriaeth ganlynol:

1af: Pobl sy'n talu treth y cyngor y mae eu cartref parhaol yng Ngheredigion ac sy'n talu treth y cyngor yn llawn i Gyngor Sir Ceredigion. Bydd angen anfon prawf o drefniadau treth y cyngor i Awdurdod yr Harbwr ar gais.

2ail: Pobl sy'n talu treth y cyngor y mae eu prif gartref y tu allan i Geredigion ond sy'n berchen ar eiddo o fewn y sir, hynny yw, perchnogion ail gartrefi. Bydd angen anfon prawf o drefniadau treth y cyngor i Awdurdod yr Harbwr ar gais.

3ydd: Pawb arall.

5.4 Oni bai am y rheiny sydd eisoes ar y rhestr aros am angorfa ar 1 Ionawr 2011, caiff angorfeydd eu dyrannu yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd uchod.

Angorfeydd Masnachol – Rhestrau Aros

6.1 Gall angorfa fasnachol gael ei chynnis a'i dyrannu i fusnes masnachol sydd nesaf ar y rhestr aros am angorfa fasnachol briodol yn unig (un ar gyfer cychod plaser sy'n cludo teithwyr ac un ar gyfer cychod pysgota masnachol ym mhob harbwr), ac yn amodol ar addasrwydd y cwch y gwneir cais amdano yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr. Bydd angen talu blaendal, gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau' i ymuno â'r rhestr aros, a bydd y rhestrau'n cau pan fyddant yn cyrraedd pymtheg o enwau am yr ystyrir wedyn iddynt fod wedi eu gordanysgrifio. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer y rhestr aros a'r modd y defnyddir y blaendal i'w gweld yn Atodiad 1 o'r polisi hwn.

6.2 Nid yw'r ddau fath o angorfeydd masnachol, ar ôl eu dyrannu, yn drosglwyddadwy.

6.3 Gan fod cryn alw am y mathau hyn o angorfeydd a'r cyfraniad sylweddol a wneir gan gychod plaser sy'n cludo teithwyr a chychod pysgota masnachol i'r economi a'r portffolio twristiaeth yng Ngheredigion, bydd Awdurdod yr Harbwr yn gweithredu polisi "ei ddefnyddio neu ei golli". Os na fydd perchennog cwch masnachol

yn rhoi cwch ar y cyfleuster angori dynodedig erbyn 31 Mai a/neu nid yw'n gweithredu cwch yn fasnachol, ar 1 Mehefin caiff y cyfleuster angori ei ddyrannu i'r ymgeisydd priodol nesaf ar y rhestr aros yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

6.4 Gellir cynnig lle parcio ceir ar lithrfa harbwr Ceinewydd a'i ddyrannu dim ond i fusnes masnachol sydd nesaf ar restr aros manau parcio masnachol Ceinewydd ac yn amodol ar addasrwydd y cerbyd a'r busnes y gwneir cais amdano yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr. Bydd angen talu blaendal, gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau' i ymuno â'r rhestr aros, a bydd y rhestrau'n cau pan fyddant yn cyrraedd pum enw am yr ystyrir wedyn iddynt fod wedi eu gordanysgrifio. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer y rhestr aros a'r modd y defnyddir y blaendal i'w gweld yn Atodiad 1 o'r polisi hwn.

Nid yw lleoedd parcio ceir yn drosglwyddadwy ac ni all unrhyw gerbydau eraill eu defnyddio ac eithrio'r cerbyd sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer y gofod hwnnw.

Rhestr Aros am Angorfa Dŵr Dwfn

7.1 Oni bai am y cychod hamdden hynny y dyrannwyd iddynt angorfa dŵr dwfn yn flaenorol ac sy'n dewis parhau i'w defnyddio yn dilyn cyflwyno tâl amdani, caiff pob angorfa dŵr dwfn a fydd ar gael yn y dyfodol eu dyrannu i gychod masnachol yn unig.

7.2 Gellir cynnig a dyrannu angorfa dŵr dwfn i fusnes masnachol sydd nesaf ar y rhestr aros am angorfa dŵr dwfn yn unig. Bydd angen talu blaendal, gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau', cyn y gellir ymuno â'r rhestr aros, a chaiff y rhestr ei chau pan fydd 10 busnes ar y rhestr am yr ystyrir iddi wedyn fod wedi ei gordanysgrifio. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer y rhestr aros a'r modd y defnyddir y blaendal i'w gweld yn Atodiad 1 isod.

Hyd Cytundebau Angori, Lansio a Chyfleusterau

Angorfeydd Tymor Hir

8.1 Mae hyd y cytundeb angori yn dibynnu ar y tymor y gwneir cais amdano.

Hyd tymor yr haf yw 1 Ebrill – 31 Hydref bob blwyddyn.

Hyd tymor y gaeaf yw 1 Tachwedd – 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

Codir ffioedd angori'r gaeaf ar unrhyw gwch sy'n eiddo i ddeiliad angori tymor hir sydd ar angorfa neu ar lawr caled ar safle'r harbwr/Cyngor ar ôl 1 Tachwedd.

Angorfeydd Hamdden Ymwelwyr Tymor Byr

8.2 Cyfnod hwyaf cytundeb angori hamdden ymwelwyr tymor byr yw pythefnos yn cychwyn ar y dyddiad arhosiad cyntaf. Gellir ymestyn hyn yn ystod tymor y gaeaf yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

Angorfeydd Masnachol Ymwelwyr Tymor Byr

8.3 Cyfnod hwyaf cytundeb angori masnachol ymwelwyr tymor byr yw pythefnos yn cychwyn ar y dyddiad arhosiad cyntaf. Gellir ymestyn hyn yn ystod tymor y gaeaf yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

Lansio Tymor Hir

8.4 Mae hyd y cytundeb lansio blynyddol yn dechrau gyda phob blwyddyn ariannol ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

Ni chynigir Cytundebau Lansio Blynyddol ar sail pro rata, mae ffioedd llawn yn gymwys waeth beth fo'r dyddiad lansio.

Nid oes unrhyw hawliau parcio ceir yn gysylltiedig â'r Cytundeb Lansio Blynyddol.

Nid yw'r Cytundeb Lansio Blynyddol yn benodol i'r harbwr ac mae'n ddilys ar gyfer lansio yn unrhyw un o harbyrau Ceredigion a gwmpesir gan y polisi hwn.

Lansio Tymor Byr

8.5 Mae hyd y cytundeb lansio tymor byr yn dibynnu ar anghenion y defnyddiwr ac yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

Nid oes unrhyw hawliau parcio ceir yn gysylltiedig â'r Cytundeb Lansio Tymor Byr.

Nid yw'r Cytundeb Lansio Tymor Byr yn benodol i'r harbwr ac mae'n ddilys ar gyfer lansio yn unrhyw un o harbyrau Ceredigion a gwmpesir gan y polisi hwn.

Cytundebau Cyfleuster

8.6 Hyd Cytundeb y Cyfleuster yw 11 mis yn dechrau 1 Mai ac yn dod i ben 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol. Rhaid i bob eitem/offer **gael ei symud** oddi ar y rhesel ar gyfer mis Ebrill er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw waith cynnal a chadw/ail-rifo gofynnol. Gall y Cyngor symud unrhyw offer/eitem sy'n parhau i fod ar y cyfleuster yn ystod mis Ebrill heb rybudd.

Costau a Rheolau Angori, Cyfleusterau a Lansio

9.1 Mae pob mater yn ymwneud â chodi tâl am angorfeydd hamdden, angorfeydd masnachol, ffioedd lansio, ymweld, stondin bwrdd hwylyfyrddio a chaiacio, mannau parcio cychod a chyfleusterau eraill i'w gweld yn llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau'.

9.2 Os na fydd deiliad angorfa/cyfleuster wedi talu'r ffi ofynnol yn llawn erbyn 31 Mai, yna o 1 Mehefin caiff yr angorfa/cyfleuster ei ailddyrranu i'r ymgeisydd priodol nesaf ar y rhestr aros yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

9.3 Os na fydd deiliad angorfa/cyfleuster yn rhoi cwch ar y cyfleuster angori penodol erbyn 31 Mai, yna o 1 Mehefin caiff yr angorfa ei hailddyrranu i'r ymgeisydd priodol nesaf ar y rhestr aros yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

9.4 Ni chynigir angorfeydd ar sail pro rata, mae ffioedd llawn yn gymwys bob tymor ni waeth pryd y dyrannwyd yr angorfa neu bryd y cafodd ei meddiannu.

9.5 Codir tâl ar gwch ar sail hyd cyffredinol wedi'i fesur mewn metrau (wedi'i dalgrynnu i fyny i'r metr agosaf), a fydd yn cynnwys unrhyw bolyn blaen, rheilen ôl, camlath starn a phlatfform ymdrochi.

9.6 Os nad yw deiliad yr angorfa/cyfleuster yn rhoi ei gwch/bad dŵr/offer ei hun ar yr angorfa awdurdodedig am gyfnod o flwyddyn, bydd y cyfleuster yn cael ei fforffedu a'i ailddyrranu o'r rhestr aros briodol.

Adnewyddu Angorfa/Cyfleuster a Ddyrannwyd

10.1 Bydd y Cyngor yn ceisio anfon ffurflen gais at bob deiliad angorfa/cyfleuster presennol yn gofyn am Gytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster i'w chwblhau a'i dychwelyd cyn dechrau pob tymor. Os bydd deiliad yr angorfa/cyfleuster yn dychwelyd y ffurflen yn nodi nad yw am adnewyddu'r Cytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster, caiff yr angorfa/cyfleuster ei dyrannu i'r person nesaf ar y rhestr aros briodol, a bydd y Cyngor yn anfon ffurflen gais ac anfoneb fel uchod. Ar ôl derbyn y Cytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster bydd y Cyngor yn anfon anfoneb at ddeiliad yr angorfa/cyfleuster.

10.2 Os na fydd y Cyngor yn derbyn cais angori wedi'i gwblhau erbyn 30^{ain} Ebrill, ystyrir nad yw deiliad yr angorfa am adnewyddu ei gytundeb angori a bydd yn cael ei ddyrannu i'r person nesaf ar y rhestr aros briodol.

10.3 Ar ôl derbyn y tâl bydd y Cyngor yn dyrannu angorfa/cyfleuster i'r ymgeisydd mewn lleoliad ar gyfer yr harbwr penodol y gwnaed cais amdano. Rheolwr yr Harbwr fydd yn penderfynu ar union leoliad yr angorfa.

Canslo Cytundebau Ffurflen Angori a Gwrthod Ceisiadau Rhestr Aros

11.1 Gall deiliad yr angorfa ganslo'r Cytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster unrhyw bryd trwy roi rhybudd o 14 diwrnod yn ysgrifenedig i'r Cyngor. Fodd bynnag bydd y ffi a/neu'r blaendal a dalwyd eisoes yn cael ei gadw gan y Cyngor.

11.2 Gall y Cyngor ganslo'r Cytundeb Ffurflen Angori/ Cyfleuster ar unrhyw adeg trwy roi 1 mis o rybudd ysgrifenedig i fanylion cyswllt hysbys diwethaf deiliad yr angorfa sydd gan yr Awdurdod. Gellir canslo angorfa/cyfleuster am nifer o resymau, a gall y rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, dyled ddrwg, methu â chydymffurfio â pholisi'r harbwr, rheoliadau, cyfarwyddiadau, ymddygiad di-hid, ymddygiad afreolus a cham-drin staff yr harbwr.

11.3 Ni fydd ad-daliadau llawn neu pro rata yn ddyledus os mai'r rheswm dros ganslo yw ymddygiad deiliad yr angorfa/cyfleuster o ran cydymffurfio â'r polisi hwn a/neu unrhyw gyfarwydddebau neu ofynion cyfreithiol eraill y Cyngor. Bydd y Cyngor yn mynd ar ôl unrhyw ddyled sydd heb ei thalu, ni waeth a yw deiliad yr angorfa/cyfleuster wedi gadael yr angorfa/cyfleuster neu wedi cael ei symud o'r angorfa/cyfleuster.

11.4 Bydd ceisiadau rhestr aros yn cael eu gwrthod o ganlyniad i unrhyw achosion o gam-drin staff yr harbwr.

Risg, Atebolrwydd, Gofynion Yswiriant ac Argymhellion

12.1 Yr ymgeisydd sy'n ysgwyddo'r risg pan gaiff pob cwch/bad dŵr ei angori, ei lansio, ei symud a'i dynnu allan o'r dŵr ac nid yw'n gyfrifoldeb y Cyngor. Felly gofynnir i'r ymgeisydd sicrhau fod ei gwch/bad dŵr a'i eiddo wedi ei yswirio'n ddigonol yn erbyn pob risg. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod i eiddo am ba bynnag reswm yr achoswyd ef.

12.2 Bydd yn rhaid i berchennog y cwch/bad dŵr/offer adfer a symud o'r harbwr unrhyw gychod/badau dŵr/offer a ystyrir yn niweidiol i amwynder yr harbwr fel y'i diffinnir isod. Os methir â symud eiddo o'r fath o'r harbwr o fewn y cyfnod a nodwyd gan Reolwr yr Harbwr yn ôl ei ddisgresiwn llwyr (gan gynnwys hysbysiad symud ar unwaith) bydd y Cyngor yn adfer ac yn symud yr eiddo gan godi tâl priodol am wneud hynny. Nodir ffioedd o'r fath fel dyled sy'n ddyledus i'r Awdurdod gan ddeiliad y Cytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster. Felly argymhellir yn gryf y dylai unrhyw bolisi yswiriant gynnwys symud drylliad.

12.3 Bydd deiliad yr angorfa/cyfleuster yn indemnio'r Cyngor, ei weithwyr a'i asiantau yn erbyn unrhyw achosion, hawliadau, costau a gorchmynion mewn perthynas â niwed neu farwolaeth unrhyw berson yn ogystal ag unrhyw ddifrod i eiddo o ganlyniad i feddiannaeth a defnydd yr ymgeisydd o gyfleusterau'r harbwr, gan gynnwys llithrfeydd, grisiau, glanfeydd a llwyfannau, ac i'r perwyl hwn bydd yn cynnal polisi atebolrwydd cyhoeddus yn erbyn risgiau o'r fath. Os methir â chynnal y polisi yswiriant priodol caiff yr hawl i ddefnyddio'r angorfa, yr hawl i lansio a defnyddio cyfleusterau eraill ei thynnu yn ôl.

12.4 Disgwylir i ddeiliad pob angorfa/cyfleuster sy'n defnyddio unrhyw ran o gyfleusterau'r harbwr gan gynnwys llithrfeydd, grisiau, glanfeydd a llwyfannau am ba bynnag reswm sy'n gysylltiedig â'r cais hwn, ac os yw hynny yn ôl gwahoddiad y Cyngor neu beidio, gwneud hynny gan ystyried ei ddiogelwch ei hun a'r risg i'w hunan hefyd.

12.5 Bydd deiliad yr angorfa/cyfleuster bob amser yn gyfrifol am ddiogelwch ei gwch/bad dŵr/offer a bydd yn atebol am unrhyw ddifrod a wneir i eiddo'r Cyngor, sut bynnag y'i hachosir, wrth i'r ymgeisydd neu ei weithiwr neu asiantau fordwyo unrhyw long/bad dŵr, neu dra bod cwch/bad dŵr yr ymgeisydd wedi'i angori, neu ei lansio, neu wrth i'r cwch/bad dŵr adael ei angorfa, ei angori neu ei ollwng yn rhydd, a bydd yn talu i'r Cyngor ar gais unrhyw hawliad am iawndal o ran difrod o'r fath.

12.6 Ni fydd Rheolwr yr Harbwr y Cyngor a swyddogion a gweithwyr eraill ag awdurdod, wrth ymgymryd â'u gwaith, yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod a all godi o ganlyniad i gydymffurfio neu geisio cydymffurfio ag unrhyw orchymyn neu gyfarwyddeb gyfreithiol gan Reolwr yr Harbwr, neu swyddogion neu weithwyr eraill, ac ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod sy'n codi yn sgil cydymffurfio neu geisio cydymffurfio â gorchmynion cyfreithiol y swyddogion. Ni fydd

y Cyngor, ei weithwyr, ei asiantau neu ei swyddogion yn atebol am niwed i unrhyw berson oni bai y digwydd niwed o ganlyniad i esgeulustod y Cyngor.

12.7 Rhaid i unrhyw ddeiliad angorfa sydd am gadw cwch yn yr harbwr dros y gaeaf neu ymweld â harbwr Ceredigion arall heblaw'r un y gwnaed cais amdano/a ddyrannwyd iddo, wneud cais am yr harbwr hwnnw. Rhaid i ddeiliad yr angorfa sicrhau bod ei gwch wedi'i yswirio'n ddigonol ar gyfer yr harbwr hwnnw.

12.8 Mae deiliad yr angorfa/cyfleuster yn gyfrifol ac yn atebol am unrhyw gadwyni, rhaffau, dolenni, taclau neu unrhyw ddyfeisiadau angori eraill a ddefnyddir i angori ei gwch/bad dŵr/offer i unrhyw bwynt ar stad yr harbwr neu eiddo'r Cyngor.

Cychod a Badau Dŵr Eraill neu Offer sy'n Niweidiol i Amwynder yr Harbwr

13.1 Os na fydd Awdurdod yr Harbwr yn fodlon am unrhyw reswm fod cwch drylliedig neu strwythur neu offer sydd wedi ei angori neu'n gorwedd yn y dŵr neu ar flaendraeth yr harbwr neu eiddo arall y Cyngor mewn cyflwr fel y byddai'n debygol o achosi niwed difrifol i amwynder y rhan honno o'r harbwr neu eiddo'r Cyngor lle y mae wedi ei angori, yn gorwedd neu'n sefyll, gall Awdurdod yr Harbwr roi hysbysiad i'r perchennog o fewn cyfnod o amser penodol a nodwyd yn yr hysbysiad i gymryd camau fel y bo'n angenrheidiol i leihau unrhyw niwed i'r amwynder. Gall yr Awdurdod ystyried cwch neu unrhyw fath arall o fad dŵr neu offer yn niweidiol i amwynder yr harbwr neu eiddo arall y Cyngor am resymau sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fod yn ddadfeiliedig, yn hyll oherwydd esgeulustod, yn ddifrifol flêr, yn anaddas i'r môr a/neu mewn perygl o suddo, ac ati.

13.2 Bydd methu â chydymffurfio â hysbysiad o'r fath a gyflwynir gan Awdurdod yr Harbwr yn golygu y bydd yn rhaid i gamau gael eu cymryd yn uniongyrchol gan Awdurdod yr Harbwr a'r costau priodol yn cael eu codi. Bydd costau o'r fath yn ddyled sy'n ddyledus o ddeiliad Cytundeb Ffurflen Angorfa/cyfleuster i'r Awdurdod.

13.3 Caiff unrhyw dendars a threilars nad oes arnynt enw'r fam gwch eu symud heb unrhyw rybudd.

13.4 Bydd badau dŵr eraill yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gaiacau, canwod, hwylyrddau, padlfyrddau, dingis neu unrhyw ddisgrifiad arall o fadau dŵr. Bydd offer yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i dreilars, cerbydau, offer pysgota neu unrhyw eiddo neu eitemau eraill y mae'r defnyddiwr yn berchen arnynt neu'n eu defnyddio.

Gwahardd Aseinio/Is-osod Angorfeydd/Cyfleusterau

14.1 Mae'r angorfa/cyfleuster wedi'i ddyrannu i ddeiliad yr angorfa/cyfleuster ac ni ellir ei rannu, ei aseinio, ei drosglwyddo, ei is-osod neu ei ddefnyddio mewn modd arall neu ei roi i unrhyw un heblaw deiliad yr angorfa. Os darganfyddir bod deiliad angorfa/cyfleuster yn is-osod yr angorfa neu'n caniatáu iddi gael ei defnyddio gan rywun arall, caiff yr angorfa/cyfleuster ei dynnu nôl ar unwaith.

Etifeddiaeth

15.1 Nid oes dim hawliau etifeddiaeth mewn perthynas ag angorfeydd neu gyfleusterau o fewn Harbyrau a reolir gan Geredigion.

Dull Adnabod

16.1 Rhaid i bob cwch/bad dŵr ac offer gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i dreilars a thendars a ddefnyddir o fewn yr harbyrau ac eiddo'r Cyngor gael eu henwau wedi'u harddangos yn amlwg i foddhad Rheolwr yr Harbwr. Dylai deiliad yr angorfa hefyd sicrhau bod enw'r cwch a rhif yr angorfa i'w gweld yn glir ar unrhyw fwi angori. Rhaid i dendars gael eu marcio gydag enw'r fam gwch. Rhaid rhifo/enwi caiacau/hwylfyrddau ac offer arall fel y'u diffinnir uchod i foddhad Rheolwr yr Harbwr.

Newid Cwch, Bad Dŵr neu Offer Arall

17.1 Os bydd deiliad yr angorfa/cyfleuster yn gwerthu neu'n gwaredu fel arall ar y cwch/bad dŵr a awdurdodwyd i ddefnyddio'r angorfa/cyfleuster, bydd y partion i'r newid yn sicrhau bod hysbysiad ysgrifenedig ymlaen llawn yn cael ei roi ar unwaith cyn gwerthu neu waredu i Reolwr yr Harbwr.

17.2 Pan fydd perchennog presennol am newid ei gwch/bad dŵr/offer bydd rhaid cyflwyno cais newydd ar gyfer y cwch/bad dŵr/offer newydd. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i benderfynu lle mae deiliad angorfa/cyfleuster yn rhoi ar angorfa/cyfleuster gwch/bad dŵr/offer arall nad yw'n addas ar gyfer yr angorfa/cyfleuster a ddyrannwyd, gan ystyried maint a natur y cwch/bad dŵr/offer, a gall wrthod y cais. Lle na chymeradwyir ceisiadau, bydd ymgeiswyr yn gallu ail-ymuno â'r rhestr aros berthnasol ar y cyfle nesaf sydd ar gael (yn amodol ar adrannau 5 a 6 ac Atodiad 1) neu gadw'r cwch/bad dŵr/offer presennol ar yr angorfa/cyfleuster hwnnw.

Trosglwyddiadau Angori a Chyfleusterau

18.1 Nid oes dim hawliau trosglwyddo mewn perthynas ag angorfeydd neu gyfleusterau o fewn Harbyrau a reolir gan Geredigion.

Partneriaethau

19.1 Bydd yn rhaid cofnodi partneriaethau gydag Awdurdod yr Harbwr pan gafodd/gaiff yr angorfa ei dyrannu am y tro cyntaf. Ni chydabyddir unrhyw newid perchnogaeth neu bartneriaeth yn dilyn hyn ac ni fydd ychwaith yn cyfrif tuag at ddyrannu'r angorfa.

Defnyddio Angorfeydd

20.1 Gellir defnyddio angorfeydd at y pwrpas a nodwyd yn y cais gwreiddiol yn unig (hynny yw, hamdden, masnachol neu ddŵr dwfn).

20.2 Ni ellir defnyddio angorfeydd at bwrpas preswyl, hynny yw, ni ellir byw ar y cwch ac ni ellir ychwaith ei ddefnyddio fel unig neu brif fan preswyl ar gyfer unrhyw unigolyn neu grŵp. Ni ddisgwylir i gwsmeriaid gysgu yn eu cychod oni bai fod gan y cwch danc priodol gan wneuthurwyr penodol ar gyfer dal dŵr llwyd a charthffosiaeth. Caiff yr angorfa ei thynnu'n ôl oddi wrth unrhyw ddefnyddwyr yr harbwr sy'n torri'r amod hwn.

Llenwi ac ail-lenwi â thanwydd

21.1 Ni chaniateir cadw unrhyw danwydd na deunyddiau fflamadwy ar yr angorfa ddynodedig neu oddi fewn iddi oni bai am danciau a chynwysyddion storio awdurdodedig. Ni chaniateir ail-lenwi â phetrol o ganiau na chynwysyddion wrth ochr yr harbwr, pontynau, grisiau, ar lithrfeydd nac angorfeydd. Yr unig eithriad i hyn yw offer pwmpio/seiffon cymeradwy y cytunwyd gan Reolwr yr Harbwr i'w ddefnyddio. Rhaid adrodd am unrhyw ollyngiad tanwydd i Reolwr yr Harbwr, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, a Chyfoeth Naturiol Cymru ar unwaith.

Llygredd a Gwastraff

22.1 Ni ddylai deiliaid angorfeydd/cyfleuster lygru'r harbwr trwy ollyngiadau, gwaredu gwastraff, elifiant, gwastraff dynol, glanedydd a/neu danwydd nac ychwaith gadael sbwriel neu sgrap ar stad yr harbwr, yn nŵr yr harbwr neu ar waelod yr harbwr. Rhaid i holl ddefnyddwyr yr harbwr gadw at y Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd diweddaraf.

Ymddygiad Di-hid ac Ymddygiad Afreolus

23.1 Ni fydd deiliad yr angorfa/cyfleuster yn defnyddio'r angorfa/cyfleuster mewn modd di-hid fel yr achosir perygl i ddefnyddwyr eraill yr harbwr neu ddifrod i'w heiddo. Ni fydd deiliad yr angorfa/cyfleuster (gan gynnwys unrhyw berson ar y cwch/bad dwr ar yr harbwr o fewn terfynau'r harbwr) yn achosi sŵn afresymol, niwsans na phoendod i ddefnyddwyr eraill yr harbwr. Mae'n rhaid i ddefnyddwyr yr harbwr ddilyn Cod Ymddygiad neu Gyfarwyddeb y Cyngor bob amser. Gall unrhyw ymddygiad o'r fath olygu bod y Cyngor yn terfynu'r Cytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster.

Cydymffurfio â Deddfau, Is-ddeddfau a Chyfarwyddiadau Rheolwr yr Harbwr

24.1 Rhaid i ddefnyddiwr yr harbwr a phawb sydd â rheolaeth neu sydd â gofal neu sydd ar fwrdd ei gwch/bad dŵr/offer gydymffurfio a chyflawni'r holl rwymedigaethau

statudol ac eraill sy'n ymwneud â'r harbwr, gan gynnwys yr holl is-ddeddfau a rheoliadau a wneir gan y Cyngor, a'r cyfarwyddiadau a roddir gan Swyddogion yr Harbwr.

24.2 Os bydd deiliad y Cytundeb Ffurflen Angori/ Cyfleuster yn methu â chydymffurfio ag amodau'r Cytundeb Angori/Ffurflen Cyfleuster, polisi neu unrhyw gyfarwydddeb arall gan y Cyngor, gall y Cyngor roi hysbysiad i symud y cwch/bad dŵr/offer. Os na chydymffurfir â'r hysbysiad hwn neu os na chaiff yr amodau eu bodloni o fewn 14 diwrnod (neu o fewn y cyfnod o amser a nodir yn yr hysbysiad) o ddyddiad yr hysbysiad a anfonwyd i gyfeiriad hysbys diwethaf defnyddiwr yr harbwr, gall yr Awdurdod symud y cwch i unrhyw fan arall ac ar ôl cyfnod o 14 diwrnod caiff ei waredu os na chaiff ei adfer gan ddefnyddiwr yr harbwr. Bydd defnyddiwr yr harbwr yn atebol i dalu costau symud, storio, angori neu waredu o'r fath lle bo'n berthnasol. Bydd ffioedd o'r fath yn ddyled sy'n ddyledus i'r Awdurdod gan ddefnyddiwr yr harbwr.

24.3 Ni chaiff unrhyw un o fewn unrhyw harbwr caeedig ddefnyddio rhaffau codi nofiadwy ar angorfeydd.

24.4 Ni fydd meistr y cwch yn achosi nac yn caniatáu i'r cwch symud, dod i angori neu gael ei angori neu ei osod mewn modd a fyddai'n rhwystro'n fwriadol mewn unrhyw fodd symud cychod i mewn ac allan o'r harbwr.

24.5 Ni chaiff unrhyw un ganiatáu i unrhyw gwch rwystro unrhyw bontynau, grisiau na llithrfeydd heb ganiatâd Rheolwr yr Harbwr.

Contractwyr

25.1 Rhaid i unrhyw fusnes sydd wedi'i gontractio gan ddefnyddiwr yr harbwr i wneud unrhyw waith ar stad yr harbwr wneud cais am drwydded ystadau ddilys a chael caniatâd ar gyfer unrhyw waith a allai effeithio ar yr harbwr megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, waith codi, atgyweirio/cynnal a chadw cychod, gwaith eiddo neu unrhyw ddirwyddiadau eraill a allai effeithio ar briffyrdd cyhoeddus a/neu eiddo cyhoeddus neu breifat.

Bydd unrhyw fusnes a gontractir gan ddefnyddiwr yr harbwr ar gyfer unrhyw fân atgyweiriadau ar gychod, badau dŵr, angorfeydd neu offer arall nad ydynt yn effeithio ar drefniadau sy'n ymwneud â'r uchod yn sicrhau'r canlynol:

- Mae yswiriant atebolrwydd trydydd parti ac yswiriant indemniad cyhoeddus digonol yn ei le.
- Mae datganiad dull priodol ac asesiad risg yn eu lle.
- Nid yw'r gwaith yn gweithredu'n groes i'r polisi, unrhyw gyfarwydddeb y Cyngor neu ddeddfwriaeth arall.
- Mae'r contractwr yn indemnio'r Cyngor, ei weithwyr a'i asiantau yn erbyn pob gweithred, hawliad, cost a gorchymyn mewn perthynas ag unrhyw anaf neu farwolaeth unrhyw berson ac unrhyw ddifrod i unrhyw eiddo sut bynnag y'i hachoswyd yn ystod unrhyw waith ar stad yr Harbwr.

Glanio Teithwyr

26.1 Yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr, gall cychod sy'n ymweld sy'n dod o'r tu allan i Sir Ceredigion adael i deithwyr fynd ar ac oddi ar gwch o unrhyw un o'r tri harbwr yng Ngheredigion, yn amodol ar gais, talu'r tâl perthnasol (gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau') a phrawf o yswiriant. Mae'n ofynnol i gychod o'r fath roi hysbysiad i'r Awdurdod, mwy na phythefnos os oes modd.

Glanio Nwyddau

27.1 Yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbyrau, gall Cychod Masnachol sy'n ymweld laniu teithwyr neu nwyddau o unrhyw un o dri harbwr Ceredigion yn amodol ar gais, talu'r tâl perthnasol (gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau') a phrawf o yswiriant ac ardystiad perthnasol. Nodir y tâl hwn yn llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau'. Mae'n ofynnol i gychod o'r fath roi digon o rybudd i'r Awdurdod, mwy na phythefnos os oes modd.

Dogfennau

27.1 Gellir dod o hyd i'r dogfennau cysylltiedig canlynol ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â'r Awdurdod yn clic@ceredigion.gov.uk neu ar 01545 570881.

- Ffioedd a Thaliadau.
- Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd.
- Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.
- Cynlluniau Angori Harbyrau.
- Is-ddeddfau a Deddfau Harbyrau.
- Cyfansoddiad yr Harbyrau.
- Cofnodion Cyfarfodydd Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbwr.
- Ymgynghoriad Cyhoeddus Byw.
- Unrhyw ddogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r harbwr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Manylion Cysylltu

28.1 Os dymunwch gysylltu â'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw faterion yn ymwneud â'r harbwr gallwch wneud hynny trwy'r dulliau canlynol:

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Ffôn: 01545 570881

Neuadd Cyngor Ceredigion

Penmorfa

Aberaeron

Ceredigion

SA46 0PA

Atodiad 1

Gweithdrefn Rhestrau Aros Hamdden, Masnachol, Dŵr Dwf a Chyfleusterau.

- 1) Rhoddir manylion am y ffioedd rhestr aros yn llyfryn 'Ffioedd a Thaliadau' y flwyddyn ariannol gyfredol. Ar ôl derbyn y ffi briodol a'r ffurflen gais, bydd manylion yr ymgeisydd yn cael eu rhoi ar y rhestr aros berthnasol. Mae'r taliad yn unol â'r cyfarwyddyd wrth ymgeisio.
- 2) Bydd y dyddiad ar y rhestr aros yr un dyddiad â'r amser y derbynnir y blaendal.
- 3) NI ELLIR AD-DALU NA THROSGLWYDDO'R blaendal ond bydd yn cael ei gredydu i'r tâl angori/cyfleuster os, a phryd, y dyrennir angorfa/cyfleuster addas.
- 4) O dan amgylchiadau arferol dim ond un cynnig i gael angorfa/cyfleuster gaiff ei roi i ymgeisydd.
- 5) Pan fydd angorfa/cyfleuster yn cael ei gynnig a'i dderbyn, gellir ei ddyrannu i'r person/busnes sydd â'i enw ar y rhestr aros briodol yn unig, ac yn amodol ar addasrwydd y cwch/offer y gwneir cais amdano yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.
- 6) Pan fydd angorfa/cyfleuster yn cael ei gynnig a'i dderbyn, ac nid yw cwch/offer ar gael ar unwaith, rhaid i'r ymgeisydd dalu'r ffi lawn am faint y cwch/offer y gwneir cais amdano, ac yna mae ganddo dri mis i roi ei gwch/offer ar yr angorfa/cyfleuster. Os yw'r angorfa/cyfleuster yn cael ei gynnig yn ystod tymor y gaeaf, gellir rhoi'r cwch/offer erbyn dechrau tymor yr haf canlynol os yw'r cyfnod hwn yn hwy.
- 7) Yn aml iawn caiff rhestr aros ei bandio yn unol â maint yr angorfa/cyfleuster. Felly mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn hollol sicr beth yw maint y cwch/offer. Mae'n bosibl y bydd yr hyd a nodir ar y ffurflen rhestr aros yn cael ei newid cyn i'r cynnig o angorfa gael ei wneud, fodd bynnag, gallai hyn arwain at drosglwyddo i fand newydd gyda dyddiad newydd.
Y Gronfa Rhwydweithiau Natur - Dalgylch Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Cyfalaf

Prosiectau Ffyniant Bro

Trawsnewid Trefi - Prosiect MASH Aberteifi

Datblygiad Tai Hafan y Waun

656	-	-	CSC
100	100	100	CSC
175	175	175	CSC
750	250	-	CSC
180	-	-	Grant
397	-	-	CSC
50	50	50	Grant
103	103	-	Grant
32	-	-	Grant
445	-	-	Grant
11	-	-	Grant
5,008	4,557	-	Grant
540	-	-	Grant
500	500	-	CSC

Cyfanswm - Economi ac Adfywio

8,947	5,735	325
-------	-------	-----

Tudalen 375

Cyllideb arfaethedig 2023/24	Cyllideb ddangosol 2024/25	Cyllideb ddangosol 2025/26	
CYFANSWM	CYFANSWM	CYFANSWM	FFYNHONNELL
£'000	£'000	£'000	ARIANNU

Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Adnewyddu / Gwella Seilwaith y Prifffyrdd
 Gwasanaethau Amgylcheddol
 Y Gronfa Drafnidiaeth Leol – Gwelliannau i Seilwaith Coridorau Bysiau TrawsCymru
 Y Gronfa Drafnidiaeth Leol – Cyllid Craidd Coridorau Bysiau
 Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn
 Grant Seilwaith Gwefru ar gyfer Cerbydau Trydan (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
 Teithio Llesol - Cyswllt Waunfawr i IBERS
 Y Gronfa Teithio Llesol – Cyllid Craidd
 Dyraniad Craidd - 20 mya
 Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau - Llanrhystud
 Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre / Y Borth
 Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Capel Bangor a Thal-y-bont
 Manylion Dylunio Gwaith Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron
 Diogelu'r Arfordir yn Aberystwyth
 Diogelu'r Arfordir yn Llangrannog
 Diogelu'r Arfordir yn y Borth ac Ynyslas
 Cynlluniau Diogelu'r Arfordir - Aberaeron
 Cerbydau newydd i'r fflyd
 Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff

2,200	2,200	2,200	CSC
66	60	60	CSC
950	950	-	Grant
250	-	-	Grant
298	370	-	Grant
16	-	-	CSC/Grant
1,490	-	-	Grant
500	-	-	Grant
739	-	-	Grant
50	-	-	Grant
61	-	-	Grant
121	-	-	Grant
31	-	-	Grant
232	-	-	Grant
24	-	-	Grant
40	-	-	Grant
10,000	20,000	-	CSC/Grant
848	238	350	CSC
350	675	-	CSC

Cyfanswm - Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

18,266	24,493	2,610
--------	--------	-------

Porth Gofal

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
 Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi
 Cylch Caron
 Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol
 Gwaith brys - Cartrefi Preswyl
 Y Gronfa Gofal Integredig - Llety Diogel i Blant
 Uwchraddio Cartrefi Preswyl
 Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau
 Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol
 Buddsoddiad Cyfalaf Hafan y Waun
 Y Gronfa Gofal Integredig - Prynu ac Adnewyddu Eiddo

1,400	1,400	1,400	CSC
61	-	-	Grant/Benthyciad
252	-	-	CSC/Grant
146	-	-	Grant
100	100	100	CSC
200	-	-	CSC
500	636	-	CSC
1,688	-	-	Grant
82	82	-	CSC
200	-	-	CSC
171	-	-	Grant

Cyfanswm - Porth Gofal

4,800	2,218	1,500
-------	-------	-------

Tudalen 376

Cyllideb arfaethedig 2023/24	Cyllideb ddangosol 2024/25	Cyllideb ddangosol 2025/26	
CYFANSWM £'000	CYFANSWM £'000	CYFANSWM £'000	FFYNHONNELL ARIANNU

Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (Powys a Cheredigion)

1,773	4,910	-	Grant
-------	-------	---	-------

Cyfanswm - Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

1,773	4,910	-	
-------	-------	---	--

Cyswllt Cwsmeriaid

Buddsoddi mewn offer a seilwaith TGCh

390	240	240	CSC
-----	-----	-----	-----

Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid

390	240	240	
-----	-----	-----	--

Cyllid a Chaffael

Cynllun Grantiau Cymunedol

200	200	200	CSC
-----	-----	-----	-----

Cyfanswm - Cyllid a Chaffael

200	200	200	
-----	-----	-----	--

Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Contract Inphase

30	-	-	CSC
----	---	---	-----

Cyfanswm - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

30	-	-	
----	---	---	--

Cyllid i'w ddyrannu

589	193	925	CSC
-----	-----	-----	-----

CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH

52,540	48,759	6,149	
--------	--------	-------	--

Arian wrth gefn

Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau grant

350	250	350	CSC
4,200	4,200	4,200	CSC/Grant

Cyfanswm - Arian wrth gefn

4,550	4,450	4,550	
-------	-------	-------	--

CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL

57,090	53,209	10,699	
--------	--------	--------	--

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	04/07/23
Teitl:	Alldro Refeniw Rheoladwy 2022/23
Pwrpas yr Adroddiad:	Adrodd ar sefyllfa Alldro Refeniw 2022/23
Er:	Gwybodaeth
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael

1. CRYNODEB

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am berfformiad y Gyllideb Refeniw Rheoladwy derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Roedd adroddiad monitro Chwarter 3 ar gyfer y cyfnod hyd at 31/12/23 yn rhagweld y byddai'r gyllideb yn cael ei mantoli ar ddiwedd y flwyddyn, gyda thanwariant bychan o £9k.

Y sefyllfa refeniw derfynol yw bod y gyllideb yn dal i fod wedi ei mantoli ar y cyfan, gyda gorwariant bychan o £6k ar sail Cyllideb o £165.8m ar gyfer 2022/23. O ganlyniad bydd y Balansau Cyffredinol yn parhau ar £6.7m, sy'n cyfateb i 3.7% o Gyllideb 23/24 (dal o fewn yr ystod targed o rhwng 3% a 5%).

Mae'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu gosod yn ôl y blaenoriaethau, yr ymrwymadau a'r anghenion posib sy'n codi. Edrychwyd ar hyn ymhellach fel rhan o'r broses Alldro ac mae dadansoddiad llawn o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd i'w weld yn Atodiad 1. At ei gilydd, ar ddiwedd y flwyddyn mae'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd (heb gynnwys y Balansau Cyffredinol) wedi lleihau o £53.9m i £48.8m (sef 27% o Gyllideb 2023/24). Roedd wastad disgwyl y byddai'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn mynd i fod ar eu hanterth ar 31/03/22 ac y byddent yn dechrau lleihau wedi hynny, ac y byddai hyn yn digwydd mewn ffordd ofalus ac o dan reolaeth.

Dyma'r materion allweddol sydd wedi cael sylw drwy'r sefyllfa Alldro:

- Neilltuo swm o £1.0m yn y gronfa Creu Cymunedau Iach a Gofalgar ar gyfer cyfnod pontio mewn perthynas â Chartref Gofal Hafan y Waun yn Aberystwyth (gweler adroddiad ar wahân yn yr agenda yma i'r Cabinet).
- Mae dyfarniad cyflog cyffredinol y staff ar gyfer 23/24 yn parhau heb ei gwblhau ac mae'r cynnig a gyflwynwyd (sydd wedi'i wrthod gan yr Undebau), yn fwy na'r ddarpariaeth a wnaed yng Nghyllideb 23/24. Felly mae swm wrth gefn pellach wedi'i neilltuo ar gyfer yr elfen hon.
- Mae'r arian sydd ar gael – gan ddefnyddio derbynebau premiwm Treth y Cyngor – ar gyfer y cynllun Tai Cymunedol sydd newydd ei gymeradwyo bellach yn £1.8m ar 31/03/23.

- Mae'r Gronfa Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth wedi cynyddu ac yn £8.0m ar 31/03/23.

2. **PERFFORMIAD Y GYLLIDEB**

Bu llawer o bwysau cyllidebol i ymrafael ag ef yn ystod y flwyddyn gyda'r mwyaf yn cael sylw helaeth yn y broses o osod Cyllideb 23/24. Yn ystod y flwyddyn mae pwysau'r gyllideb wedi cynnwys:

- Dyfarniadau cyflog uwch i'r staff yn sgil chwyddiant yn yr economi. Nid yw'r Cyngor yn pennu, yn penderfynu nac yn negodi unrhyw ddyfarniadau cyflog staff ei hun – fe'i hysbysir o benderfyniadau a wneir gan gyrff eraill (Llywodraeth Cymru yn achos cyflogau Athrawon, a chorff Cyflogwyr Llywodraeth Leol y DU ar gyfer staff cyffredinol y Cyngor) ac yna mae ganddo ddyletswydd i'w gweithredu.
- Ym mis Tachwedd 2022 penderfynwyd ar ddyfarniad cyflog cyffredinol y staff, a osodwyd ar lefel y DU, ac roedd yn 7.5% ar gyfartaledd ar ôl darparu ar gyfer 2.5% yn y gyllideb wreiddiol.
- Roedd dyfarniad cyflog yr Athrawon, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ym Medi 2022, wedi dechrau ar 3.5% cyn iteru/cynyddu i 6.5% (ni fydd 1.5% yn ailadrodd ar ôl hyn). Er inni gael ein sicrhau droeon gan Lywodraeth Cymru y byddai'r cynnydd iteru yn cael ei ariannu'n llawn, nid felly y bu yng Ngheredigion gydag ond tua 92% ohono'n cael ei ariannu yn 22/23. Cysylltwyd yn ffurfiol â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r diffyg, ond heb lwyddiant.
- Ynni – Mae'r cynnydd mewn prisiau contract a ddaeth i rym ar 01/10/22 wedi cael effaith ar gostau nwy a thrydan mewn rhan o flwyddyn 22/23 – mae hyn wedi arwain at orwariant o £956k (gyda £551k ohono yn effeithio ar ysgolion) ar sail cyllideb Ynni gyfan o £2.3m. Hefyd, bu toriadau gyda'r canolfannau Biomass yn Aberaeron ac Aberystwyth yn ystod y flwyddyn, gan arwain at gynnydd dros dro o tua £90k mewn costau ynni ar gyfer y cyfleusterau hyn.
- Nid yw'r galwadau cynyddol ar Ofal Cymdeithasol yn gostegu dim. Bu pwysau cost sylweddol mewn meysydd megis Plant sy'n Derbyn Gofal (yn y sir), Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir i Blant (y mae cyfrif amdanynt o dan y Grŵp Arweiniol), Lleoliadau Pobl Hŷn a Lleoliadau Anabledd Dysgu. Ar draws model Gydol Oed y Pyrrth, gorwariant o £1.577m oedd y sefyllfa alldro derfynol, sy'n agos iawn i'r hyn a ragwelwyd yn ystod Chwarter 3, sef £1.526m.
- Roedd y cyllid untro hwyr gwerth £1.0m oddi wrth Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2022, a effeithiodd ar y broses o bennu Cyllideb 22/23 (gan arwain at lefel is Treth y Cyngor o 2.5%), wedi golygu bod angen dod o hyd i £1.0m yn rheolaidd.
- Gwelodd nifer o wasanaethau bwysau chwyddiant ar dendrau newydd, contractau a gwariant yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys tanwydd y fflyd, rhannau ar gyfer cerbydau'r fflyd a chludiant o'r cartref i'r ysgol. Defnyddiwyd swm o £545k o'r gronfa Pwysau ar Gostau a Chwyddiant i liniaru'r rhain dros dro.
- Yn 22/23 parhaodd yr adferiad ar ôl COVID felly defnyddiwyd cyllideb COVID gorfforaethol y Cyngor, ac roedd angen ariannu £1.084m (gan gynnwys £334k o gronfeydd wrth gefn). Y prif feysydd a gefnogwyd yn gorfforaethol oedd athrawon Cyflenwi Ysgolion (£199k), llefydd gwag a chostau ychwanegol ar gyfer deunyddiau glanhau yng Nghartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol (£243k), costau Ailagor yr economi ymwelwyr (£217k) a diffygion o ran incwm Gwastraff Masnach (£162k).

Tudalen 379

Serch hynny, gwrthbwyswyd yr uchod gan sawl elfen gadarnhaol:

- Gyda chyfraddau llog yn cynyddu ym mhob cyfarfod olynol o Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr, gan sefyll ar 4.5% erbyn hyn, mae'r cyllidebau Rheoli Trysorlys wedi bod ar eu hennill o ran y balansau arian parod. Yn ogystal, ni fu'n rhaid benthg arian allanol newydd yn ystod y flwyddyn. Felly cyflawnwyd cynnydd sylweddol o £1.3m ar draws y cyllidebau Rheoli Trysorlys.
- Mae swyddogion mewn amryw o wasanaethau wedi gweithio'n galed i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu gan grantiau allanol. Er enghraifft, mae ceisiadau am gyllid refeniw wedi bod yn llwyddiannus o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a hefyd Cronfa Integreiddio Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Hefyd tynnwyd arian sylweddol i lawr mewn perthynas â chefnogi ffoaduriaid o Wcráin.
- Cyfrifwyd enillion untro yn 22/23 mewn perthynas â newid statws TAW incwm Canolfannau Hamdden a hawliadau cysylltiedig - wedi eu hôl-ddyddio - a gyflwynwyd i Gyllid a Thollau EF. Mae hyn yn gyfanswm net o ychydig dros £700k.
- Mae arian yn weddill yn dilyn casglu Treth y Cyngor, er bod rhan fawr o hyn eisoes yn hysbys ac wedi'i chyllidebu, ac wedi cael ei hadlewyrchu yn sefyllfa Chwarter 3.

Mae Ysgolion wedi dibynnu, i raddau, ar y Cyllidebau a Ddirprwywyd i Ysgolion yn ystod 22/23. Roedd balansau yn uchel wrth ddod allan o gyfnod COVID, a oedd wedi cynnwys y budd o gael enillion cyllid untro dros y ddwy flynedd flaenorol. Ar y cyfan, mae Balansau Ysgolion wedi gostwng o £8.3m i £5.1m, sy'n golygu bod £3.2m wedi'i ddefnyddio y tu hwnt i ddyraniadau'r fformiwla cyllido. Fodd bynnag, roedd hyn yn ddefnydd is na'r disgwyl oherwydd y rhagolygon oedd y byddai Balansau Ysgolion yn haneru'n fras i ychydig dros £4m. Ar 31/03/23 nid oedd gan yr un o ysgolion Ceredigion ddiffyg yn y fantolen. Mae'r Cyngor yn parhau i fynd ati i gefnogi pob Ysgol ar ôl pennu Cyllideb 23/24.

Gellir crynhoi'r sefyllfa ar gyfer 22/23 fel a ganlyn, gydag amrywiad o £6k ar y llinell waelod:

	Cyllideb ddiweddaraf 2022/23 £'000	Union Wariant 2022/23 £'000	Tan/ (Gor) wariant £'000
<u>Cyllid</u>			
Treth y Cyngor	(46,424)	(47,468)	1,044
Amrywiad o £700k ar gyfer gwarged Treth y Cyngor a gyllidebwyd yng Nghyllideb 22/23 NNDR + RSG	-	700	(700)
	(119,419)	(119,421)	2
Cyfanswm Cyllid	(165,843)	(166,189)	346
<u>Cyllideb Reoladwy</u>			
Cyllideb Reoladwy Graidd	165,843	166,895	(1,052)
Amrywiad o £700k ar gyfer gwarged Treth y Cyngor a gyllidebwyd yng Nghyllideb 22/23	-	(700)	700
Cyfanswm Perfformiad y Gyllideb Reoladwy	165,843	166,195	(352)
Sefyllfa Alldro Cyffredinol	-	6	(6)

Mae dadansoddiad pellach o Berfformiad y Gyllideb Reoladwy i'w weld ar y ddalen nesaf:

Swyddog Arweiniol Corfforaethol /Gwasanaeth	Cyllideb ddiweddaraf 2022/23 £'000	Union Wariant 2022/23 £'000	Tan/ (Gor) wariant £'000	Sylw
Cyswllt Cwsmeriaid a TG	6,144	6,144	-	Dim mater o bwys i'w adrodd.
Gwasanaethau Democraataidd	4,628	4,609	19	Dim mater o bwys i'w adrodd. Defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn Etholiadau a'r Eisteddfod yn ôl y disgwyl.
Economi ac Adfywio	3,637	3,752	(115)	Gorwariant yn bennaf oherwydd problemau yn y ddwy ganolfan Biomas yn ystod y flwyddyn (mae'r ddwy bellach yn gweithio yn ôl yr arfer).
Cyllid a Chaffael	18,800	17,608	1,192	Tanwariant yn erbyn cyllidebau corfforaethol Diswyddiadau, gwaith y gwasanaethau craidd a hefyd arbedion/incwm ychwanegol Rheoli Trysorlys, sydd wedi galluogi trosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn i helpu gyda dyfarniadau cyflog 23/24.
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	18,078	18,288	(210)	Roedd costau cynnal a chadw dros y gaeaf wedi mynd dros y gyllideb gan £122k, felly roedd gofyn trosglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn. Cafodd costau casglu gwastraff uwch eu gwrthbwysu gan arbedion gwaredu gwastraff. Costau uwch ym maes Ymatebol y Priffyrdd.
Cyfreithiol a Llywodraethu	1,566	1,599	(33)	Gwelir cynnydd parhaus yng nghostau cyfreithiol Gofal Cymdeithasol.
Pobl a Threfniadaeth	2,161	2,161	-	Dim mater o bwys i'w adrodd.
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	2,346	2,167	179	Mae achos adfer tir halogedig yn dal ar waith, ond cafwyd tanwariant yn sgil swyddi gwag a gwneud y mwyaf o gyllid allanol.
<u>Model Gydol Oes y Pyrth</u>				At ei gilydd, mae sefyllfa'r model yn adlewyrchu'r sefyllfa a ragwelwyd yn Chwarter 3 gyda thuedd barhaus i gael galwadau a chymhlethdodau cynyddol ym meysydd costau Plant sy'n Derbyn Gofal (yn y sir) - gorwariant o £295k; Lleoliadau Pobl Hŷn - costau £576k yn uwch na'r gyllideb; Lleoliadau Anabled Dysgu - £1.056m yn uwch na'r gyllideb (gan gynnwys cynnydd hanesyddol ym Mhlas Gwyn). Mae taliadau atodol i Weithwyr Cymdeithasol ar sail y farchnad, a chontract a gomisiynwyd parthed Gofal wedi'i Gynllunio, wedi cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn. Mae costau staff Asiantaeth ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Proffesiynol wedi eu hysgwyddo ar y cyfan o arbedion swyddi gwag. Mae costau staff Asiantaeth yng nghartrefi gofal yr awdurdod lleol yn cael eu hariannu'n bennaf gan arbedion yn y cyllidebau Gwasanaethau Dydd, a Gofal wedi'i dargedu a Galluogi.
Porth Cymorth Cynnar	4,355	4,258	97	
Porth Cynnal	28,602	30,252	(1,650)	
Porth Gofal	13,303	13,327	(24)	
	46,260	47,837	(1,577)	
<u>Ysgolion a Diwylliant</u>				
Ysgolion a Diwylliant (Awdurdod Addysg Lleol)	6,169	5,877	292	Tanwariant sy'n deillio'n rhannol o dderbyn arian grant yn hwyr a gwneud y mwyaf o gyfleoedd eraill am grantiau. Bu gostyngiad o £3.2m ar y cyfan ym Malansau Ysgolion.
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion	44,718	44,718	-	

	50,887	50,595	292	
Grŵp Arweiniol	7,281	7,253	28	Mae cynnydd TAW Hamdden o tua £700k wedi'i gyfrif yma, ar y cyd â neilltuo swm o £1.0m ar gyfer cynnig Cartref Gofal Hafan y Waun. Mae costau Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn dal i fod yn faich sylweddol, gyda gwariant o £4.018m.
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd wrth gefn	4,055	4,182	(127)	Mae £677k o arian premiwm Treth y Cyngor wedi'i drosglwyddo i gronfa sy'n sefyll ar £1.8m ar hyn o bryd, yn barod ar gyfer lansio'r cynllun Tai Cymunedol.
Cyfanswm y Gyllideb Reoladwy	165,843	166,195	(352)	

3. CASGLIAD

Mae perfformiad y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn parhau i ddangos fod sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn parhau'n gadarnhaol ac yn wydn ac yn cael ei reoli'n ofalus drwy gyfnod ariannol hynod o anodd o hyd. Mae mantolen y Cyngor yn parhau'n gadarn ond serch hynny mae'r rhagolygon yn heriol o hyd (gyda chwyddiant yn parhau yn uchel am fwy o amser nag y disgwyliai economegwyr).

A wnaed Asesiad Effaith Integredig?	Naddo
Os na, esboniwch pam	Mae'r adroddiad er gwybodaeth, nid penderfyniad.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	<p>Crynodeb:</p> <p>Hirdymor: Ddim yn berthnasol</p> <p>Integreiddio: Ddim yn berthnasol</p> <p>Cydweithio: Ddim yn berthnasol</p> <p>Cynnwys: Ddim yn berthnasol</p> <p>Atal: Ddim yn berthnasol</p>
Argymhelliad:	Nodi sefyllfa Alldro Refeniw 2022/23
Trosolwg a Chraffu:	Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae'r gyllideb yn sail i'r holl Amcanion Corfforaethol
Goblygiadau Ariannol:	Fel y nodwyd yn yr adroddiad
Pwerau Statudol:	Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972
Papurau Cefndirol:	Cyllideb Refeniw 2022/23
Atodiadau:	Atodiad 1 – Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Swyddogion Adrodd:	Duncan Hall a Justin Davies
Dyddiad:	15/06/23

DATGANIAD O'R CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD A'R BALANSAU CYFFREDINOL

	<u>Gwir</u> <u>Drosglwyddiada</u> <u>u</u> <u>(i)/wrth</u> <u>y Cronfeydd</u> <u>Wrth Gefn</u>	<u>Trosglwyddiada</u> <u>u (i)/wrth y</u> <u>Balansau</u> <u>Cyffredinol</u>	<u>Gwir Falansau ar</u> <u>31/03/22</u> <u>£'000</u>	<u>Gwir Falansau ar</u> <u>31/03/23</u> <u>£'000</u>
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion - Cynradd	(4,230)	1,636	-	(2,594)
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion - Uwchradd	(2,401)	951	-	(1,450)
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion - Gydol Oed	(1,681)	598	-	(1,083)
Cyllideb Dirprwyedig Ysgolion - Is-gyfanswm Pob Ysgol	(8,312)	3,185	-	(5,127)
Yswiriant - Cyflenwi	(185)	100	-	(85)
Gwasanaeth Ysgolion, Diwylliant a Dysgu Gydol Oes	(496)	(274)	-	(770)
Gwasanaeth Ysgolion, Diwylliant a Dysgu Gydol Oes	(8,993)	3,011	-	(5,982)
Cyfalaf Gorfforaethol	(6,196)	-	-	(6,196)
Addysg PFI Penweddig	(1,614)	-	-	(1,614)
Corfforaethol - Trefniadau ar y cyd	(8)	8	-	-
Cyllid / cyfartalu CTRS	(700)	-	-	(700)
Diswyddiadau Corfforaethol	(1,062)	-	-	(1,062)
Yswiriant	(1,104)	(102)	-	(1,206)
Cynllun Costau byw (yn ôl Disgresiwn)	(486)	486	-	-
Cyllid - Cyffredinol	(250)	(230)	-	(480)
Cyllid a Chaffael	(11,420)	162	-	(11,258)
Gwasanaethau Democraataidd	(112)	-	-	(112)
Cronfa wrth gefn etholiadau'r Cyngor Sir	(200)	165	-	(35)
Gwasanaethau Democraataidd	(312)	165	-	(147)
Pobl a Threfniadaeth	(58)	41	-	(17)
Pobl a Threfniadaeth	(58)	41	-	(17)
Porth Cymorth Cynnar	(2)	-	-	(2)
Buddsoddiad y Pyrth	(250)	-	-	(250)
Porth Gofal	(363)	313	-	(50)
Model Gydol Oes y Pyrth	(615)	313	-	(302)
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	(102)	(25)	-	(127)
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	(102)	(25)	-	(127)
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	(2,298)	1,212	-	(1,086)
Cynnal a Chadw dros y Gaeaf/ Atgyweirio ar ôl Stormydd	(277)	122	-	(155)
Amddiffyn Amgylcheddol a rhag Llifogydd	(177)	-	-	(177)
Gorfodi Sifil - Parcio	(86)	(16)	-	(102)
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	(2,838)	1,318	-	(1,520)
Cynllun Datblygu Lleol	(248)	15	-	(233)
Economi ac Adfywio	(177)	84	-	(93)
Canolfan Fwyd Cymru (Horeb)	(217)	19	-	(198)
Y Fargen Dwf	(250)	31	-	(219)
Rhaglen Wella Gwaith Trin Carthffosiaeth	(452)	-	-	(452)
Economi ac Adfywio	(1,344)	149	-	(1,195)
Buddsoddiad TGCh a Digidol	(1,000)	-	-	(1,000)
Cyswilt â Chwsmeriaid	(209)	28	-	(181)
Cyswilt â Chwsmeriaid a TG	(1,209)	28	-	(1,181)
Cyfreithiol a Llywodraethu	(125)	125	-	-
Cyfreithiol a Llywodraethu	(125)	125	-	-
Wrth gefn/Contingency a Rheoli'r Gyllideb	(4,463)	326	-	(4,137)
Pwysau Costau a Chwyddiant	(1,435)	113	-	(1,322)
Cydraddoli Lleoliadau/Placements	(1,000)	1,000	-	-
Cynllun Tai Cymunedol (Premiwm Treth y Cyngor)	(1,120)	(677)	-	(1,797)
Eisteddfod Genedlaethol 2020	(170)	170	-	-
Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu	(5,403)	526	-	(4,877)
Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth	(6,884)	(1,116)	-	(8,000)
Creu cymunedau gofalgarg ac iach	(1,500)	(802)	-	(2,302)
Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd	(4,950)	310	-	(4,640)
Gnŵp Arweiniol	(26,925)	(150)	-	(27,075)
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	(53,941)	5,137	-	(48,804)
BALANSAU CYFFREDINOL				
Balansau Cyffredinol	(6,720)	-	6	(6,714)
Cyfanswm y Balansau Cyffredinol	(6,720)	-	6	(6,714)
CYFANSWM TERFYNOL	(60,661)	5,137	6	(55,518)

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	4 Gorffennaf 2023
Teitl:	Perfformiad Rheoli'r Trysorlys 2022/23
Pwrpas yr adroddiad:	Adrodd am Berfformiad Rheoli'r Trysorlys 2022/23
Er:	Gwybodaeth
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael

1. CYFLWYNIAD

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â Chod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (y cod). Mae'n un o ofynion y cod i adrodd i'r Cabinet ar weithgarwch disgwylid y trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yna ar berfformiad rheoli trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn honno.

Mae CIPFA yn diffinio rheoli'r trysorlys fel a ganlyn:

“Rheoli buddsoddiadau'r awdurdod a'i lif arian, ei drefniadau bancio, ei drafodion ar y marchnadoedd arian a'r marchnadoedd cyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny a cheisio'r perfformiad gorau yn unol â'r risgiau hynny.”

2. Y STRATEGAETH

Cafodd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022/23 ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2022.

Yn Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor amlinellir mai blaenoriaethau'r Cyngor o ran buddsoddi yw diogelu cyfalaf a hylifedd. Y nod yw sicrhau'r elw gorau ar y buddsoddiadau a hynny'n gydnaws â'r lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd. Yn gyffredinol, rhagwelwyd y byddai'r buddsoddiadau ar gyfer gofynion llif arian craidd yn para am gyfnodau o hyd at 3 mis, ond byddai cyfle i fuddsoddi am gyfnodau hirach (hyd at flwyddyn) pe byddai balansau dros ben ar gael ar gyfer buddsoddi.

Ni fenthycwyd o'r newydd yn ystod 2022/23 gan fod y Cyngor yn parhau i gynnal ei fenthyciadau mewnol sy'n helpu i sicrhau arbedion refeniw yn y tymor byr.

3. YMGYNGHORWYR Y TRYSORLYS

Mae'r Cyngor yn cyflogi Link Treasury Services Ltd yn ymgynghorydd allanol i'r Cyngor parthed y Trysorlys ar gontract sy'n rhedeg tan 30/08/2026.

4. CONTRACT BANCIO

Mae gan y Cyngor gontract gyda Barclays ar gyfer darparu gwasanaethau bancio, sy'n rhedeg tan 29/02/2024. Mae Barclays yn fanc sydd wedi'i leoli yn y DU, mae ganddo statws credyd A1 (Moody's) hirdymor ac mae'n parhau i ddarparu gwasanaeth gwych i'r Cyngor.

Mae Barclays wedi arbenigo yn y sector llywodraeth leol ers dros 15 mlynedd ac ar hyn o bryd mae'n darparu gwasanaethau bancio trafodol i bron i 25% o'r holl awdurdodau lleol ac mae'n dal perthynas trysorlys gyda bron i 70% yn y DU. Cyfyng iawn yw nifer y darparwyr sy'n darparu gwasanaethau bancio i'r sector llywodraeth leol a dylid nodi mai Barclays oedd yr unig fanc a fynegodd ddiddordeb ym musnes y Cyngor y tro diwethaf y cafodd y contract ei gaffael. Mae hyder mawr yn y mesurau sydd ar waith gan Barclays i atal twyll, sy'n ystyriaeth hanfodol yn yr oes sydd ohoni. Mae Barclays wedi darparu hyfforddiant o safon yn rhad ac am ddim i swyddogion y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o dwyll seiber. Dyma enghraifft dda o'r gwasanaethau cymorth ychwanegol a dderbyniwyd fel rhan o'r contract hwn.

Bydd contract gwasanaethau bancio'r Cyngor yn mynd allan i dendr yn ystod 2023/24.

5. SEFYLLFA'R PORTFFOLIO

Isod nodir sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion a buddsoddiadau ar ddechrau a diwedd y flwyddyn:

	Y prif bethau'n weddill ar	
	<u>31/03/22</u>	<u>31/03/23</u>
	<u>£m</u>	<u>£m</u>
<u>Benthyciadau Allanol</u>		
Benthyciadau'r BBGC	108.9	101.1
Benthyciad Marchnad Barclays	5.8	5.8
Benthyciad Ad-daladwy	0.9	0.9
Llywodraeth Cymru		
<i>Cyfanswm y Ddyled</i>	115.6	107.8
<u>Buddsoddiadau</u>		
Mewnol	55.5	38.7
<i>Cyfanswm y Buddsoddiadau</i>	55.5	38.7
<i>Dyled Net</i>	60.1	69.1

Mae manylion y buddsoddiadau yr oedd y Cyngor yn eu dal ar ddiwedd y flwyddyn i'w gweld yn Atodiad A ac mae manylion dyledion allanol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn i'w gweld yn Atodiad B.

6. CYFRADDAU LLOG

Cyfraddau llog tymor byr

Mewn ymateb i'r lefelau chwyddiant sy'n parhau'n uchel, mae Banc Lloegr wedi cynyddu'r gyfradd llog sylfaenol ymhob un o'r deuddeg cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Polisi Ariannol. Ym mis Mehefin 2023 mae'r gyfradd sylfaenol yn 4.5%, sydd wedi codi o'r gyfradd isaf erioed o 0.1% a welwyd mor ddiweddar â mis Rhagfyr 2021.

Barn ein Hymgynghorwyr Trysorlys yw y bydd y cyfraddau llog yn parhau i godi tan y bydd yn cyrraedd 5.0% ym mis Medi 2023 ac yna bydd yn gostwng yn raddol i 3.25% dros y 18 mis nesaf.

Rhagolwg Link Treasury Services o'r Cyfraddau Llog – ar 9 Mehefin 2023.


	Meh-23	Medi-23	Rhag-23	Maw-24	Meh-24	Medi-24	Rhag-24	Maw-25
Rhagolwg o'r Gyfradd Llog	4.75%	5.00%	5.00%	4.75%	4.50%	4.00%	3.50%	3.25%

Cyfraddau llog y tymor hir

(ar gyfer benthyciadau aeddfedu newydd ac eithrio cyfradd Sicr / Rhagamcanol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC))

Ddechrau'r flwyddyn yr oedd cyfradd 49½ hyd 50 mlynedd y BBGC yn 2.3% ac mae wedi cynyddu'n gyson gan orffen y flwyddyn ar 4.6%. Gwelwyd cyfnod cythryblus iawn o ran y cyfraddau yn ystod yr hydref yn 2022 oherwydd 'cyllideb fach' Llywodraeth y DU ym mis Medi 2022, a arweiniodd at gyfnod cythryblus ar gyfer llogau Gilt y Llywodraeth. Cyrhaeddodd cyfradd 49½ hyd 50 mlynedd y BBGC 5.5% yn ystod y cyfnod hwn.

Dilynodd cyfradd 24½ hyd 25 mlynedd y BBGC batrwm tebyg gan ddechrau'r flwyddyn ar 2.8% ac yna gorffennodd y flwyddyn ar 4.9%.



7. BENTHYCIADAU

Yn ystod 2022/23 aeddfedodd un benthyciad aeddfedu'r BBGC, ac mae'r manylion yn y tabl isod. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau aeddfedu newydd gan y BBGC.

Benthyciadau'r BBGC sydd wedi Aeddfedu

Rhif y Benthyciad	Cyfradd Llog	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Cyfanswm y Benthyciad
493401	5.40%	22-Meh-07	30-Medi-22	6,700,000

Yr oedd cyfanswm o £1.1m o amrywiol ad-daliadau ar gyfer benthyciadau blwydd-dâl yn ôl yr amserlen.

Mewn termau cyllidebol, yr oedd yr union log a dalwyd ar fenthyciadau allanol ar gyfer 2022/23 yn £4.638m o gymharu â'r gyllideb ddiweddaraf a oedd yn £5.148m, gan esgor ar amrywiant ffafriol o £510k.

8. BUDDSODDIADAU

Cafodd y buddsoddiadau a reolir yn fewnol eu buddsoddi gyda'r sefydliadau a oedd wedi'u rhestru ar restr fenthycia gymeradwy'r Cyngor ar yr adeg y gwnaethpwyd y buddsoddiad. Yn bennaf buddsoddodd y Cyngor am gyfnodau byrion at ddibenion sy'n ymwneud â llif arian (e.e. taliadau credydwy, taliadau cyflogres) ond gan fanteisio ar werth ychwanegol buddsoddi am gyfnodau hirach lle'r oedd y llifau arian yn caniatáu hynny. Yn gryno, roedd y strategaeth fuddsoddi'n canolbwyntio ar yr isod:

- Dim buddsoddiadau mwy na blwyddyn o hyd.
- Dim buddsoddiadau gydag unrhyw barti i gontract nad yw'n cyflawni sgôr gredyd sylfaenol a ddiffinnir yn 'Wyrdd' gan Link ac eithrio banciau a gynorthwyir gan y Llywodraeth (a ddiffinnir yn 'Las' gan Link).
- Rhestr osod o bartion i gontract (yn amodol ar gyflawni meini prawf y sgôr gredyd) sef: Banc Barclays, Banc National Westminster, Grŵp Bancio Lloyds, HSBC, Cymdeithas Adeiladu Nationwide, Santander UK, Grŵp Banc Brenhinol yr Alban, Cymdeithas Adeiladu Coventry, Cymdeithas Adeiladu Leeds, Cymdeithas Adeiladu Swydd Efrog / Yorkshire, Cymdeithas Adeiladu Skipton, Banc Standard Chartered, UBS Cyf, Banc Rhyngwladol Goldman Sachs, Awdurdodau Lleol eraill a Chyfrif Swyddfa Rheoli Dyledion Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae canlyniadau'r buddsoddiadau a wnaethpwyd (rheolir y cyfan yn fewnol gan dîm y Trysorlys) yn 2022/23 fel a ganlyn:

<u>Balansau Cyfartalog y Buddsoddiadau</u>	<u>Cyfradd Enillion</u>	<u>Enillion Meincnod*</u>
Buddsoddiadau - £60.0m	1.99%	2.24%

* Cyfradd gyfartalog SONIA

Mewn termau cyllidebol, yr oedd yr union incwm o fuddsoddiadau yn £1.1m o gymharu â'r gyllideb ddiweddaraf a oedd yn £0.3m, gan esgor ar amrywiant ffafriol o £0.8m a hynny yn sgil y cynnydd yn y cyfraddau llog fel y nodwyd uchod. Yn ystod 2022/23 adroddwyd i'r Cabinet ynghylch y rhagolygon ar gyfer incwm ychwanegol.

9. AILDREFNU DYLEDION

Ni ad-dalwyd unrhyw ddyledion yn gynnar ac ni aildrefnwyd unrhyw ddyledion yn ystod 2022/23.

10. CYDYMFFURFIO Â CHYFYNGIADAU'R TRYSORLYS

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gweithredodd y Cyngor o fewn terfynau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus a nodwyd yn adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor am y flwyddyn.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam Crynodeb: Amherthnasol Hirdymor: Integreiddio: Cydweithio: Cynnwys: Atal:
Argymhelliad / Argymhellion:	Dylid nodi cynnwys yr adroddiad
Rhesymau dros y penderfyniad:	Nid oes angen un
Trosolwg a Chraffu:	Ystyriwyd hyn yn ystod y broses ar gyfer cymeradwyo'r Strategaeth
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae Rheoli'r Trysorlys yn sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol
Goblygiadau Ariannol:	Cyllideb Cyllid a Chaffael: Incwm Buddsoddi / Llog allanol sy'n cael ei dalu
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 2003
Papurau Cefndir:	Yr adroddiad ynghylch Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23 a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn (Mawrth 2022)

Tudalen 390

Atodiadau:

Atodiad A – Portffolio Buddsoddi

Atodiad B – Portffolio Dyledion

**Swyddog Arweiniol
Corfforaethol:**

Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Cyllid a Chaffael

Swyddog Adrodd:

Justin Davies – Rheolwr Corfforaethol Cyllid
Craidd

Dyddiad:

9 Mehefin 2023

BUDDSODDIADAU

MANYLION	GWERTH	CYFRADD	BUDDSODDI	
	£	LLOG %	O	I
<u>Y buddsoddiadau a dalir</u>				
Goldman Sachs International	4,000,000	4.190	06/10/2022	06/04/2023
Standard Chartered - Sustainable Deposit	2,000,000	4.050	02/12/2022	02/06/2023
Standard Chartered - Sustainable Deposit	2,000,000	4.270	07/02/2023	08/08/2023
DMADF	1,000,000	3.845	08/02/2023	04/04/2023
Yorkshire Building Society	1,000,000	3.900	14/02/2023	04/04/2023
DMADF	500,000	3.865	14/02/2023	11/04/2023
DMADF	1,000,000	3.855	15/02/2023	14/04/2023
DMADF	1,000,000	3.875	20/02/2023	14/04/2023
DMADF	1,000,000	3.890	21/02/2023	21/04/2023
DMADF	1,500,000	3.970	01/03/2023	28/04/2023
DMADF	700,000	3.915	03/03/2023	14/04/2023
DMADF	1,000,000	3.920	03/03/2023	18/04/2023
DMADF	2,500,000	3.920	03/03/2023	21/04/2023
DMADF	1,000,000	3.925	03/03/2023	24/04/2023
DMADF	1,000,000	3.925	03/03/2023	25/04/2023
DMADF	3,000,000	3.950	06/03/2023	28/04/2023
DMADF	500,000	3.960	07/03/2023	28/04/2023
Bank of Scotland	1,000,000	4.140	15/03/2023	15/06/2023
Bank of Scotland	500,000	4.130	17/03/2023	19/06/2023
Bank of Scotland	1,000,000	4.070	20/03/2023	20/06/2023
Bank of Scotland	1,000,000	4.090	21/03/2023	21/06/2023
Yorkshire Building Society	1,000,000	4.110	24/03/2023	28/04/2023
DMADF	500,000	4.060	27/03/2023	28/04/2023
DMADF	1,000,000	4.055	29/03/2023	28/04/2023
DMADF	4,000,000	4.055	30/03/2023	28/04/2023
DMADF	1,000,000	4.055	31/03/2023	28/04/2023
	<u>35,700,000</u>			
<u>Adneuon yng Nghyfrif Wrth Gefn Barclays</u>				
Banc Barclays	<u>2,954,331</u>		31/03/2023	-
<u>Adneuon mewn Cyfrif â Rhybudd</u>				
Cyfrif â 35 Diwrnod o Rybudd Nat West	<u>1</u>		31/03/2023	-
	<u>1</u>			
Cyfanswm y buddsoddiadau ar 31/03/23	<u>38,654,332</u>			

DYLLED ALLANOL

Atodiad B

Cyfeirnod y Benthyciad	Dull Ad-dalu	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Aeddfedu	Cyfradd Llog Gwreiddiol	Balans ar 31/03/23
<u>Benthyciadau'r BBGC</u>					
417195	A	24-Rhag-71	02-Rhag-31	8.000%	17,884
419325	A	21-Maw-72	02-Rhag-31	7.750%	12,520
427730	A	12-Medi-73	02-Meh-33	9.875%	19,153
478179	M	26-Medi-96	31-Maw-56	8.125%	5,000,000
478585	M	10-Rhag-96	30-Medi-56	7.500%	3,000,000
480055	M	13-Hyd-97	30-Medi-57	6.375%	6,000,000
480689	M	27-Maw-98	30-Medi-52	5.875%	2,000,000
481159	M	20-Gor-98	31-Maw-53	5.500%	3,500,000
490819	M	24-Tach-05	31-Maw-31	4.250%	2,000,000
490981	M	11-Ion-06	31-Maw-51	3.900%	2,000,000
491703	M	07-Meh-06	30-Medi-41	4.350%	2,700,000
491819	M	07-Gor-06	30-Medi-31	4.500%	5,300,000
491837	M	12-Gor-06	02-Meh-39	4.450%	2,000,000
492936	M	20-Chw-07	06-Awst-32	4.550%	6,000,000
493733	M	10-Awst-07	30-Medi-37	4.750%	9,551,120
501411	A	10-Gor-12	31-Maw-32	2.860%	1,197,102
501928	A	01-Maw-13	31-Maw-29	2.630%	1,242,938
502054	A	28-Maw-13	06-Chw-33	2.860%	1,312,197
502477	A	13-Awst-13	30-Medi-28	3.110%	1,231,839
502596	M	10-Hyd-13	09-Hyd-36	4.210%	5,000,000
502827	M	06-Chw-14	10-Ion-25	3.660%	3,000,000
502828	M	06-Chw-14	10-Ion-27	3.840%	2,000,000
502981	A	09-Ebr-14	31-Maw-34	3.680%	1,467,848
502982	A	09-Ebr-14	30-Medi-28	3.230%	1,739,153
503489	M	25-Tach-14	31-Maw-45	3.670%	5,000,000
503490	A	25-Tach-14	31-Maw-44	3.400%	1,135,333
503728	M	09-Chw-15	31-Maw-60	2.750%	4,000,000
503729	M	09-Chw-15	31-Maw-61	2.750%	4,000,000
504645	A	04-Chw-16	30-Medi-45	2.760%	2,148,820
506318	M	06-Medi-17	01-Medi-28	1.970%	2,000,000
506319	M	06-Medi-17	01-Medi-46	2.560%	6,000,000
507963	M	30-Hyd-18	31-Maw-34	2.500%	2,000,000
507964	M	30-Hyd-18	30-Medi-48	2.460%	1,800,000
508214	M	13-Rhag-18	30-Medi-39	2.520%	2,000,000
509622	M	08-Awst-19	30-Medi-58	1.970%	2,000,000
509623	M	08-Awst-19	30-Medi-34	1.730%	1,800,000
					101,175,905
<u>Benthyciad Marchnad</u>					
BBFRML	M	20-Meh-16	13-Medi-66	3.660%	5,750,000

Tudalen 393

Benthyciad Ad-daladwy Llywodraeth

Cymru

HIELPL1	M	06-Maw-15	31-Maw-30	0.000%	556,075
HIELPL2	M	27-Maw-20	31-Maw-35	0.000%	250,000
PRS	M	26-Hyd-20	30-Meh-27	0.000%	80,000
					886,075

CYFANSWM **107,811,980**

Allwedd

A – Annuity (Blwydd-dâl)

M – Maturity (Benthyciad sy'n aeddfedu)

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	4 Gorffennaf 2023
Teitl:	Grantiau a ddyfarnwyd o dan Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion / Cronfa'r Degwm
Pwrpas yr adroddiad:	Rhoi diweddariad ar y grantiau presennol a ddyfarnwyd o Gronfa'r Degwm
Er:	Gwybodaeth
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Gareth Davies – Gwasanaethau Cyllid a Chaffael a'r Cyngorydd Clive Davies – Yr Economi ac Adfywio

Cronfa'r Degwm 2022/2023**1. Cefndir – Cynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion**

Diben Cynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion yw ehangu'r amrywiaeth o gyfleusterau, gweithgareddau a chyfleoedd sydd ar gael yng Ngheredigion. Mae grantiau ar gael i Grwpiau Cymunedol, Cyngorau Cymuned neu Gymdeithasau Chwaraeon a Hamdden Gwirfoddol dilys. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor, gan gynnwys Canllawiau'r Cynllun a'r Ffurflenni Cais.

Caiff y cynllun ei redeg a'i gefnogi gan y gwasanaeth Cyllid a Chaffael a chaiff y ceisiadau eu hystyried gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, gan ymgynghori â naill ai'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyllid a Chaffael neu'r Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y grantiau a gafodd eu dyfarnu a'u talu yn ystod 2022/23 mewn perthynas â Chynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion.

Cafodd COVID19 effaith fawr ar y grantiau a gafodd eu dyfarnu a'u talu yn ystod 2022/23. Gohiriwyd ambell gynllun cyfalaf – adlewyrchir hyn yn y wybodaeth a ddarperir isod.

2. Y Gyllideb Gyfalaf – Grantiau Cyfalaf a Ariannwyd gan y Cyngor

	<u>Nifer y</u> <u>grantiau</u>	<u>£</u>
Y gyllideb wedi'i hadolygu		200,000
Taliadau Grant Cyfalaf	15	<u>(90,701)</u>
Tanwariant		<u>109,299</u>

Tudalen 396

Yn Atodiad 1 ceir manylion y grantiau cyfalaf a gafodd eu cymeradwyo a'u talu yn ystod y flwyddyn.

3. Y Gyllideb Refeniw – Cronfa'r Degwm

Mae cyllideb Grantiau Cymunedol Ceredigion yn cynnwys cyfran y Cyngor o incwm buddsoddi Cronfa'r Degwm. Mae'r adroddiad hwn yn dangos y grantiau a ddyfarnwyd yn ystod 2022/2023.

a) Y grantiau a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn

	<u>Nifer y grantiau</u>	<u>£</u>
Dyfarniad Gwreiddiol (Tybiannol)		30,000
Taliadau Grant Refeniw Cronfa'r Degwm	5	(3,450)
Tanwariant		26,550

Talwyd ac ariannwyd y grantiau canlynol o elfen Cronfa'r Degwm yng Nghynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion:

	£
Pwyllgor Gefeillio Aberteifi Brioude	1,750.00
Clwb Cerddoriaeth Llambod	500.00
Eglwys Sant Mihangel	500.00
Gŵyl Chwedleua 'Beyond The Border'	500.00
Gŵyl Dewi Llanbedr Pont Steffan	200.00
	3,450.00

b) Crynodeb

Dyma'r sefyllfa o ran balans y Cyngor ar gyfer incwm buddsoddi Cronfa'r Degwm:

	£'000
Balans agoriadol ar 01/04/2022	144
Incwm a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Gâr	23
Llog a gafwyd ar y balans	2
	169
<u>Namyn</u>	
Grantiau a gymeradwywyd yn 2022/2023	3
Costau'r gwasanaethau cymorth	2
	5
Amcangyfrif o'r balans ar 31/03/2023	164

4. **Cyllideb Refeniw – Grantiau Polisi a Ariannwyd gan y Cyngor**

	<u>Nifer y grantiau</u>	<u>£</u>
Y Gyllideb Wreiddiol		25,100
<u>Taliadau Grant Refeniw</u>		
Papurau Bro	5	(2,500)

Tudalen 397

Eisteddfodau	8	(7,200)
Sioeau	5	(1,000)
Gwyliau Bwyd	2	(1,000)
Unigolion	6	<u>(1,200)</u>
Tanwariant		<u>12,200</u>

Yn Atodiad 2 nodir y grantiau Polisi Refeniw a gafodd eu cymeradwyo a'u talu yn ystod y flwyddyn.

Asesiad Effaith Integredig:

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam

Naddo:- gan nad yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid polisi neu wasanaeth.

Argymhelliad:

Nodi'r grantiau a gymeradwywyd o Gronfa'r Degwm.

Rheswm dros y penderfyniad:

Ddim yn ofynnol

Trosolwg a Chraffu:

Cynllun Cymorth Grant a gymeradwywyd gan y Cyngor

Fframwaith Polisi:

Cynllun Cymorth Grant a gymeradwywyd gan y Cyngor

Blaenoriaethau Corfforaethol:

Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

Goblygiadau Ariannol:

O fewn y gyllideb bresennol

Pwerau Statudol:

Deddf Llywodraeth Leol 1999

Papurau Cefndir:

Amherthnasol

Atodiadau:

Atodiad 1- Grantiau Cyfalaf ystyriwyd / cymeradwywyd yn 2022/23
Atodiad 2- Grantiau Refeniw ystyriwyd / cymeradwywyd yn 2022/23

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Duncan Hall (Cyllid a Chaffael)

Swyddog Adrodd:

Fflur Lawlor (Cynorthwydd Grantiau Cymunedol ac Yswiriant)

Dyddiad:

05/06/2023

CYNLLUN GRANTIAU CYMUNEDOL CEREDIGION COMMUNITY GRANT

Grantiau Cyfalaf ystyriwyd / cymeradwywyd gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd neu Aelod Cabinet dros Wasanaethau Yr Economi ac Adfywio yn 2022/2023

Capital Grants considered / approved by Corporate Lead Officer - Finance and Procurement in Consultation with the Cabinet Member with responsibility for Finance and Procurement Services and Public Protection or Cabinet Member for Economy and Regeneration in 2022/2023.

Ymgeisydd / Applicant	Dyddiad Cymeradwywyd / Date Approved	Grant Cymeradw ywyd / Grant Approved £	Grant hawliwyd / Grant claimed £
-----------------------	--	---	--

Trosglwyddwyd o / Transfer from 2021/22

Cardigan Squash Club	16/03/2022	6,378	2,860
St. Tydfil Church, Llechryd	16/03/2022	1,945	1,495
St. John the Baptist's Church	16/03/2022	3,617	3,617
Eglwys Llanfihangel y Creuddyn	16/03/2022	3,690	2,969
Capel Bethlehem Dihewyd	16/03/2022	1,950	1,950
Ysgoldy Goch	16/03/2022	25,000	25,000
Llanddewi Brefi Village Hall & Recreation Ground	16/03/2022	2,550	2,550
Aberporth Community Hall	16/03/2022	25,000	7,975
Eglwys Llanarth	16/03/2022	4,475	4,475
		74,605	52,891

Ceisiadau Newydd / New Applications

Clwb Bowlio Aberystwyth	16/03/2022	2,096	0
Llangrannog Welfare Committee	16/03/2022	21,130	21,130
Queens Road Bowling Club	14/07/2022	4,293	3,128
Borth Sports & Playing Field Association	14/07/2022	8,023	8,023
Sioe Llangeitho	14/07/2022	3,354	3,354
Eglwys Annibynnol Nanternis	05/10/2022	1,474	1,474
Aberystwyth and District Hospice at Home Volunteers (HAHAV)	05/10/2022	25,000	0
Capel Bethania, Aberteifi	05/10/2022	9,420	0
Eglwys Mydroilyn	08/12/2022	4,794	701
Cyngor Cymuned Llansantffraed	08/12/2022	7,356	0
Neuadd Goffa Talybont	08/12/2022	4,200	0
Capel Pantycrugiau, Plwmp	08/12/2022	11,371	0
		102,511	37,810

Grantiau trosglwyddwyd I / Grants transferred to 2023/2024

Eglwys Llanfihangel y Creuddyn	22/03/2022	721	
Aberporth Community Hall	22/03/2022	17,025	
Clwb Bowlio Aberystwyth	22/03/2022	2,096	
Aberystwyth and District Hospice at Home Volunteers (HAHAV)	22/03/2022	25,000	
Capel Bethania, Aberteifi (in principle)	22/03/2022	9,420	
Eglwys Mydroilyn	22/03/2022	4,093	
Cyngor Cymuned Llansantffraed	22/03/2022	7,356	
Neuadd Goffa Talybont	22/03/2022	4,200	
Capel Pantycrugiau, Plwmp	22/03/2022	11,371	
St. Tydfil Church, Llechryd	14/06/2023	450	
		81,732	

Cynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion Community Grant Scheme

Grantiau Refeniw ystyriwyd / cymeradwywyd gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd neu Aelod Cabinet dros Wasanaethau Yr Economi ac Adfywio yn 2022/2023

Revenue Grants considered / approved by Corporate Lead Officer - Finance and Procurement in Consultation with the Cabinet Member with responsibility for Finance and Procurement Services and Public Protection or Cabinet Member for Economy and Regeneration in 2022/2023

Ymgeisydd / Applicant	Dyddiad Cymeradwywyd / Date Approved	Grant £
Papurau Bro		
Papur Bro Y Tincer	06/06/2022	500
Papur Bro Y Barcud	27/07/2022	500
Papur Bro Clonc	27/07/2022	500
Papur Bro Y Garthen	22/02/2023	500
Papur Bro Y Ddolen	15/08/2022	500
Eisteddfodau		
Eisteddfod Dihewyd	19/05/2022	200
Eisteddfod Pantyfedwen	27/04/2022	3,000
Eisteddfod Gwyl y Banc RTJ Llambod	27/07/2022	3,000
Eisteddfod Felinfach	27/07/2022	200
Eisteddfod Llanarth	19/10/2022	200
Eisteddfod Cwmystwyth	23/09/2022	200
Cymdeithas Ceredigion	20/02/2023	200
Eisteddfod Rhydlewis	06/03/2023	200
Sioeau / Shows		
Sioe Talybont	27/06/2022	200
Sioe Amaethyddol Llangeitho	23/09/2022	200
Sioe Cwmsychpant	23/09/2022	200
Sioe Llanddewi Brefi	04/10/2022	200
Sioe Llanfair Clydogau	23/09/2022	200
Gwyl Fwyd / Food Festivals		
Gwyl Fwyd Llambod	27/06/2022	500
Cardigan River and Food Festival	27/07/2022	500
Unigolion / Individuals		
Alex Hammel - Selected to represent Wales Under 15 Basketball in Dundee, Scotland 26-19 May 2022 / Dewiswyd i gynrychioli Pêl-fasged Dan 15 Cymru yn Dundee, Yr Alban 26-19 Mai 2022	21/04/2022	200
Ceri Jones - Selected to represent Wales in Fly Fishing / Dewis i gynrychioli Cymru mewn pysgota plu - 29/09/2022	29/06/2022	200
Alaw Jones - Selected to represent YFC Wales on trip abroad to South Africa - 19/08/22 - 31/08/22 / Dewis i gynrychioli CFFl Cymru ar daith dramor i Dde Affrica - 19/08/22 - 31/08/22	27/07/2022	200
Mared Jones - Selected to represent YFC Wales on trip abroad to South Africa - 19/08/22 - 31/08/22 / Dewis i gynrychioli CFFl Cymru ar daith dramor i Dde Affrica - 19/08/22 - 31/08/22	15/08/2022	200
Elliw Dafydd - Selected to represent YFC Wales/NFYFC on trip abroad to Peru - 09/08/22 - 24/08/22 / Dewis i gynrychioli CFFl Cymru/NFYFC ar daith dramor i Peru - 09/08/22 - 24/08/22	27/07/2022	200
Iwan Jones-Evans - Dewis i gynrychioli Cymru yn Twrnamaint Rhyngwladol Cymru yn y Gwledydd Cartref mewn Saethu Targedau Clai - 10/09/22 / Selected to represent Wales at Home Countries International Tournament in Clay Target Shooting - 10/09/22	04/10/2022	200
		12,900

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	4ydd Gorffennaf 2023
Teitl:	Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (17.03.23)
Pwrpas yr adroddiad:	Cyflwyno cofnodion cyfarfod diwethaf Cyngor Ieuenctid Ceredigion
Er:	Gwybodaeth
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

CEFNDIR:

Un o'r dyletswyddau a roddwyd i Awdurdodau Lleol o fewn Llywodraeth Cymru – Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yw Atodiad B - y **Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc**.

Er mwyn cwrdd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

- *Gefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid y Sir fel corff cynrychioliadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol.*
- *Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac i gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc mwy ymylol.*
- *Er mwyn i Fforymau / Cyngorau Ieuenctid y Sir weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn.*
- *Dylent gael eu hysbysu a'u cysylltu â'u strwythurau democrataidd lleol.*
- *Bydd angen iddynt hefyd gael eu cysylltu'n effeithiol â strwythurau cyfranogi cenedlaethol fel Young Wales, Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl ddynol i gael barn ac i'r safbwyntiau hyn fod o bwys. Mae'n dweud y dylid ystyried barn plant a phobl ifanc pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n eu cynnwys, ac ni ddylid eu diswyddo allan o law ar sail oedran. Mae hefyd yn dweud y dylid rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau da. **Erthygl 12 (Parch at farn y plentyn - Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)***

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu Ceredigion sy'n gyfrifol am gydlynu a rheoli Cyngor Ieuenctid Ceredigion ers iddo gael ei sefydlu gyntaf yn Hydref 2015. Maent yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn (unwaith bob tymor) ac mae'r Cyngor yn cynnal digwyddiad ar ddiwedd eu blwyddyn 'yn y rôl'. Mae cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid bellach yn cael eu cynnal nol yn y Siambr ym Mhenmorfa.

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	<p>Crynodeb:</p> <p>Hirdymor: Cydbwysu angen tymor byr â chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol</p> <p>Integreiddio: Darparu ymyrraeth gynnar i leihau problemau rhag datblygu</p> <p>Cydweithio: Ystyried sut y gall llesiant pobl ifanc effeithio ar bob un o'r nodau llesiant</p> <p>Cynnwys: Gweithio gydag eraill i greu cyfleoedd i bobl ifanc</p> <p>Atal: Cynnwys pobl ifanc a cheisio eu barn</p>
Argymhelliad / Argymhellion:	Cyflwyno cofnodion cyfarfod diwethaf Cyngor Ieuenctid Ceredigion i Bwyllgor Trosolwg a Craffu Cymunedau Dysgu a Cabinet, er gwybodaeth.
Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	Cymeradwyo'r cais a bodloni gofynion y ddeddfwriaeth fel y nodir yn Atodiad B Llywodraeth Cymru - Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yw Atodiad B - y Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.
Trosolwg a Chraffu:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu
Fframwaith Polisi:	
Blaenoriaethau Gorfforaethol:	Strategaeth Gorfforaethol 2012-2027 Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim

Tudalen 403

Risg(iau):	Dim
Pwerau Statudol:	Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad 1: Atodiad B- Canllawiau Statudol ynghylch cyfranogiad plant a phobl ifanc Atodiad 2: Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion 17.03.23
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar
Swyddog Adrodd:	Lowri Evans / Gwion Bowen
Dyddiad:	10fed Mai 2023

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

SPSF 3 - ATODIAD B
CANLLAWIAU STATUDOL YNGHYLCH CYFRANOGIAD PLANT A PHOBL IFANC

Mae'r canllawiau statudol hyn yn cael eu cyhoeddi yn unol ag [Adran 17\(3\) o Fesur Plant a Theuluoedd \(Cymru\) 2010](#) ac maent yn berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol, a phryd bynnag y byddant yn gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar blant a phobl ifanc.

Addysg - gwella mynediad i gyfleoedd galwedigaethol a mwy o ddewis, gan gynnwys sgiliau bywyd / Education - improve access to vocational opportunities and greater choice that should include life skills	234	6 th
Addysg - dylid addysgu sgiliau busnes ac entrepreneuriaeth mewn ysgolion / Education - business and entrepreneurship skills should be taught in schools	267	3 rd
Ail Gartrefi - Tai fforddiadwy a mynediad i bobl ifanc lleol / Second Homes - Affordable housing and access for local young people	244	5 th
Argyfwng costau byw - mwy o gefnogaeth gyda chostau cludiant, cinio ysgol ac ynni / Cost of living Crisis - more support with costs of transport, school meals and energy	515	1 st
Cydraddoldeb - mwy o gyfleoedd chwaraeon i ferched mewn ysgolion ac yn y gymuned / Equality - more sports opportunities for girls in schools and in the community	201	7 th
Gyrfaoedd - Mwy o ddewis o brentisiaethau sy'n talu'n well a mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd profiad gwaith / Careers - A greater choice of better paid apprenticeships and access to a range of work experience opportunities	372	2 nd
Hybu'r Gymraeg - mae angen gwneud mwy i hybu'r iaith / Promoting the Welsh language - more needs to be done to promote the language	95	8 th
Trafnidiaeth - mae angen i fysiau redeg yn hwyrach a bod yn fwy fforddiadwy, gwell cysylltiadau trên a gwell llwybrau beicio /Transport - buses need to run later and be more affordable, better train links and improved bike routes	256	4 th
Cyfanswm Pleidleisiau / Total Votes	2184	

Tudalen 532

Ymgyrch Cyngor Ieuenctid Ceredigion

'Rhoi Dy Farn 2023'

Ceredigion Youth Council Campaign

Canlyniadau / Results



Pwnc Llosg / Hot Topic	Cyfanswm / Total	Safle/Ranking
Argyfwng costau byw - mwy o gefnogaeth gyda chostau cludiant, cinio ysgol ac ynni / Cost of living Crisis - more support with costs of transport, school meals and energy	515	1af / 1st
Gyrfaoedd - Mwy o ddewis o brentisiaethau sy'n talu'n well a mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd profiad gwaith / Careers - A greater choice of better paid apprenticeships and access to a range of work experience opportunities	372	2ail / 2nd
Addysg - dylid addysgu sgiliau busnes ac entrepreneuriaeth mewn ysgolion / Education - business and entrepreneurship skills should be taught in schools	267	3ydd / 3rd
Trafnidiaeth - mae angen i fysiau redeg yn hwyrach a bod yn fwy fforddiadwy, gwell cysylltiadau trên a gwell llwybrau beicio / Transport - buses need to run later and be more affordable, better train links and improved bike routes	256	4ydd / 4th
Ail Gartrefi - Tai fforddiadwy a mynediad i bobl ifanc lleol / Second Homes - Affordable housing and access for local young people	244	5ed / 5th
Addysg - gwella mynediad i gyfleoedd galwedigaethol a mwy o ddewis, gan gynnwys sgiliau bywyd / Education - improve access to vocational opportunities and greater choice that should include life skills	234	6ed / 6th
Cydraddoldeb - mwy o gyfleoedd chwaraeon i ferched mewn ysgolion ac yn y gymuned / Equality - more sports opportunities for girls in schools and in the community	201	7fed / 7th
Hybu'r Gymraeg - mae angen gwneud mwy i hybu'r iaith / Promoting the Welsh language - more needs to be done to promote the language	95	8fed / 8th
Cyfanswm Pleidleisiau / Total Votes	2184	

Mae canlyniadau'r bleidlais flynyddol yn nodi'r blaenoriaethau a fydd yn rhoi ffocws i ddigwyddiad blynyddol 'pawb a'i farn' y Cyngor Ieuenctid adeg tymor yr haf. / The results of the annual ballot sets out the priorities that will provide focus for the Youth Council's annual 'pawb a'i farn' event in the summer.

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	04/07/2023
Teitl:	Adroddiad Blynyddol y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad 2022-2023
Pwrpas yr adroddiad:	Rhoi cyfle i Gabinet ystyried y cynnydd a wnaed wrth gyflawni Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi y Cyngor yn ystod 2022-23
Er:	Gwybodaeth
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

Cafodd Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad Ceredigion 'Siarad, Gwranddo a Gweithio Gyda'n Gilydd' ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 04/10/2022 a'i gyhoeddi ar 18/10/2022.

ceredigion.gov.uk/polisi/ymgysylltu_a_chyfranogi_cyngor_sir_ceredigion.pdf

Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf sy'n amlinellu ein cynnydd wrth gyflawni'r Polisi.

Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i atodi fel Atodiad 1. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cynllun Gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn y Polisi, ynghyd â'r Dulliau Ymgysylltu a ddefnyddir gan y Cyngor, rhai enghreifftiau o Ymgysylltu'n Barhaus a chrynodeb o'r ymarferion Ymgysylltu, Ymgynghori a 'Hysbysu' a gynhaliwyd yn ystod 2022-23.

Ar ddiwedd yr adroddiad mae adran casgliad wedi'i chynnwys i asesu'r gwelliannau a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf ac i nodi lle mae angen cynnydd pellach wrth symud ymlaen.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam Crynodeb: Hirdymor: Cydweithio: Cynnwys: Atal: Integreiddio:	Na, nid yw'n cyflwyno newid mewn polisi na gwasanaeth.
Argymhelliad / Argymhellion:	Nodi cynnwys yr adroddiad a lefel y gweithgaredd ymgysylltu a wneir gan yr Awdurdod Lleol.	

Tudalen 534

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	Er mwyn bod gweithgaredd ymgysylltu a wneir gan yr Awdurdod Lleol yn cael ei fonitro'n briodol.
Trosolwg a Chraffu:	Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 12/06/2023.
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Gorfforaethol 2022-27
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	<ul style="list-style-type: none">• Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth• Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach• Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu• Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau cyfreithiol:	Her gyfreithiol os nad yw Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori teg.
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Her gyfreithiol a risg i enw da os nad yw Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori teg.
Pwerau Statudol:	Deddf Cydraddoldeb 2010 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Mesur y Gymraeg 2011
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad 1- Adroddiad Blynyddol y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad 2022-2023
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Swyddog Adrodd:	Cathryn Morgan
Dyddiad:	14/06/2023

Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion 'Siarad, Gwranddo a Gweithio Gyda'n Gilydd' Adroddiad Blynyddol 2022-2023



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur: Cathryn Morgan, Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Deiliad Portffolio: Cyng Matthew Vaux

Cymeradwywyd gan y Cabinet: xx/xx/xxxx

Dyddiad cyhoeddi: xx/xx/xxxx

Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion Adroddiad Blynyddol 2022-2023

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan y Cyngor yn ystod 2022-23 i gyflawni ein Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi gyda'r nod cyffredinol o wella'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

Pam Ymgysylltu?

Mae ein polisi Ymgysylltu a Chyfranogi, a gymeradwywyd ym mis Hydref 2022, yn nodi sut y byddwn yn siarad ac yn gwranddo gyda phawb sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yng Ngheredigion, gan gynnwys pobl nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Mae'n bwysig ein bod yn rhoi cyfle i drigolion a rhanddeiliaid ddweud wrth y Cyngor am eu gwledigaeth eu hunain ar gyfer eu cymunedau ac am yr hyn y maent ei eisiau o ran darparu gwasanaethau.

Mae ein dyletswydd gyfreithiol i ymgynghori wedi'i nodi mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** - rhaid i'r Cyngor gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau Llesiant Cenedlaethol.
- **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** - rhaid i'r Cyngor annog chyfranogiad y cyhoedd yn ein penderfyniadau.
- **Mesur y Gymraeg 2011** - rhaid i'r Cyngor ofyn i'r cyhoedd am eu barn ar yr effaith y bydd ein penderfyniadau yn ei chael ar y Gymraeg.
- **Deddf Cydraddoldeb 2010** - rhaid i'r Cyngor gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig.
- **Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996** - rhaid i'r Cyngor ymgynghori â sefydliadau a bennir yn y Rheoliadau a rhaid iddynt hysbysu pobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan orchymyn traffig.
- **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** - rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r [Cod Trefniadaeth Ysgolion](#) sy'n amlinellu'r egwyddorion y dylid eu hystyried wrth gynnig gwneud newidiadau i ddarpariaeth ysgolion.

Nid yw'n ymwneud â'n dyletswydd gyfreithiol yn unig, fodd bynnag. Mae ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn rhoi gwell gwybodaeth i ni i helpu i wneud penderfyniadau. Gall hyn arwain at ganlyniadau gwell i'n trigolion.

ADRAN 1

Cynllun gweithredu: Cynnydd 2022-23

Nod 1: Prif ffrydio gwaith ymgysylltu a chyfranogi effeithiol ar draws Cyngor Sir Ceredigion

Gweithred	Cynnydd	Cyfrifoldeb	Statws RAG
Datblygu pecyn cymorth Ymgysylltu a rhoi hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio i bob Rheolwr Corfforaethol.	<p>Datblygwyd y pecyn cymorth ac mae'r cynnwys yn cael ei brofi ar ymarferion ymgysylltu cyfredol. Mae'r cynnwys wedi'i restru isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> Offeryn gwneud penderfyniadau ymgynghori Templed Ymgysylltu / Ymgynghori Rhestr wirio Ymgysylltu ac Ymgynghori Canllawiau fformatau hygyrch Templed monitro cydraddoldeb Manylion cyswllt grŵp rhanddeiliaid <p>Cynigiwyd cyngor un-i-un yn ystod 2022-23. Bydd sesiynau grŵp ar ei ddefnydd yn cael eu cyflwyno yn ystod 2023-24.</p>	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Oren rhywfaint o gynnydd a wnaed
Cynnal amserlen o ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a gyflawnir gan holl Wasanaethau'r Cyngor.	<p>Cwblhawyd – mae'r amserlen yn cael ei chadw gan y tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant a bydd yn cael ei diweddarau'n barhaus.</p> <p>Cynhaliwyd 5 x ymarfer ymgynghori, 7 x ymarfer ymgysylltu x a 4 ymarfer 'hysbysu' yn ystod 2022-23. Mae mwy o fanylion yn Adran 2 isod.</p>	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd gweithred ar y trywydd iawn
Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu i fonitro'r datblygiadau wrth i ni newid sut rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd.	<p>Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad ar gyfer 2022-23.</p>	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd gweithred ar y trywydd iawn

Nod 2: Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau

Gweithred	Cynnydd	Cyfrifoldeb	Statws RAG
Adolygu a diweddarau ein rhestr o grwpiau rhanddeiliaid.	Mae'r rhestr wedi'i hadolygu a'i diweddarau. Ar ôl ei gwirio, bydd yn cael ei hychwanegu at y pecyn cymorth Ymgysylltu ac ar gael i holl staff y Cyngor.	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd gweithred ar y trywydd iawn
Datblygu'r defnydd o lwyfannau ymgysylltu ar-lein a chynnal y defnydd o ddulliau ymgysylltu nad ydynt yn ddigidol.	Mae'r dudalen we Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau corfforaethol yn cael ei hadolygu a bydd yn cael ei diweddarau yn ystod 2023-24. Mae platfform ar-lein - 'Dweud eich dweud Ceredigion' - yn cael ei brofi ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson eto. Mae dulliau ymgysylltu nad ydynt yn ddigidol yn cael eu defnyddio ond nid yn gyson ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.	Pob Rheolwr Corfforaethol	Oren rhywfaint o gynnydd a wnaed
Gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rheini sydd wedi cymryd rhan yn ein hymarferion ymgysylltu.	Mae dull cyson yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno ar draws holl wasanaethau'r Cyngor yn ystod 2023-2024.	Pob Rheolwr Corfforaethol	Coch Dim cynnydd wedi'i wneud

Nod 3: Bodloni ein cyfrifoldebau a'n dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth

Gweithred	Cynnydd	Cyfrifoldeb	Statws RAG
<p>Sicrhau bod mecanwaith ar waith fel bod y cyhoedd yn gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn bersonol neu o bell drwy system gyfarfod hybrid.</p>	<p>Mae'r mecanwaith yn ei le.</p> <p>Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gall aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd hybrid yn bersonol neu o bell.</p>	<p>Gwasanaethau Democrataidd</p>	<p>Gwyrdd cwblhawyd</p>
<p>Diwygio a diweddarau ein hofferyn Asesiad Effaith Integredig (AEI)</p>	<p>Mae'r offeryn Asesu Effaith Integredig diwygiedig ar gam 'drafft'. Mae'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am boblogaeth Ceredigion (<i>Cyfrifiad 2021</i>) ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'r asesiad.</p> <p>Bydd yr offeryn drafft yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo yn ystod 2023-2024.</p>	<p>Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant</p>	<p>Oren rhywfaint o gynnydd a wnaed</p>
<p>Sefydlu system e-ddeisebau a chyhoeddi protocol sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt.</p>	<p>Mae'r Protocol Deisebau wedi'i restru o dan Ran 5 (Codau a Phrotocolau) cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r cyfansoddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor - Cyfansoddiad y Cyngor - Cyngor Sir Ceredigion.</p> <p>Mae system e-ddeiseb yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgorau perthnasol yn fuan.</p>	<p>Gwasanaethau Democrataidd</p>	<p>Oren rhywfaint o gynnydd a wnaed</p>

Nod 4: Cadw llygad ar y datblygiadau a'r arferion gorau diweddaraf ym maes ymgysylltu

Gweithred	Cynnydd	Cyfrifoldeb	Statws RAG
Adolygu a diwygio Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Cyngor Sir Ceredigion	Cyhoeddwyd y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi cyfredol ym mis Hydref 2022. Bydd yn cael ei adolygu yn 2025, neu cyn hynny os bydd angen.	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd gweithred ar y trywydd iawn
Cadw pecyn cymorth ymgysylltu yn gyfredol i'r holl staff ei ddefnyddio.	Mae'r pecyn cymorth ymgysylltu yn cael ei ddatblygu Bydd yn cael ei ddiweddarau, ac ar gael i'r holl staff ar ôl iddo gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi ar wefan fewnol y staff.	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Oren rhywfaint o gynnydd a wnaed
Cysylltu â chydweithwyr Ymgysylltu a Chydraddoldeb ledled Cymru.	<p>Mae'r rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn aelod o Rwydwaith Trechu Tlodi ac Anghydraddoldeb Cymru a Rhwydwaith Arweinwyr Ymgysylltu Cynghorau, y ddau yn cael eu rhedeg gan CLILC.</p> <p>Mae'r tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cyfrannu at gyfarfodydd ymgysylltu a chydraddoldeb rhanbarthol ac ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda rheolwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Canolbarth a Gorllewin Cymru ar ymarfer ymgynghori rhanbarthol i baratoi ar gyfer adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.</p>	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd gweithred ar y trywydd iawn

ADRAN 2

Dulliau ymgysylltu

Nid oes un ateb 'sy'n addas i bawb' i ymgysylltu. Ein nod yw defnyddio'r math gorau o ymgysylltu ar gyfer y sefyllfa gywir.

Cyflawnir ymgysylltiad parhaus trwy sgwrs barhaus rhwng y Cyngor a'n cymunedau lleol. Weithiau, ymarfer ymgysylltu neu ymgynghori wedi'i dargedu yw'r dull gorau. Mewn achosion eraill, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ddilyn proses benodol i hysbysu'r cyhoedd a rhoi cyfle i gael adborth.

Mae'n dod yn fwy anodd cael barn y cyhoedd ar yr ystod eang o wasanaethau a strategaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. Defnyddir amrywiaeth o dulliau i hyrwyddo ein hymarferion ymgysylltu ac ymgynghori gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg, poster, ac e-byst wedi'u targedu at randdeiliaid.

Mae copïau papur o wybodaeth ac arolygon yn aml yn cael eu cynhyrchu. Yn gyffredinol, mae'r rhain ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan neu drwy gais. Maent hefyd yn cael eu dosbarthu trwy e-bost a'u rhoi yn ein Llyfrgelloedd a'n Canolfannau Hamdden. Anogir pob gwasanaeth i ddarparu fersiynau amgen, e.e. Hawdd eu Deall, Print Bras a chrynodebau Person Ifanc. Ymgwymerwyd â hyfforddiant Hawdd ei Ddeall gan 15 aelod o staff ym mis Ionawr/Chwefror 2023 ac mae gan 8 Gwasanaeth y Cyngor bellach fynediad at lyfrgell symbolau helaeth i alluogi rhagor o ddogfennau Hawdd eu Deall i gael eu cynhyrchu a'i gwneud yn haws i bobl ag anawsterau dysgu ymgysylltu â ni.

Mae sesiynau trafod, gweithdai thematig, cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol a sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb hefyd yn cael eu cynnig, yn enwedig lle ceisir adborth gan garfan benodol, er enghraifft y Cyngor leuenctid, neu mewn man penodol, er enghraifft llifogydd yn Llanybydder, Llandysul/Pont-Tyweli.

Mae pecyn cymorth Ymgysylltu yn cael ei ddatblygu a bydd hyn yn galluogi dull mwy cyson o ymdrin â'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae 'Dweud eich dweud Ceredigion' - yn cael ei brofi ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson eto. Y nod yw datblygu'r platfform ar-lein hwn fel y gall pobl gofrestru i ddweud eu dweud ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb iddynt gan ddefnyddio ystod o offer, er enghraifft byrddau syniadau, straeon, arolygon barn ac arolygon.

Rhai enghreifftiau o Ymgysylltiad Parhaus

Cymerodd **Clic – Canolfan Gyswilt Gwasanaethau Cwsmeriaid** 130,908 o alwadau ffôn yn ystod 2022-23 gydag amseroedd aros ar gyfartaledd ar draws pob llinell yn 2 funud 40 eiliad. Deliodd y Ganolfan Gyswilt â 35,852 o negeseuon e-bost yn yr un cyfnod. Mae cysylltiadau'n amrywio o geisiadau syml am wybodaeth, i atgyfeiriadau ac ymholiadau cymhleth. Mae ymholiadau a chyswilt â'r cyhoedd yn rhoi adborth gwerthfawr i'r Cyngor am y gwasanaethau rydym yn eu darparu ac maent yn rhan o'n sgysiau parhaus gyda phobl sy'n byw, gweithio ac astudio yng Ngheredigion.

Mae **Porth y dinesydd - Fy Nghyfrif** yn galluogi trigolion Ceredigion i sefydlu eu cyfrif eu hunain i weld manylion ar-lein am eu Treth Cyngor, Budd-dal Tai ac Ardrethi Busnes. Mae nodweddion ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y porth fel y gall dinasyddion gael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n ymwneud â'r Cyngor sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae **cyfarfodydd y Cyngor** ar agor i'r cyhoedd, cyhoeddir yr holl gofnodion ar wefan y Cyngor yn ogystal â chalendr o gyfarfodydd sydd i ddod. Mae hyn yn galluogi aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb i ddeall sut mae'r Cyngor yn cael ei redeg ac i wybod pa benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar unrhyw adeg benodol.

Mae **Cyngor Ieuenctid Ceredigion** yn cyfarfod ag Uwch Reolwyr ac Aelodau Etholedig bedair gwaith y flwyddyn. Cyflwynir cofnodion eu cyfarfodydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu a'r Cabinet, er mwyn sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei bwydo i'r broses ddemocrataidd.

Mae'r **Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc** yn galluogi gweithwyr o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector addysg bellach i rannu gwybodaeth. Mae aelodau'r Fforwm yn codi heriau sy'n wynebu'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd yr ydym yn eu cefnogi ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i atebion a fydd yn helpu.

Mae **Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion** yn cynrychioli rheolwyr a pherchnogion tir, defnyddwyr tir a'r rheini sydd â buddiannau eraill. Mae'r fforwm yn cynghori'r Cyngor a chyrrff eraill ar faterion mynediad a hamdden.

Mae **Fforwm Anabledd Ceredigion** yn galluogi pobl ag anabledd i gyfarfod â swyddogion y Cyngor i drafod materion sy'n bwysig i'r gymuned anabl a'r Cyngor.

Fforwm Cymunedol Lluoedd Arfog Ceredigion yw fforwm i aelodau o'r Lluoedd Arfog a gweithwyr o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector rannu gwybodaeth a heriau a chydweithio i ddod o hyd i atebion a fydd yn helpu.

Mae **Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion - Cynnal y Cardi** yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector preifat, cymunedol a chyhoeddus i sicrhau cynrychiolaeth gytbwys o fuddiannau. Mae aelodau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi gweithgarwch adfywio gwledig ledled Ceredigion.

Caiff **Fforwm Gofalwyr Ceredigion** ei gydlynw gan dîm y Gofalwyr a chymorth Cymunedol ac mae'n galluogi Gofalwyr di-dâl i siarad am y materion sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r **Gynghrair Gofalwyr** yn grŵp ar wahân sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol o bob sector sy'n cefnogi Gofalwyr di-dâl. Mae'r Fforwm a'r Gynghrair yn rhoi adborth gwerthfawr i'r Cyngor i helpu i wella'r gwasanaethau cymorth a ddarparwn.

Mae **Cysylltwyr Cymunedol** yn cynnal sesiynau galw heibio rheolaidd ledled Ceredigion, sy'n agored i bawb. Maent yn cefnogi'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt ac yn gweithio gyda phobl i ddatblygu ystod o rwydweithiau, gweithgareddau a digwyddiadau. Mae'r gweithgareddau hyn yn eu galluogi i nodi angen heb eu diwallu ac adborth i wasanaethau perthnasol.

Mae **Swyddog Heneiddio'n Dda Ceredigion** wedi bod yn casglu adborth gan bobl hŷn ar wahanol agweddau ar fywyd wrth i ni fynd yn hŷn yng Ngheredigion. Mae hon yn broses barhaus a bydd yn bwydo i mewn i hunanasesiad Oed-gyfeillgar a fydd yn cyfrannu at gynllun gweithredu Oed-gyfeillgar. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ddod yn aelod o'r Rhwydwaith Cymunedau Oed-gyfeillgar yng Nghymru.

Mae cyfarfodydd **Pathfinder** yn dod â phartneriaid ynghyd mewn ardaloedd daearyddol penodol i drafod materion sy'n wynebu plant a theuluoedd yn eu cymunedau. Mae cynrychiolwyr byrddau ieuchyd, y sector cyhoeddus a'r sector cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio darpariaeth y dyfodol o ran rhianta a chymorth i deuluoedd sy'n seiliedig ar adborth gan y teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw bob dydd.

Cynghorau Tref a Chymuned sydd agosaf at y cyhoedd o ran diwallu anghenion lleol. Mae Aelodau Etholedig yn eistedd ar eu Cyngor Tref neu Gymuned lleol, sy'n rhoi llinell gyswllt uniongyrchol i'r Cyngor Sir i'r materion a'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau lleol.

Ymarferion ymgysylltu a gynhaliwyd yn 2022-23

Cynhaliwyd saith ymarfer ymgysylltu wedi'u targedu yn ystod 2022-23. Roedd rhai yn cael eu rhedeg gan y Cyngor yn unig a rhai yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth ag eraill wrth i ni geisio lleihau 'blinder ymgynghori'. Bydd adborth o'r ymarferion hyn yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau a strategaethau yn y dyfodol.

1. Datblygu Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol i ddarparu cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (Mai/Mehefin 2022)

Cynhaliodd Tyfu Canolbarth Cymru (Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys) ymarfer ymgysylltu mewnol ac allanol i wahodd barn ar sut y dylid defnyddio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU dros y 3 blynedd nesaf.

Nifer yr ymatebion: 176 o ymatebion i arolwg ar-lein ynghyd â dros 150 o randdeiliaid a fynychodd weminar ac 20 o sefydliadau sy'n aelodau o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.

Beth nesaf: Defnyddiwyd ymatebion i helpu i lunio blaenoriaethau lefel uchel Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2022-25. Mae'r Cynllun yn rhoi arweiniad i fusnesau a sefydliadau lleol sy'n dymuno gwneud cais am gyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

2. Llifogydd yn Llanybydder, Llandysul a Phont-Tyweli (Mehefin - Awst 2022)

Cynhaliodd Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ymgysylltiad 12 wythnos a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin i ofyn barn y cyhoedd i gael gwell dealltwriaeth o'r effaith y mae llifogydd yn ei chael ar y cymunedau.

Nifer yr ymatebion: 124 (58: Llanybydder a 66: Llandysul/Pont-Tyweli).

Beth nesaf: Bydd ymatebion yn bwydo i gam nesaf y gwaith ac yn ffurfio rhan o wneud penderfyniadau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i ddylunio a gweithredu cynllun lleihau risg o lifogydd.

3. Arolwg Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru (Gorffennaf - Medi 2022)

Ymgysylltiad 7 wythnos a gynhelir gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys) i fod yn sail i Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru 2022-25.

Nifer yr ymatebion: 69 (73% o Bowys / 27% o Geredigion)

Beth nesaf: Lanswyd Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru 2022-25 ym mis Mawrth 2023. Mae'r Cynllun yn nodi sectorau allweddol a sgiliau a blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad rhanbarthol i gefnogi swyddi a thwf yn rhanbarth Canolbarth Cymru.

4. Addysg ôl-16 (Hydref 2022)

Cynhaliodd Ysgolion a Diwylliant 4 wythnos o ymgysylltu â busnesau, rhieni, disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd a myfyrwyr prifysgol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am yr ystod o gyrsgiau a'r math o ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer dysgwyr ôl-16.

Nifer yr ymatebion: 1,307 i'r arolwg ar-lein.

Beth nesaf: Bydd yr ymatebion yn bwydo i mewn i'r adolygiad o ddarpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion.

5. Defnydd o Adeiladau'r Cyngor yn y dyfodol (Rhagfyr 2022/Ionawr 2023)

Cynhaliodd Economi ac Adfywio ymgysylltiad 8 wythnos gyda'r cyhoedd i ofyn am eu barn ar y ffordd orau o ddefnyddio prif swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol.

Nifer yr ymatebion: 533 (508 i'r arolwg ar-lein a 25 i fersiwn bapur). Cafwyd ymatebion ychwanegol hefyd drwy Clic.

Beth nesaf: Bydd adborth yn cael ei ystyried, ochr yn ochr ag adborth gan staff y Cyngor a data ar ddefnyddio desgiau ac ystafelloedd cyfarfod mewn ardaloedd swyddfa hybrid pilot.

6. Aseiad Strategol Trosedd ac Anhrefn (Ionawr – Mawrth 2023)

Cynhaliodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion ymgysylltiad 8 wythnos i gasglu barn am drosedd ac anhrefn yn y sir.

Nifer yr ymatebion: 89 o ymatebion i'r arolwg ar-lein, 3 ymateb ar arolwg papur a 9 ymateb o ddigwyddiad Cyngor Ieuencid Ceredigion.

Beth nesaf: Bydd yr ymatebion yn sail i Gynllun Cyflawni Diogelwch Cymunedol Ceredigion sy'n ceisio amddiffyn cymunedau lleol rhag trosedd a helpu pobl i deimlo'n fwy diogel.

7. Cynllun Gweithredu Dementia Ceredigion (Chwefror/Mawrth 2023)

Cynhaliodd ein rhaglen Llesiant Gydol Oed 6 wythnos o ymgysylltu â'r cyhoedd, gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn, i sefydlu sut yr ydym yn gwneud a beth y gallwn ei wneud i wella bywydau pobl sy'n byw gyda dementia a'r rheini sy'n gofalu amdanynt.

Nifer yr ymatebion: 35 o'r arolwg ar-lein ynghyd â 10 o sesiynau galw heibio mewn 6 lleoliad ar draws y sir. Casglwyd ymatebion ychwanegol o ymweliadau wyneb yn wyneb â 5 grŵp/cartref gofal, sesiynau ffocws gyda darparwyr gwasanaethau a 55 x galwadau fideo un i un.

Beth nesaf: Bydd ymatebion yn bwydo i ddatblygiad Cynllun Gweithredu Dementia Ceredigion.

Ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd yn 2022-23

Cynhaliwyd pum ymarfer ymgynghori i gael adborth y cyhoedd ar gynlluniau neu gynigion penodol. Cyflwynwyd canlyniadau'r ymarferion ymgynghori i'r Cabinet ochr yn ochr â'r cynllun neu'r polisi terfynol. Mae'r holl gynlluniau a pholisïau a gymeradwywyd bellach wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor (ar wahân i'r Strategaeth Mamolaeth a Blynnyddoedd Cynnar ar gyfer Canolbarth Cymru a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ar 06/06/23).

1. Adroddiad Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (Mai/Mehefin 2022)

Cynhaliodd Ysgolion a Diwylliant ymgynghoriad 4 wythnos i geisio barn partïon a chanddynt fuddiant ar adroddiad drafft yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Roedd y ddogfen ddrafft yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad helaeth argaeledd gofal plant yng Ngheredigion.

Nifer yr ymatebion: 17

Effaith yr Ymgynghoriad: Roedd pobl yn cytuno'n gyffredinol â chynnwys yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Mae'n debyg bod hyn oherwydd yr ymgynghoriad helaeth a gynhaliwyd yn 2021-22 i fod yn sail i adroddiad yr asesiad. Datblygwyd y cynllun gweithredu yn unol â'r ddogfen wreiddiol.

2. Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi (Gorffennaf-Medi 2022)

Cynhaliodd Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ymgynghoriad 8 wythnos i ofyn am farn partïon a chanddynt fuddiant ar sut y dylai'r cyngor ymgysylltu â'r cyhoedd ac i ofyn am adborth ar y polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad drafft.

Nifer yr ymatebion: 112

Effaith yr Ymgynghoriad: Diwygiwyd y polisi terfynol mewn ymateb i'r adborth a gafwyd.

3. Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Canolbarth Cymru (Gorffennaf/Awst 2022)

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhanbarthol 13 wythnos gan Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ofyn am farn partiön a chanddynt fuddiant ar y strategaeth hon sy'n canolbwyntio ar gymorth integredig yn ystod 7 mlynedd gyntaf bywyd plentyn.

Nifer yr ymatebion: 137

Effaith yr Ymgynghoriad: Gwnaed gwelliannau i'r strategaeth yn seiliedig ar adborth a gafwyd.

4. Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022-27 (Awst/Medi 2022)

Cynhaliodd Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ymgynghoriad 5 wythnos i ofyn barn trigolion Ceredigion ar Strategaeth Gorfforaethol ddrafft Cyngor Ceredigion a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol arfaethedig dros y 5 mlynedd nesaf.

Nifer yr ymatebion: 51

Effaith yr Ymgynghoriad: Cafodd gwelliannau a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad eu hymgorffori yn y ddogfen derfynol.

5. Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2023-28 (Hydref 2022-Ionawr 2023)

Cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ymgynghoriad 14 wythnos i ofyn am adborth gan y cyhoedd ar gynnwys y Cynllun Llesiant Lleol drafft ar gyfer Ceredigion. Roedd y Cynllun drafft yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad helaeth, gan gynnwys ymgynghori, a gynhaliwyd yn 2021-22 ar gyflwr llesiant yng Ngheredigion.

Nifer yr ymatebion: 34 o arolygon wedi'u cwblhau, ynghyd ag adborth o sesiynau ffocws gydag 16 ysgol a Chyngor Ieuenctid Ceredigion. 7 ymateb manwl gan sefydliadau lleol a chenedlaethol a 15 ymateb ar y wal syniadau ar 'Dweud eich Dweud'.

Effaith yr Ymgynghoriad: Ymgorfforwyd sylwadau ac adborth yn y ddogfen derfynol a byddant hefyd yn gwella datblygiad y cynllun cyflawni manwl.

Ymarferion 'hysbysu' a gynhaliwyd yn 2022-2023

Mewn rhai achosion, mae gan y Cyngor ddyletswydd i hysbysu'r cyhoedd am gynnig a rhoi ffordd i bartïon a chanddynt fuddiant ymateb. Cynhaliwyd pedwar ymarfer 'hysbysu' yn ystod y cyfnod.

1. Cais am Gofrestru Maes Erw Goch

Mae'r holl ohebiaeth, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd y Cabinet sy'n ymwneud â'r mater hwn, wedi'u rhestru ar wefan y Cyngor

Nifer yr ymatebion: 2

2. Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol

Gwnaed dau Orchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol i gadw a diwygio nifer o fesurau rheoli traffig a gyflwynwyd yn flaenorol yn ystod pandemig Covid-19 yn Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Cheinewydd trwy Orchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro.

Nifer yr ymatebion: 34, ynghyd â thrafodaethau gyda'r Fforwm Anabledd

3. Cynlluniau Pensaer ar gyfer Ysgol Ardal Gymunedol Dyffryn Aeron

Cynhaliwyd noson agored ar gampws Theatr Felin-fach i bobl weld cynlluniau'r pensaer oedd hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Nifer yr ymatebion: 48

4. Cau Llwybr Troed Ysgol Uwchradd Aberaeron

Rhestrir copi o'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, ymatebion a sylwadau ar ymatebion gan y Cyngor ar wefan y Cyngor. Mae pob ymatebydd hefyd yn cael ymateb ysgrifenedig gan y Cyngor.

Nifer yr ymatebion: 8

Casgliad

Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gyflawni Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi newydd y Cyngor 'Siarad, Gwranddo a Gweithio Gyda'n Gilydd'.

Mae llawer yn cael ei wneud i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid, ond mae'r dull corfforaethol o weithredu yn anghyson. Fel arfer, cyflwynir adborth ar ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori i gyfarfodydd y Cabinet ac mae angen gwneud mwy i sicrhau ein bod yn datblygu mecanwaith i adrodd yn ôl yn gyson i'r rheini sydd wedi rhannu eu barn.

Mae nifer yr ymatebion i ymgyrchoedd wedi'u targedu yn isel ar y cyfan. Cafodd y Cyngor ei feirniadu am ddiffyg gweithgareddau ymgysylltu yn ystod pandemig Covid-19, ond ar ôl Covid mae pryderon bod y lefel uwch o ymgynghori eisoes yn arwain at flinder ymgynghori a gorlwytho.

Mae'r gyfradd ymateb ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus y DU yn 0.7% ar gyfartaledd ac fe wnaeth rhai o'n hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori gyflawni hyn, er enghraifft ein 'Defnydd yn y Dyfodol mewn Adeiladau'r Cyngor' (0.75%). Nid ydym yn dibynnu ar ymatebion arolygon yn unig, fodd bynnag, ac ni allwn seilio ein cyfradd llwyddiant yn unig ar nifer yr ymatebion i arolygon. Mae rhai ymgyrchoedd wedi'u targedu at ardaloedd penodol, er enghraifft 'Llifogydd yn Llanybydder, Llandysul a Phont-Tyweli', byddai hyn yn lleihau nifer yr ymatebion a ragwelir. Byddai dadansoddiad pellach o lefel, math a ffynhonnell yr ymatebion yn ddefnyddiol, ond mae hyn yn anodd gydag adnoddau cyfyngedig.

Mae enghreifftiau da o ymgysylltu parhaus wedi'u rhestru ar dudalennau 7 ac 8 ac mae angen i ni wneud mwy gyda'r adborth gwerthfawr gan y grwpiau rhanddeiliaid hyn fel bod eu barn yn cyfrannu at gyd-destun ehangach ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

Rydym yn gweithio gyda llawer o bartneriaid strategol, ac mae hyn yn rhoi cyfle da i ni rannu adnoddau a lleihau blinder ymgynghori. Gall gweithio gydag eraill arwain at rai anghysondebau, ond bydd pecyn cymorth ymgysylltu corfforaethol cadarn yn helpu i fynd i'r afael â hyn.

Defnyddir ystod o ddulliau i ymgysylltu â'n cymunedau yng Ngheredigion ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddatblygu dulliau ymgysylltu arloesol gan gydnabod bod yr adnodd ar gyfer y gwaith hwn yn gyfyngedig.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae gennym ddyletswydd glir i ymgysylltu ac ymgynghori â'n rhanddeiliaid ac mae angen i ni gynnal cydbwysedd rhwng dulliau ar-lein, copïau papur a chyfleoedd wyneb yn wyneb fel y gall trigolion a rhanddeiliaid gymryd rhan yn effeithiol gyda phenderfyniadau'r Cyngor.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	4 Gorffennaf 2023
LLEOLIAD:	Hybrid/Siambr y Cyngor
TEITL:	Adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ynghylch Adroddiad Blynyddol y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-2023
DIBEN YR ADRODDIAD:	Darparu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2023

CEFNDIR:

Cafodd Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion 'Siarad, Gwranddo a Gweithio Gyda'n Gilydd' ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 04/10/2022 a'i gyhoeddi ar 18/10/2022. Cadarnhaodd Swyddogion mai dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf sy'n amlinellu ein cynnydd wrth gyflawni'r Polisi.

Ar ôl trafod ac ystyried yr Adroddiad Blynyddol, cytunodd yr Aelodau ar y canlynol ac argymhellwyd bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

- cytuno ar gynnwys Adroddiad Blynyddol y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-2023

Yn amodol ar ystyried y canlynol:

1. Mewn perthynas â Nod 2, *Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau*, Gweithred: Gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rheini sydd wedi cymryd rhan yn ein hymarferion ymgysylltu, Cynnydd: Mae dull cyson yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno ar draws holl wasanaethau'r Cyngor yn ystod 2023-2024, Cyfrifoldeb: Pob Rheolwr Corfforaethol – mae'r statws RAG yn goch, dim cynnydd wedi'i wneud,
 - Cytunodd yr Aelodau y dylai cyfranogwyr yr holl ymarferion ymgysylltu dderbyn y canlyniadau
 - Bod adroddiad monitro sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y Cyfarfod: 4 Gorffennaf 2023****Teitl: Ystyried dull tymor canolig o gomisiynu gwasanaeth 'Tîm a Reolir' ar gyfer y Tîm Gofal a Gynlluniwyd, Porth Cynnal, i sicrhau bod digon o gapasiti i ddarparu gwasanaeth diogel a hyfyw yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor o ran diogelu.****Pwrpas yr Adroddiad: Rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am wasanaeth y Tîm allanol a Reolir a ddechreuodd yng Ngheredigion ym Medi 2022. Hefyd amlinellu cynnig i gaffael contract newydd mwy hirdymor wrth i'r argyfwng recriwtio barhau ym maes gofal cymdeithasol ledled y Deyrnas Gyfunol.****Er: Penderfyniad****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Alun Williams, Aelod Cabinet dros Gydol Oes a Llesiant****1. CEFNDIR**

Yn ystod haf 2022 roedd yn amlwg bod argyfwng recriwtio sylweddol o ran gweithwyr cymdeithasol cymwys a bod hyn yn rhoi pwysau ar allu Porth Cynnal i gyflawni dyletswyddau diogelu statudol i blant. Mae'r swyddi gwag ar eu gwaethaf yn y Tîm Plant - Gofal a Gynlluniwyd.

Mae gofyniad rheoleiddiol ar i ddyletswyddau amddiffyn a diogelu plant gael eu cyflawni gan weithwyr cymdeithasol cymwys sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae ymgyrch recriwtio barhaus yn digwydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol cymwys yn cael eu recriwtio yn barhaol i'r gwasanaeth.

Aethpwyd i'r afael ag effaith tymor byr y swyddi gwag drwy gomisiynu gwasanaeth Tîm a Reolir drwy gwmni allanol. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys tîm ac iddo Reolwr Tîm a 7 gweithiwr cymdeithasol. Maent i gyd yn brofiadol o ran gwneud ymyriadau tymor byr i gefnogi gwaith cymdeithasol. Mae'r Tîm a Reolir wedi cael ei weithredu fel tîm cyflawn sy'n ymgymryd â phob agwedd ar ddiogelu, amddiffyn plant a gwaith llys teulu.

Roedd angen cymryd y camau hyn i gadw plant yn ddiogel a sicrhau'r gweithlu, Aelodau Etholedig, rheoleiddwyr a phartneriaid bod penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud i gynnal gwasanaeth sy'n cydymffurfio ac sy'n gweithredu'n effeithlon i gyflawni ei ddyletswyddau. Cafodd yr aelodau eu briffio ar y cam a gymerwyd ac

aethpwyd ati i gaffael gwasanaeth Tîm a Reolir o fewn amserlen dderbyniol, er mwyn cael hyder yn effeithiolrwydd y gwasanaeth.

Cytunwyd ar y contract ar 20 Medi 2022 am gyfnod o chwe mis i ddechrau, gyda modd i'w ymestyn am dri mis ac yna am dri mis pellach. Mae'r ddau estyniad yma wedi cael eu gweithredu gan ymestyn contract presennol y Tîm a Reolir hyd 20 Medi 2023.

Yn ystod y cyfnod hwn mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cynnal Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ar draws y gwasanaeth Llesiant Gydol Oes. Mae AGC wedi cadarnhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth i gyd, a'r polisiau a gweithdrefnau, ac yn eu dilyn. Ni fyddai wedi bod yn bosib cyflawni hyn oni bai am gymorth y Tîm a Reolir a'r defnydd craff a wnaed ohono yn y gwasanaethau rheng flaen.

2. Y Camau Nesaf a gynigir

Mae'n amlwg bod argyfwng recriwtio maes Gofal Cymdeithasol yn un dwfn a pharhaus ledled holl awdurdodau lleol Cymru. Bydd yr atebion a'r strategaethau a ddefnyddir i leddfu'r angen dybryd am weithwyr cymdeithasol parhaol yng Ngheredigion yn cymryd amser i'w datblygu a'u sefydlu. Mae'n amlwg na fydd hyn yn digwydd ymhén ychydig fisoedd ac mae'n ddoeth gwneud ystyriaethau tymor canolig i gael sefydlogi wrth fynd ymlaen ac i gynnal y dyletswyddau statudol.

Er mwyn cydbwysu sefydlogrwydd y ddarpariaeth a gwerth am arian, byddai contract mwy hirdymor hefyd yn rhoi mwy o sefydlogrwydd i ddarparwr allanol gan ostwng y prisiau sydd ynghlwm â'r gwaith. Ar hyn o bryd rhagwelir y gellir arbed tua 50% drwy fynd am gontract aml-flwyddyn yn hytrach na chontract byr arall o chwe mis. Byddai angen contract hyblyg o hyd ar gyfer estyniadau dewisol, a hefyd y gallu i leihau'r Tîm a Reolir yn ofalus, gam wrth gam, wrth i'r recriwtio ddwyn ffrwyth.

Mae'r opsiynau caffael penodol sydd ar gael yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan fod Fframweithiau posib a allai gynnig llwybr i'r farchnad. **Cynigir bod cyfnod y contract cychwynnol yn dair blynedd o hyd, gydag estyniad(au) dewisol posib ar ôl y cyfnod yna.** Y bwriad hefyd yw bod yna gymal cam-i-lawr ar gyfer y tair blynedd cyntaf fel bod modd lleihau'r Gwasanaeth a Reolir wrth i Weithwyr Cymdeithasol parhaol gael eu recriwtio.

3. Ystyriaethau Ariannol

Rhagwelir y byddai cost net y trefniant hwn hyd at oddeutu £300k y flwyddyn, gan ystyried y nifer bresennol o swyddi gwag y mae contract presennol y Tîm a Reolir yn eu cyflenwi. Byddai contract blwyddyn neu ddwy flynedd o hyd yn dal i gynnig cost ratach na'r contract presennol, ond byddai contract tair blynedd yn rhoi mwy o sicrwydd yn ogystal â'r gost leiaf fesul blwyddyn.

Ar gyfer 2023/24 byddai'r effaith ariannol yn cael ei hariannu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, i osgoi rhoi pwysau gormodol ar Borth Cynnal a gwasanaethau eraill. Drwy ymrwymo i gontract aml-flwyddyn byddai'n creu ymrwymiad ariannol

sy'n ymestyn i'r blynyddoedd ariannol a ddaw. Felly, y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol bresennol, byddai pwysau cyllidebol sylfaenol o tua £300k i'w ariannu fel rhan o broses pennu Cyllideb 24/25. Sylwer – mae'r holl ffigurau yn dibynnu ar ganlyniad y broses gaffael ei hun.

4. Casgliad

Er mwyn cynnig sefydlogrwydd parhaus a thymor canolig i'r gwasanaeth, ar gost sy'n dderbyniol, caiff y camau gweithredu eu cynnig gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) a'u cefnogi gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151).

A wnaed Asesiad Effaith Integredig? Os na, esboniwch pam

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Crynodeb:
Hirdymor: Ddim yn berthnasol
Integreiddio: Ddim yn berthnasol
Cydweithio: Ddim yn berthnasol
Cynnwys: Ddim yn berthnasol
Atal: Ddim yn berthnasol

Argymhellion:

1. Nodi cyngor y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal, sef bod yr amser wedi dod i benderfynu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel i blant a'u teuluoedd drwy ddefnyddio Tîm a Reolir dros gyfnod hirach.
2. Awdurdodi'r Swyddogion i fynd ati i gomisiynu, drwy broses gaffael briodol, gwasanaeth cymwys Tîm a Reolir i ymgymryd â dyletswyddau amddiffyn plant fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Trosolwg a Chraffu: Cymunedau Iachach – 03/07/23

Blaenoriaethau Corfforaethol: Creu cymunedau gofalgar ac iach

Goblygiadau Ariannol a Chaffael: Fel y nodir yn yr adroddiad

Pwerau Statudol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Atodiadau: Dim

Tudalen 556

**Swyddog Arweiniol
Corfforaethol:**

Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol
Corfforaethol dros dro - Porth Cynnal
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol -
Cyllid a Chaffael

Swyddogion Adrodd:

Audrey Somerton-Edwards
Duncan Hall

Dyddiad:

29 Mehefin 2023